
Ymddiriedolaeth | BBC



RHAN UN:

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2006/2007

Arolwg ac asesiad Ymddiriedolaeth y BBC

# Cynnwys

2 Cyflwyniad y Cadeirydd
5 Trosolwg

Ymddiriedolaeth y BBC
9 Beth ydyw a beth mae'n ei wneud
12 Yr Ymddiriedolwyr

Perfformiad y BBC
15 Gwasanaethau
28 Cyllid a busnes

Llywodraethedd y BBC
32 Yr Ymddiriedolaeth
46 Y Llywodraethwyr

51 Cynlluniau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer 2007/2008
52 Cysylltu ag Ymddiriedolaeth y BBC

## Mae'r cyfnod hwn yn un tyngedfennol i'r BBC...

Mae gennym Siarter newydd, setliad newydd ar gyfer ffi'r drwydded, diffiniad newydd o Bwrpasau Cyhoeddus y BBC, a system lywodraethu newydd sy'n sicrhau bod cynulleidfaoedd wrth wraidd yr hyn a wnawn. Mae gan y cynulleidfaoedd hynny fwy o ddewis nag erioed o'r blaen: mwy o sianelau, mwy o ffyrdd o'u derbyn ac, yn gynyddol, fwy o ffyrdd o gyfrannu atynt. Ni all y BBC sefyll yn llonydd yn y byd hwn.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn adolygu gweithgareddau'r BBC dros y flwyddyn ddiwethaf yng nghyd-destun newid sylweddol mewn llawer o feysydd y mae'r BBC yn gweithredu ynddynt. Yn Rhan Un, rhydd Ymddiriedolaeth y BBC drosolwg strategol. Yn Rhan Dau, rhydd Bwrdd Gweithredol y BBC arolwg gweithredol, ynghyd â data manwl ar berfformiad a datganiadau ariannol.

# Cyflwyniad y Cadeirydd



**Syr Michael Lyons**
Cadeirydd, Ymddiriedolaeth y BBC

## Hwn yw adroddiad blynyddol cyntaf Ymddiriedolaeth y BBC. Mae'n wahanol iawn i adroddiadau blynyddol blaenorol y BBC, sy'n adlewyrchu'r system lywodraethu newydd a gwahanol iawn sydd bellach ar waith o fewn y BBC.

Yr Ymddiriedolaeth yw corff sofren y BBC. Mae'n gweithio ar ran y cyhoedd sy'n ariannu'r BBC. Mae'r cyhoedd yn cynnwys llawer o grwpiau amrywiol sy'n adlewyrchu oedran, daearyddiaeth, diddordebau, crefydd, cefndir ethnig a llawer o ffactorau eraill. Fel Ymddiriedolwyr, sy'n cynrychioli budd y cyhoedd o fewn y BBC, byddwn yn gweithio i ddeall barn a disgwyliadau pawb. Yna ein gwaith ni yw arddel doethineb i wneud penderfyniadau sy'n pennu cyfeiriad y BBC.

Yn anochel, ni wnawn blesio pawb, ond gobeithiaf y daw'r rhan fwyaf o bobl i gydnabod ein bod yn ceisio hyrwyddo budd y cyhoedd o ran y ffordd y gweithiwn i gyflawni ein nodau allweddol fel Ymddiriedolwyr y BBC.

Y nod allweddol cyntaf o blith y rhain yw diogelu annibyniaeth y BBC a sicrhau nad yw buddiannau allanol yn tarfu arno, boed hynny'n wleidyddol, yn fasnachol, neu o unrhyw ffynhonnell arall. Ni all y BBC weithredu er budd y cyhoedd oni bai ei fod yn annibynnol ac yn cael ei ystyried yn annibynnol.

Ar ôl hynny, ein nod allweddol nesaf yw sicrhau bod y BBC yn darparu gwasanaethau nodedig o ansawdd uchel i holl unigolion a holl gymunedau'r Deyrnas Unedig – gwasanaethau sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl, ac yn cyflawni Pwrpasau Cyhoeddus y BBC a nodir yn y Siarter.

Mae'r Siarter yn ein helpu i gyflawni ein nodau drwy ddarparu dulliau newydd o lywodraethu, a ddisgrifir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Mae cryn dipyn o waith yr Ymddiriedolaeth hyd yma wedi golygu ymgynghori â'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod y fframwaith strategol newydd a ddatblygir gennym yn cael ei lywio gan ein dealltwriaeth o'r math o BBC y mae'r cyhoedd am ei weld – un a wnaiff gynhyrchu'r rhaglenni a darparu'r gwasanaethau y mae'r cyhoedd wir yn eu gwerthfawrogi mewn ffordd ddibynadwy.

Gan fod y gwaith hwn yn mynd rhagddo, mae ein hasesiadau o berfformiad y BBC yn yr adroddiad hwn yn rhai dros dro ac yn anghyflawn, ond pan fo tystiolaeth wrthrychol ar gael rydym wedi ceisio gwneud sylwadau didwyll. Mae rhai negeseuon yn dod i'r amlwg yn barod: mae'r cyhoedd yn ymddiried yn y BBC ac yn gwerthfawrogi cryn dipyn o'r hyn a gynhyrchir ganddo, ond mae am weld BBC mwy arloesol. Mae'r rhain yn negeseuon i reolwyr y BBC a danlinellir gennym yn yr adroddiad hwn.

Rhaglenni sy'n dwyn cynulleidfaoedd gwahanol ynghyd ac sy'n apelio i bawb waeth beth fo'u hoedran, daearyddiaeth neu gefndir fu fy ffefrynnau i o blith rhaglenni'r BBC erioed – rhaglenni a fu'n wirioneddol boblogaidd megis *Planet Earth*, *Life on Mars* a *Doctor Who* ar BBC One. Fodd bynnag, nid dim ond rhaglenni sydd â chyllidebau mawr megis y rhain y mae cynulleidfaoedd yn eu gwerthfawrogi ac yn eu mwynhau. Nid yw ansawdd uchel o reidrwydd yn golygu cost uchel. Mae'r cyhoedd am weld y BBC yn cynhyrchu mwy o raglenni sy'n uchelgeisiol yn ddiwylliannol ac yn greadigol. Rhan bwysig o'n gwaith yw dod o hyd i ffyrdd o alluogi'r BBC i gyrraedd safonau uwch – ond nid ar draul gwerth am arian.

Bydd BBC annibynnol sy'n darparu allbwn o ansawdd uchel yn rhoi sylfaen gadarn i ni ar gyfer ein trydydd nod allweddol sef sicrhau bod y BBC yn gwneud cyfraniad pwysig iawn at fywyd cymdeithasol, economaidd a dinesig y DU. Mae'r uchelgais hon yn un fawr. Gallwn ei chyflawni drwy sicrhau bod y BBC yn ychwanegu'n sylweddol at rym creadigol ac economaidd y DU, a thrwy sicrhau bod y BBC yn cyfrannu at enw da'r DU yn rhyngwladol.

Wrth weithio i gyflawni'r nodau hyn, byddwn yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw gan sicrhau ein bod bob amser yn barod i dderbyn safbwyntiau o sawl cyfeiriad gwahanol.

Fel Ymddiriedolwyr nid ydym yn gyfrifol am weithrediadau o ddydd i ddydd yn y BBC – cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'i staff yw hynny. Ein rôl ni yw sicrhau bod ganddynt

flaenoriaethau clir a'u bod yn defnyddio eu hadnoddau yn dda – i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n cyrraedd eu cynulleidfaoedd ac yn sicrhau gwerth am arian ac effeithlonrwydd. Byddwn yn dwyn rheolwyr y BBC i gyfrif yn erbyn y safonau hyn mewn modd manwl gywir.

O ran newyddiaduraeth y BBC, byddwn yn ceisio sicrhau bod gohebiaeth y BBC yn cyrraedd y safonau uchaf o ran bod yn gywir ac yn ddiduedd sy'n hanfodol i gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd. Yn yr adroddiad hwn cyflwynwn ganlyniadau rhywfaint o waith diweddar – a ddechreuwyd gan y Llywodraethwyr ac a gwblhawyd gan yr Ymddiriedolaeth – i sicrhau bod y BBC mewn sefyllfa briodol i ateb yr heriau newydd mewn perthynas â bod yn ddiduedd. Rhydd hyn neges amserol i'n hatgoffa nad yw bod yn ddiduedd ond yn berthnasol i newyddion a materion cyfoes. Mae'r egwyddorion sydd ynghlwm â bod yn ddiduedd yn berthnasol i feysydd eraill o weithgareddau'r BBC.


Fel sy'n gyffredin i holl sefydliadau'r cyfryngau mae'r BBC yn wynebu heriau newydd wrth i dechnoleg a marchnadoedd newid. Mae cynulleidfaoedd bellach yn disgwyl gallu penderfynu ymhle, pryd a sut y defnyddiant eu cyfryngau, ac maent yn dod yn fwyfwy medrus yn dod o hyd i'r hyn maent am ei gael. Mae oedolion ifanc, er enghraifft, fel y dangoswn yn yr adroddiad hwn, yn troi eu cefnau ar deledu a radio ac yn troi at fathau newydd o adloniant a gynigir ar-lein. Ni all y BBC sefyll yn llonydd yn y byd hwn. Mae'n hanfodol ein bod yn annog y BBC i ailffurfio ei hun er mwyn diwallu anghenion a bodloni disgwyliadau newidiol y cyhoedd. Rydym am i'r BBC fod wrth wraidd y broses o ddatblygu gwasanaethau newydd i'r cyhoedd a chwarae rhan lawn ym marchnad newydd y cyfryngau.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod mai dim ond un o blith llawer o ddarparwyr y cyfryngau yw'r BBC – er ei fod yn un pwysig iawn – a gwyddom fod yr amrywiaeth o ddewis sydd ar gael drwy farchnad y cyfryngau yn y DU sy'n ffynnu yn bwysig iawn i'r cyhoedd. Mae cynnal yr amrywiaeth hwnnw o ddewis er budd y cyhoedd. Mae'n rhaid i'r BBC ochel rhag defnyddio ei bŵer economaidd sylweddol mewn ffyrdd a allai rwystro menter neu arloesedd gan eraill.

Mae'n fraint fawr cael bod yn gyfrifol am y BBC ac mae'n bleser o'r mwyaf gennyf fod yn Gadeirydd. Hoffwn dalu teyrnged i ragflaenwyr yr Ymddiriedolaeth, sef Llywodraethwyr y BBC, am y gwaith a wnaed ganddynt dros sawl blwyddyn i sefydlu ac amddiffyn annibynniaeth y BBC ac am sicrhau mai'r BBC yw prif sefydliad diwylliannol Prydain. Hoffwn dalu teyrnged arbennig i Michael Grade a wnaeth cymaint, fel Cadeirydd olaf y Llywodraethwyr a Chadeirydd cyntaf yr Ymddiriedolaeth, i lunio'r system lywodraethu newydd a sicrhau ei bod ar waith erbyn y Siarter newydd. Dylid hefyd dalu teyrnged i Chitra Bharucha a ddaeth yn Gadeirydd Dros Dro ar ôl i Michael Grade ymddiswyddo. Gyda'i chyd-Ymddiriedolwyr sefydlwyd cryn dipyn o'r hyn a fydd yn sail i'r Ymddiriedolaeth.

Yn y pen draw, dim ond un ased sydd gan y BBC – ei bobl, p'un a ydynt yn rhan o'i staff ei hun neu'n cyfrannu at y BBC o'r tu allan. Mae fy nghyd – Ymddiriedolwyr a minnau yn cydnabod bod y BBC yn cael ei lywio gan broffesiynoldeb, arloesedd a chreadigrwydd ei bobl a byddwn yn gweithio i feithrin ac ysgogi'r rhinweddau hynny.

Weithiau gofynnwn i wneuthurwyr rhaglenni'r BBC fod yn ddewr yn ogystal â bod yn broffesiynol, yn arloesol ac yn greadigol. Mae Alan Johnston, gohebydd Gaza'r BBC, sydd, fel yr ysgrifennaf hwn, yn dal i gael ei gaethiwo, yn nodweddu'r rhinwedd honno – gohebydd clodwiw a wynebodd risg ddyddiol i sicrhau bod cynulleidfaoedd y BBC, drwy ei lygaid a'i glustiau ef, yn profi'r hyn sy'n digwydd yn yr ardal gythryblus honno yn uniongyrchol. Dewrder pobl fel Alan Johnston yw un o'r pethau sy'n gwneud y BBC yn arbennig.



**Syr Michael Lyons**
Cadeirydd
19 Mehefin 2007

Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth ar 1 Ionawr 2007. Ymunodd Syr Michael Lyons â'r Ymddiriedolaeth fel Cadeirydd ar 1 Mai 2007

"Roedd yn arfer bod yn hen ffasiwn a nawr maent yn creu ac yn cyflwyno rhaglenni newydd i bawb, nid dim ond y genhedlaeth hŷn."

Diffiniad digymell o BBC One. Merch rhwng 18 a 24 oed, o Wlad yr Haf, yn cyfrannu at ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth ar drwyddedau gwasanaeth.

# Trosolwg

## Yn seiliedig ar ein chwe mis cyntaf fel Ymddiriedolwyr, ein hasesiad dros dro yw bod y BBC yn dod yn fwy effeithlon, ac mae'n cynhyrchu amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel ar draws ei holl lwyfannau, ond mae'n rhaid iddo wneud mwy i ymateb i alwadau'r cyhoedd am fwy o wreiddioldeb.

**Dengys ein gwaith ymchwil ar gynulleidfaoedd fod cymeradwyaeth y cyhoedd i'r BBC yn parhau i fod yn gref ond mae cynulleidfaoedd am i'r BBC ddarparu syniadau newydd ar gyfer rhaglenni yn rheolaidd. Golyga hyn fod yn rhaid i'r BBC fod yn fwy uchelgeisiol yn greadigol. Deallwn fod i hyn y risg o ambell fethiant – a derbyniwn y risg honno ar yr amod nad yw'r BBC yn gwastraffu ei arian a bod tystiolaeth glir ei fod yn anelu at fod yn wreiddiol ac yn nodedig o ran ei allbwn creadigol.**

**Mae'r gallu i gymryd risgiau creadigol yn un o'r ffactorau allweddol sy'n cyfiawnhau'r ffaith bod y BBC yn cael ei ariannu gan y cyhoedd. Bydd yn sail i'n penderfyniadau ynghylch buddsoddi ffi'r drwydded yn y misoedd i ddod. Fel Ymddiriedolwyr byddwn yn sicrhau bod y BBC yn parhau i gyfrannu at rym creadigol ac economaidd y DU drwy ddarparu allbwn nodedig o ansawdd uchel i'w gynulleidfaoedd sy'n eu hysbysu, eu haddysgu a'u diddanu.**

### Y byd y mae'r BBC yn bodoli ynddo bellach

Mae tirlun y cyfryngau yn parhau i drawsnewid yn gyflym iawn wrth i sianelau a gwasanaethau newydd gael eu lansio ac wrth i rai presennol ddatblygu mewn ymateb i'r gystadleuaeth gynyddol. Yn y farchnad hon sy'n ffynnu, mae cynulleidfaoedd yn datblygu'n gyflym hefyd.

Mae rhai, yn enwedig cynulleidfaoedd iau, yn troi eu cefnau ar y cyfryngau traddodiadol megis teledu a radio ac yn dod o hyd i ffynonellau newydd o adloniant a gwybodaeth, er enghraifft gemau ar-lein a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol.

Ar yr un pryd, erys cynulleidfaoedd eraill yn ymrwymedig i'r sianelau traddodiadol, ond mae eu disgwyliadau yn cynyddu'n gyflym o ran uchelgais, arloesedd a gwerthoedd cynhyrchu uchel.

Yn y byd hwn lle ceir newid cyflym a chyson mae'n rhaid i'r BBC barhau i fod yn ymrwymedig i'w weledigaeth wreiddiol sef darparu gwybodaeth, addysg ac adloniant o ansawdd uchel, ond hefyd sicrhau ei fod yn ymwybodol o chwaeth a disgwyliadau newidiol cynulleidfaoedd gwahanol niferus y BBC.

Dim ond drwy sicrhau bod popeth a wneir gan y BBC yn cael ei lywio gan werth cyhoeddus a buddiannau'r cyhoedd fel talwyr ffi'r drwydded y gellir cyflawni hyn. Rôl Ymddiriedolaeth y BBC yw sicrhau bod hyn yn digwydd.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynrychioli'r cyhoedd

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynrychioli buddiannau'r cyhoedd. Fel Ymddiriedolwyr y BBC ein dyletswydd gyntaf yw diogelu annibynniaeth y BBC rhag i fuddiannau allanol darfu arno, boed hynny'n wleidyddol, yn fasnachol, neu o unrhyw ffynhonnell arall. Dim ond os yw'n ddiduedd, yn gywir, o ansawdd uchel ac yn werth da am arian y gellir amddiffyn y BBC. Ein rôl fel Ymddiriedolwyr yw sicrhau bod y BBC yn cyflawni'r rhinweddau hyn.

Rydym yn dwyn y Cyfarwyddwr Cyffredinol i gyfrif am ddarparu'r gwasanaethau sy'n cyflawni Pwrpasau Cyhoeddus y BBC a'i flaenoriaethau presennol – a bennir ar y cyd â ni ac a gaiff eu llywio gan safbwyntiau'r cyhoedd.

Yr Ymddiriedolaeth yw corff sofren y BBC. Mae'n gwbl annibynnol ar Fwrdd Gweithredol y BBC a rheolwyr y BBC sy'n gyfrifol am redeg y BBC o ddydd i ddydd.

### Mae'r BBC yn dod yn fwy effeithlon

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r BBC wedi dod yn llawer mwy effeithlon sydd wedi golygu bod mwy o arian ar gael i'w wario ar gynnwys. Dros y ddwy flynedd diwethaf arbedodd y BBC £228miliwn, ond digwyddodd hyn ar draul 1,891 o swyddi a gollwyd yn anffodus. Mae'r ymgyrch i ddod yn fwy effeithlon yn parhau gyda tharged pellach i arbed £127miliwn yn 2007/2008. Wrth i ni ystyried ein penderfyniadau ar fuddsoddi ffi'r drwydded yn y dyfodol, rydym yn ystyried pa dargedau pellach o ran effeithlonrwydd y gallwn eu pennu i'r BBC, ond heb anghofio pwrpas craidd y BBC sef darparu allbwn nodedig o ansawdd uchel i'n cynulleidfaoedd.

Yn yr Adroddiad Blynyddol hwn nodwn ar beth y byddwn yn canolbwyntio yn ystod y flwyddyn i ddod

Mewn byd sy'n newid yn gyson mae'n rhaid i'r BBC barhau i fod yn ymrwymedig i'w weledigaeth wreiddiol – ond hefyd fod yn ymwybodol o chwaeth a disgwyliadau newidiol cynulleidfaoedd

Mae'n rhaid i bopeth a wneir gan y BBC gael ei lywio gan werth cyhoeddus a safbwyntiau'r cyhoedd. Rôl yr Ymddiriedolaeth yw sicrhau bod hyn yn digwydd ac amddiffyn annibynniaeth y BBC

Mae'r BBC yn dod yn fwy effeithlon ond mae llawer ar ôl i'w wneud

# Trosolwg

Ein prif her i'r BBC: rydym am gael allbwn sy'n uchelgeisiol, yn nodedig, yn wreiddiol ac o ansawdd uchel

Am ragor o wybodaeth am y Pwrpasau Cyhoeddus a'n dulliau newydd o lywodraethu gweler tudalen 9

**Mae'r Ymddiriedolaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddarparu gwasanaethau nodedig o ansawdd uchel**

Fel Ymddiriedolwyr nid ydym yn gwneud rhaglenni'r BBC, nac yn gwylio rhaglenni cyn iddynt gael eu darlledu. Ein rôl yw pennu blaenoriaethau strategol y BBC, ac, yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r hyn y mae cynulleidfaoedd am ei gael, hysbyswn y rheolwyr o'r modd y disgwyliwn i holl wasanaethau'r BBC gyfrannu at y broses o gyflawni Pwrpasau Cyhoeddus cyffredinol y BBC.

Mae gennym ddulliau newydd o weithredu i'n helpu i wneud hyn. Bydd cylchoedd gwaith pwrpas a thrwyddedau gwasanaeth, mewn ffordd nad oedd yn bosibl erioed o'r blaen, yn ein galluogi i bennu meini prawf gwrthrychol, tryloyw a chyhoeddedig a ddefnyddir gennym i farnu perfformiad y BBC. Byddwn yn cyflwyno'r canfyddiadau yn ein hadroddiadau blynyddol. Gan nad yw'r dulliau newydd hyn o weithredu ar waith eto, barn dros dro a geir yn yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad yn nodi'r negeseuon allweddol ar berfformiad yr ydym wedi bod yn eu rhoi i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'i staff ers i ni ddechrau gweithio. Gellir crynhoi'r negeseuon hynny fel a ganlyn: rydym yn chwilio am allbwn sy'n uchelgeisiol, yn nodedig, yn wreiddiol ac o ansawdd uchel.

Ceir rhagor o fanylion ar hyn oll yn ddiweddarach yn yr adroddiad, ond yn gyffredinol ein sylwadau allweddol ar y BBC eleni yw:

- Mae Teledu'r BBC yn gwneud yn dda – mae gwylwyr yn dal i ystyried BBC One fel y gwasanaeth teledu genre cymysg sydd o'r ansawdd uchaf tra bod y gymeradwyaeth i sianelau amrywiol y BBC naill ai'n sefydlog neu'n gwella. Ein pryder – o ystyried bod cynulleidfaoedd yn credu'n gryf y dylai'r BBC fod yn fwy arloesol – yw p'un a gyflawnwyd hyn ar draul uchelgais creadigol a diwylliannol.
- Nodwn y ffaith fod pobl ifanc yn troi eu cefnau ar deledu a radio wrth iddynt gael eu hadloniant mewn ffyrdd eraill. Mae rôl BBC Three yn y gwaith o ddiwallu anghenion y gynulleidfa hon yn rhywbeth y byddwn yn ei hystyried wrth bennu blaenoriaethau strategol y BBC.
- Er bod BBC Four yn dod yn fwy poblogaidd nodwn nad dim ond cyrhaeddiad yw amcan y sianel. Yr her yw sut y gall BBC Four barhau i gynyddu ei hapêl heb golli golwg ar ei gweledigaeth wreiddiol i fod 'yn lle i feddwl'.
- Mae agwedd ein cynulleidfaoedd tuag at ailddarllediadau yn gymhleth. Dengys ein gwaith ymchwil nad yw cynulleidfaoedd yn hoffi ailddarllediadau yn ystod oriau brig ond eu bod yn aml yn croesawu'r cyfle i ddal i fyny â rhaglen a gollwyd cyn i'r bennod nesaf gael ei dangos. Felly rydym yn falch o weld nifer yr ailddarllediadau yn ystod oriau brig yn lleihau (8.4% o gymharu ag 8.9% yn 2005/2006). Byddwn yn parhau i adolygu polisi yn y maes hwn, yn enwedig wrth i wasanaethau ar alw ddod yn fwy sefydledig.
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r BBC wedi dechrau gweithredu rhai blaenoriaethau golygyddol drwy fireinio drama ar BBC One, rhaglenni ffeithiol ar BBC Two a'r ddarpariaeth i blant. Nodwn mai un o'r heriau allweddol yw mynd i'r afael â phob grŵp nas gwasanaethir yn ddigonol o blith ein cynulleidfaoedd, nid o reidrwydd drwy greu allbwn newydd yn arbennig i'r cynulleidfaoedd hyn ond drwy ddod o hyd i ffyrdd o'u hailgysylltu ag allbwn prif ffrwd y BBC. Un ffordd o wneud hyn yw darparu cynnwys cryf sy'n apelio i grwpiau gwahanol o gynulleidfaoedd.
- Mae Radio'r BBC yn gryf ac yn llwyddiannus yn gyffredinol, ond bu'n destun dadlau yn ystod y flwyddyn gydag Ofcom yn dyfarnu yn erbyn dau gyflwynydd am ddefnyddio iaith sarhaus ac mae costau talent wedi codi pryderon ymhlith y cyhoedd a gweithredwyr masnachol. Byddwn yn ystyried costau talent ymhellach yn ystod y flwyddyn i ddod.
- Mae newyddiaduraeth y BBC yn parhau i fod yn gryf. Dengys gwaith ymchwil fod gweld y BBC yn gosod y safon ar gyfer newyddiaduraeth o ansawdd uchel yn bwysig iawn i gynulleidfaoedd o hyd a chaiff sianel BBC News 24 ei chanmol yn fawr gan wylwyr am ei hansawdd. Fodd bynnag, rydym yn gweld tystiolaeth o rywfaint o leihad mewn ymddiriedaeth. Yr her yw sicrhau ein bod yn diogelu gwerthoedd craidd y BBC sef bod yn gywir, yn ddiduedd ac yn annibynnol – nid dim ond o fewn newyddiaduraeth ond drwy holl weithgareddau'r BBC.
- Gwasanaethau ar-lein y BBC yw un o'i brif lwyddiannau. Fodd bynnag mae angen i ni adolygu p'un a ydynt mewn sefyllfa briodol i ymateb i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd sy'n newid yn gyflym. Byddwn yn adolygu bbc.co.uk yn fanwl yn 2007/2008 fel ein harolwg cyntaf o drwydded gwasanaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gynnal safonau golygyddol y BBC. Fe'n siomwyd gan yr achosion difrifol o dorri safonau mewn perthynas â llinellau ffôn ar raglenni a ddaeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn a chynhaliwyd arolwg polisi o'r maes hwn. Caiff adroddiad arno ei gyflwyno yn ddiweddarach yn 2007 (gweler tudalen 44).

**Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod mai'r ffordd orau o weithredu er budd y cyhoedd yw drwy farchnad y cyfryngau sy'n ffynnu**
Cydnabyddwn nad dim ond allbwn y BBC a ddefnyddir gan y cyhoedd a bod cynulleidfaoedd y BBC yn gwerthfawrogi'r ystod eang o ddewis sydd ar gael iddynt ym marchnad y cyfryngau sy'n ffynnu yn y DU. Rhan bwysig o'n rôl o sicrhau budd y cyhoedd o fewn y BBC yw sicrhau nad yw'r BBC yn defnyddio ei bŵer economaidd sylweddol mewn ffyrdd a allai gyfyngu ar y dewisiadau sydd ar gael i'r cyhoedd o ran y cyfryngau.

Yn gynharach eleni, er enghraifft, gofynnodd Bwrdd Gweithredol y BBC am ganiatâd i lansio gwasanaethau ar alw newydd, sy'n cynnwys y BBC iPlayer a fydd yn galluogi cynulleidfaoedd i ddal i fyny, dros y rhyngrwyd, â rhaglenni teledu a radio'r BBC y gallent fod wedi eu colli am hyd at wythnos ar ôl eu darlledu. Cymeradwywyd hynny gennym – ond dim ond ar ôl mynnu bod rhai newidiadau pwysig yn cael eu gwneud i'r cynnig gwreiddiol (gweler y blwch isod).

**Gwasanaethau ar alw y BBC**
Cynhaliwyd prawf gwerth cyhoeddus gennym o'r cynigion am wasanaethau, gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus ar ein casgliadau dros dro. Cymeradwywyd y gwasanaethau newydd – ond gydag addasiadau. Wrth wneud ein penderfyniad, ein prif gyfrifoldeb fel Ymddiriedolwyr oedd gweithredu er budd y cyhoedd. Roedd hyn yn golygu canolbwyntio'n bennaf ar yr effaith ar ddefnyddwyr – sy'n mwynhau'r dewis a gynigir gan gynnwys a gwasanaethau y tu hwnt i rai'r BBC. Cynlluniwyd ein newidiadau i ddiogelu'r dewis hwn sydd ar gael i'r cyhoedd.

Ymhlith ein diwygiadau roedd addasu faint o amser y bydd y cyhoedd yn gallu cadw rhaglenni wedi'u llwytho i lawr, ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddod o hyd i ddatrysiad a fydd yn gweithio ar bob prif lwyfan cyfrifiadurol a sicrhau bod rheolaethau rhieni addas yn rhan o'r gwasanaeth. Hefyd gosodwyd amodau i ddiogelu'r amrywiaeth o gerddoriaeth glasurol y gall y cyhoedd gael gafael arno drwy ddiogelu'r farchnad gerddoriaeth fasnachol fregus yn y sector hwnnw. Rydym yn fodlon y bydd gwasanaethau ar alw newydd y BBC yn creu gwerth cyhoeddus sylweddol a gaiff effaith gyfyngedig ar y farchnad. Byddwn yn cynnal gwerthusiad ffurfiol o berfformiad dwy flynedd ar ôl lansio'r gwasanaeth.

Yn yr un modd, pan wnaed y penderfyniad anodd i ddiddymu BBC Jam, sef y gwasanaeth ar-lein i ysgolion, roeddem yn glir mai dyma fyddai orau er budd y cyhoedd. Rydym wedi gofyn i'r rheolwyr gyflwyno cynigion newydd ar gyfer gwasanaeth sy'n diwallu anghenion addysgol ac sy'n nodedig o'i gymharu â'r hyn a gynigir gan ddarparwyr masnachol (gweler y blwch isod).

**Yr Ymddiriedolaeth yn diddymu BBC jam**
Ym mis Mawrth 2007 diddymwyd y gwasanaeth addysgol ar-lein sef BBC jam – penderfyniad a oedd yn anodd i ni ei wneud. Fodd bynnag, roedd y gwasanaeth bob amser wedi bod yn destun dadlau, ac fe'n hysbyswyd bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cael cwynion gan y sector masnachol yn honni nad oedd BBC jam wedi cydymffurfio â'i amodau cydsynio.

Cynigiodd y Comisiwn y dylem gynnal arolwg cynnar i ymdrin â'r cwynion hyn, yn ogystal â'r arolwg yr oeddem eisoes wedi ymrwymo iddo yn ddiweddarach eleni o dan amodau cymeradwyo BBC jam. Ar ôl ei ystyried yn ofalus, penderfynwyd y byddai dau arolwg rheoleiddiol a oedd yn dilyn ei gilydd yn cael effaith ddifrifol ar y broses o ddarparu'r gwasanaeth yn effeithiol. Nid oedd gwneud dim byd yn opsiwn, fodd bynnag, am fod yr Ymddiriedolaeth yn wynebu'r posibilrwydd y byddai'r Comisiwn Ewropeaidd yn cynnal ymchwiliad ffurfiol ac yn ceisio diddymu'r defnydd o arian ffi'r drwydded ar gyfer y gwasanaeth. O dan yr amgylchiadau felly, penderfynwyd mai diddymu BBC jam oedd orau o ran talwyr ffi'r drwydded yn yr hirdymor gan ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Gweithredol y BBC gyflwyno cynnig newydd, gan adeiladu ar lwyddiannau'r gwasanaeth ac ystyried y newidiadau yn y farchnad ar gyfer deunyddiau addysgol ar-lein ers 2003, pan gymeradwywyd BBC jam.

Mae hyrwyddo addysg a dysgu yn un o chwe Phwrpas Cyhoeddus y BBC ac mae'n rhan graidd o gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Edrychwn ymlaen at gael cynigion y Bwrdd Gweithredol, y disgwyliwn iddynt fod yn ddarostyngedig i Brawf Gwerth Cyhoeddus. Rydym yn parhau i anelu at sicrhau bod anghenion plant ysgol yn cael eu diwallu mewn ffordd a gaiff ei chefnogi'n eang.

Byddwn yn sicrhau nad yw'r BBC yn defnyddio ei bŵer economaidd sylweddol mewn ffyrdd sy'n cyfyngu ar ddewisiadau talwyr ffi'r drwydded o ran y cyfryngau

Rydym yn ymrwymedig i gystadleuaeth deg ac agored. Gwrandewn apeliadau gan unrhyw un sydd o'r farn bod y BBC wedi torri ei ganllawiau masnachu teg ac nad yw wedi gallu cael ymateb boddhaol gan reolwyr y BBC

Ymatebodd 10,500 o unigolion a sefydliadau i'n hymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion y BBC am wasanaethau ar alw

“Os yw Jeremy Vine yn trafod rhywbeth sydd wedi digwydd yn yr ychydig ddiwrnodau diwethaf mae’n cyflwyno dwy ochr y ddadl gan eistedd yn y canol ac nid wyf wedi ei glywed yn lleisio barn eto, mae’n ddiduedd iawn fel y dylai fod ta beth yn fy marn i.”

Rhaglennu newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio 2. Dyn rhwng 20 a 39 oed, o Newcastle-upon-Tyne, yn cyfrannu at ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth ar drwyddedau gwasanaeth.

# Ymddiriedolaeth y BBC
## Beth ydyw a beth mae'n ei wneud

**Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio er budd y cyhoedd sy'n talu am y BBC. Rydym yn gwrando ar ystod eang o leisiau, gan geisio deall pob safbwynt a disgwyliad er mwyn llywio ein barn. Rydym yn sicrhau bod y BBC yn annibynnol, yn arloesol ac yn effeithlon; yn gweithredu er da yn greadigol ac yn economaidd yn y DU, ac i'r DU yn rhyngwladol.**

Ni yw corff sofren y BBC, sef ei Ymddiriedolwyr annibynnol sy'n gweithredu er budd y cyhoedd.

Anelwn at sicrhau'r canlynol:

- bod y BBC yn parhau i fod yn annibynnol, gan wrthsefyll pwysau a dylanwad o unrhyw ffynhonnell
- bod rheolwyr y BBC yn sicrhau gwerth cyhoeddus drwy ddarparu gwasanaethau nodedig o'r ansawdd uchaf i holl unigolion a holl gymunedau'r DU
- bod y BBC yn cyfrannu at statws y DU yn y byd, at yr economi ac at ddiwylliant Prydain.

Ein tasgau yw sicrhau'r canlynol:

- bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth i hysbysu, addysgu a diddanu pobl mewn modd uchelgeisiol a chyflawni'r Pwrpasau Cyhoeddus a nodir yn ei Siarter Frenhinol
- bod gan reolwyr y BBC flaenoriaethau clir a'i fod yn defnyddio ei adnoddau'n dda, gan ddarparu ansawdd, gwerth am arian ac effeithlonrwydd a'i fod yn cyrraedd pob cynulleidfa
- bod y BBC yn parhau i fod ar y blaen o ran datblygu gwasanaethau newydd i'r cyhoedd, annog dewis ac arloesedd ym marchnad y cyfryngau heb rwystro mentergarwch na blaengaredd preifat
- bod newyddiaduraeth y BBC yn cyrraedd y safonau uchaf o ran bod yn gywir ac yn ddiduedd i gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd
- bod y BBC yn hyrwyddo ei enw da a'i werthoedd ledled y byd.

Cyflawnwn hyn drwy:

- wrando ar y cyhoedd a'i wahodd i fynegi ei farn amrywiol
- gwobrwyo proffesiynoldeb, arloesedd a chreadigrwydd staff y BBC a phawb sy'n cyfrannu at y BBC
- amddiffyn annibyniaeth y BBC mewn modd grymus
- llunio barn a fydd yn diogelu ansawdd uchel y BBC ynghyd â'i gyrhaeddiad i gynulleidfaoedd a'i annibyniaeth yn yr hirdymor
- sicrhau bod ein prosesau ein hunain yn agored ac yn dryloyw
- dwyn rheolwyr y BBC i gyfrif mewn modd manwl gywir.

### Pwrpasau Cyhoeddus
Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn nodi chwe Phwrpas Cyhoeddus ar gyfer y BBC. Y rhain yw:

- cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas waraidd
- hyrwyddo addysg a dysgu
- ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol
- cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau
- cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU
- wrth hyrwyddo ei bwrpasau eraill, helpu i gyflwyno buddiannau technolegau a gwasanaethau cyfathrebu newydd i'r cyhoedd ac, yn ogystal, chwarae rhan flaenllaw yn y broses o newid i ddigidol.

### Dulliau o lywodraethu
Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn darparu dulliau o lywodraethu i'n helpu i gyflawni ein tasgau allweddol:

- **Cylchoedd gwaith pwrpas:** Ar gyfer pob un o Bwrpasau Cyhoeddus y BBC cyhoeddwyd cylch gwaith pwrpas sy'n diffinio ein blaenoriaethau i'r Bwrdd Gweithredol ac yn nodi sut y byddwn yn barnu perfformiad.
- **Trwyddedau gwasanaeth:** Yn seiliedig ar y cylchoedd gwaith pwrpas cyflwynwn drwyddedau gwasanaeth. Mae'r rhain yn nodi cylch gwaith a

Yr Ymddiriedolaeth yw corff sofren y BBC. Mae ei Hymddiriedolwyr annibynnol yn gweithredu er budd y cyhoedd

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i fod yn agored. Am ragor o wybodaeth am y ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu, a'r penderfyniadau a wneir ganddi, ewch i bbc.co.uk/bbctrust

Mae rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae'r Bwrdd Gweithredol yn rheoli gweithrediadau'r BBC yn Rhan Dau

chyllideb bennawd holl wasanaethau'r BBC ynghyd â sut y dylent fod yn cyfrannu at gyflawni'r Pwrpasau Cyhoeddus. Cynhaliwn ymgynghoriadau cyhoeddus cyn pennu cylchoedd gwaith pwrpas neu cyn rhoi trwyddedau gwasanaeth newydd ac, unwaith y cânt eu mabwysiadu, rydym yn monitro perfformiad yn eu herbyn.

Rydym hefyd yn cymeradwyo Datganiadau blynyddol y Bwrdd Gweithredol o Bolisi Rhaglenni, gan sicrhau eu bod yn gyson â thrwyddedau gwasanaeth, ac yn monitro perfformiad yn eu herbyn.

- **Profion Gwerth Cyhoeddus:** Cyn penderfynu a ddylid cymeradwyo neu wrthod cynnig gan y rheolwyr i lansio gwasanaeth newydd neu newid gwasanaeth presennol yn sylweddol, cynhaliwn brawf gwerth cyhoeddus, sy'n cynnwys asesiad o'r effaith ar y farchnad a gynhelir gan Ofcom (gweler y blwch isod). Mae hwn yn ein helpu i lunio barn ar b'un a yw'r cynnig er budd y cyhoedd ai peidio (am ragor o wybodaeth am Brofion Gwerth Cyhoeddus, gweler tudalen 36).

## Cydberthynas â'r rheolwyr

Nid ydym yn rheoli gweithrediadau o ddydd i ddydd yn y BBC. Y Bwrdd Gweithredol, a arweinir gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, sy'n gyfrifol am hyn. Ein rôl ni yw pennu blaenoriaethau ar gyfer y Bwrdd Gweithredol a sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n briodol o fewn polisïau a chyllidebau cytûn.

Y Cyfarwyddwr Cyffredinol, a benodir gennym ni, yw prif olygydd y BBC ac ef sy'n cadeirio'r Bwrdd Gweithredol. Ymhlith cyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol mae:

- darparu gwasanaethau'r BBC yn unol â strategaethau'r Ymddiriedolaeth
- pennu cyfeiriad allbwn golygyddol a chreadigol y BBC
- rheoli'r BBC yn weithredol
- rheoli materion ariannol y BBC yn weithredol er mwyn sicrhau gwerth am arian
- bod yn atebol i'r Ymddiriedolaeth am ei berfformiad ei hun ac am berfformiad ei is-gwmnïau.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys Cyfarwyddwyr anweithredol y caiff eu penodiadau eu cymeradwyo gennym ni.

## Swyddogaethau goruchwylio eraill

Mae gennym nifer o swyddogaethau goruchwylio a rheoleiddio – nodir y rhai allweddol isod:

- **Gwerth am arian:** Rydym yn cymeradwyo strategaeth a chyllidebau lefel uchel y BBC ac hefyd yn comisiynu ymchwiliadau rheolaidd i werth am arian mewn meysydd penodol o weithgarwch y BBC.
- **Golygyddol:** Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am lunio canllawiau golygyddol sy'n nodi'r safonau y dylai cynnwys y BBC eu cyrraedd. Rydym yn cymeradwyo'r canllawiau hyn ac unrhyw ddiwygiadau, ac yn eu defnyddio i fonitro perfformiad golygyddol y BBC. Nid ydym yn cymeradwyo rhaglenni cyn eu darlledu. Y Cyfarwyddwr Cyffredinol, fel prif olygydd y BBC, sy'n gyfrifol am bob penderfyniad golygyddol yn y pen draw. Ystyriwn gwynion ar ffurf apeliadau ar ôl dilyn proses gwynion y BBC yn llawn.
- **Cwynion ac apeliadau:** Rydym yn gyfrifol am lunio'r fframwaith a ddefnyddir gan Fwrdd Gweithredol y BBC i ymdrin â chwynion a, phan fo'n briodol, i wrando apeliadau.
- **Goruchwyliaeth fasnachol a masnachu teg:** Rydym yn sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'i bolisi masnachu teg, a bod y Bwrdd Gweithredol yn mynd i'r afael â risgiau gweithredol allweddol yn briodol. Rydym hefyd yn goruchwylio gwasanaethau masnachol y BBC.

### Cydberthynas yr Ymddiriedolaeth ag Ofcom

Corff goruchwylio yw'r Ymddiriedolaeth sydd â rhai swyddogaethau rheoleiddio. Mae'n rhannu rhywfaint o gyfrifoldeb rheoleiddiol am y BBC gydag Ofcom. Mewn rhai achosion, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gydag Ofcom yn uniongyrchol, drwy Grŵp Llywio ar y Cyd asesiadau o'r effaith ar y farchnad yn bennaf. Mewn achosion eraill mae gan yr Ymddiriedolaeth ac Ofcom gyfrifoldebau gwahanol.

Mae Ofcom yn rheoleiddio darlledwyr gan gynnwys y BBC drwy ei God Darlledu sy'n pennu safonau, ee ar Niwed a Sarhad, i ddarlledwyr. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoleiddio allbwn y BBC o ran bod yn ddiduedd ac yn gywir a hi yw'r canolwr terfynol o fewn y BBC ar gyfer cwynion golygyddol. Mae Ofcom a'r Ymddiriedolaeth wedi llofnodi memorandwm o ddealltwriaeth o sut y byddant yn cydweithio ar y materion hyn a materion eraill lle mae ganddynt gyfrifoldebau rheoleiddiol.

Mae'r memorandwm o ddealltwriaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth ac Ofcom ar gael yn bbc.co.uk/bbctrust

## Gwrando ar y cyhoedd

Un o'n hegwyddorion allweddol yw y byddwn bob amser yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw. Mae'r materion yr ymdriniwn â hwy yn aml yn rhai cymhleth. Mae'n rhaid i ni ystyried barn – sy'n farn wrthgyferbyniol yn aml – ystod eang o unigolion a sefydliadau. Byddwn bob amser yn cyhoeddi'r dystiolaeth sydd wedi llywio ein barn annibynnol, a byddwn yn egluro ein penderfyniadau yn llawn.

Er enghraifft, pan gymeradwywyd cynigion y Bwrdd Gweithredol i ddatblygu a lansio Freesat (gweler tudalen 30) cyhoeddwyd yr holl dystiolaeth a ystyriwyd gennym. Mae ar gael ar ein gwefan, bbc.co.uk/trust, ac mae'n cynnwys nifer o adroddiadau annibynnol ar agweddau allweddol ar y cynnig, yn ogystal â chyfraniadau gan sefydliadau a wnaeth sylwadau ar y cynnig.

Gwnaethom hefyd ymgynghori'n helaeth ar ein cylchoedd gwaith pwrpas a'n trwyddedau gwasanaeth drafft a gyhoeddwyd gennym ym mis Ionawr 2007. Byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau o'r ymgynghoriadau hyn i lywio ein gwaith ar lunio dulliau llywodraethu terfynol a phennu blaenoriaethau'r BBC.

### Ymgynghoriad ar drwyddedau gwasanaeth

Mae trwyddedau gwasanaeth yn ffordd allweddol o ddiffinio gwasanaethau'r BBC a monitro eu perfformiad a ddefnyddir gan yr Ymddiriedolaeth. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gennym ar y trwyddedau cyntaf, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2007. Gofynnwyd a oedd y trwyddedau'n disgrifio gwasanaethau'r BBC yn ddigonol fel yr oeddent pan sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth – ac a oedd eu cynnwys yn briodol i alluogi'r Ymddiriedolaeth i lywodraethu gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU.

Cawsom ymateb da gan y sector masnachol a sefydliadau eraill, er y cafwyd nifer ychydig yn llai o ymatebion gan aelodau unigol o'r cyhoedd nag yn ein hymgynghoriadau eraill. Gan ragweld hyn, roeddem wedi comisiynu gwaith ymchwil ymysg grwpiau ffocws ledled y DU i asesu barn y cyhoedd.

Byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion unigol ynghyd â chrynodeb o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad. Rydym bellach yn ystyried a ddylai'r trwyddedau cychwynnol hynny gael eu hamrywio, ar sail yr ymatebion a gafwyd.

### Ymgynghoriad ar gylchoedd gwaith pwrpas

Ym mis Chwefror 2007, cynhaliodd ein hasiantaeth ymchwil arolwg mawr iawn o gynulleidfaoedd, gan gyfweld â thua 4,500 o oedolion. Roeddem am gael eu barn ar Bwrpasau Cyhoeddus y BBC – yn fwy penodol, pa mor bwysig oedd pob Pwrpas yn eu barn hwy, a pha mor dda yr oedd y BBC yn ei wneud o ran eu cyflawni. Caiff y canfyddiadau eu hymgorffori yn ein gwaith ar ddatblygu cylchoedd gwaith pwrpas. Bydd y rhain yn nodi'n glir yr hyn y disgwyliwn i Fwrdd Gweithredol y BBC ei gyflawni er mwyn bodloni disgwyliadau talwyr ffi'r drwydded a'r Pwrpasau Cyhoeddus a gyflwynwyd gan y Senedd.

Byddwn yn rhoi pwys arbennig ar feithrin dealltwriaeth o'r meysydd lle ceir anfodlonrwydd ymhlith cynulleidfaoedd o ran yr hyn y mae'r BBC yn ei gynnig iddynt nawr, a meysydd lle y gallai'r BBC wneud yn well. Caiff trosolwg o'r gwaith ymchwil ei gyhoeddi gyda'r cylchoedd gwaith pwrpas diwygiedig yn ddiweddarach eleni.

Dengys y canfyddiadau cynnar fod addysg a newyddion yn bwysig iawn i gynulleidfaoedd o ran blaenoriaethau'r BBC. Ym maes creadigrwydd a gwreiddioldeb y mae'r bwlch mwyaf yn bodoli rhwng pwysigrwydd a pherfformiad ym marn pobl. Mae cynulleidfaoedd yn datgan yn glir eu bod am weld syniadau newydd ac ystod eang o raglenni sy'n eu diddanu ac yn rhoi mwynhad iddynt – ac maent o'r farn y gallai'r BBC wneud yn well yn y maes hwn.

## Edrych ymlaen

Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn parhau i weithio'n galed ar ran talwyr ffi'r drwydded ac yn cwblhau'r broses o ddatblygu system lywodraethu newydd sy'n rhoi llais pwerus i gynulleidfaoedd y BBC wrth gyfrannu at ein penderfyniadau ar flaenoriaethau'r BBC.

Ceir rhagor o fanylion ar ein cynlluniau ar gyfer 2007/2008 ar dudalen 51 ac ar ein gwefan.

> Bydd yr Ymddiriedolaeth bob amser yn ceisio deall barn ei chynulleidfaoedd cyn gwneud ei phenderfyniadau

> Mae cynulleidfaoedd yn datgan yn glir eu bod am weld syniadau newydd – ac maent o'r farn y gallai'r BBC wneud yn well yn y maes hwn

> Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn gweithio'n galed ar ran y cyhoedd gan ei alluogi i leisio barn a fydd yn llywio ac yn cyfrannu at ein penderfyniadau ar flaenoriaethau'r BBC

# Ymddiriedolaeth y BBC
## Yr Ymddiriedolwyr

| | | |
|---|---|---|
| 01 | 02 | 03 |
| 04 | 05 | 06 |
| 07 | 08 | 09 |
| 10 | 11 | 12 |

01 Syr Michael Lyons
02 Chitra Bharucha
03 Diane Coyle
04 Dermot Gleeson
05 Alison Hastings
06 Y Fonesig Patricia Hodgson DBE
07 Rotha Johnston
08 Janet Lewis-Jones
09 David Liddiment
10 Mehmuda Mian Pritchard
11 Jeremy Peat
12 Richard Tait CBE














Ni ddefnyddir y geiriau 'Ymddiriedolaeth' ac 'Ymddiriedolwr' yn y ddogfen hon mewn ystyr technegol cyfreithiol ac ni fwriedir iddynt awgrymu y dylid trin aelodau o'r Ymddiriedolaeth fel Ymddiriedolwyr eiddo neu yn ddarostyngedig i'r gyfraith mewn perthynas ag Ymddiriedolaethau neu Ymddiriedolwyr

**01 Syr Michael Lyons**
**Cadeirydd**
Cadeirydd ers 1 Mai 2007. Cadeirydd, English Cities Fund. Un o gyfarwyddwr anweithredol MouchelParkman plc, Wragge & Co, ac SQW Ltd. Cyn Brif Weithredwr Cyngor Dinas Birmingham; Cyngor Sir Swydd Nottingham a Chyngor Bwrdeistref Wolverhampton. Cyn Ddirprwy Gadeirydd a Chadeirydd Dros Dro, y Comisiwn Archwilio. Cyn Athro Polisi Cyhoeddus, Prifysgol Birmingham. Arweiniodd Ymchwiliad Lyons i swyddogaethau a chyllid llywodraeth leol. Cyn gyfarwyddwr anweithredol, Central Television; cyn Gadeirydd, Cyngor Ymgynghorol Rhanbarthol ITV. Llywodraethwr, Royal Shakespeare Company, a Chadeirydd Cerddorfa Symffoni Dinas Birmingham hyd at fis Hydref 2007.

**02 Chitra Bharucha**
**Is-gadeirydd**
Cadeirydd Dros Dro rhwng mis Tachwedd 2006 a mis Ebrill 2007. Yn cadeirio Pwyllgorau Cynulleidfa a Pherfformiad, a Chydnabyddiaeth a Phenodiadau Ymddiriedolaeth y BBC. Yn aelod o gyrff cyhoeddus amrywiol gan gynnwys Cadeirydd, Panelau Dyfarnu Cymhwyster i Ymarfer y Cyngor Meddygol Cyffredinol, a Chadeirydd, y Pwyllgor Cynghori ar Fwydydd Anifeiliaid ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Cyn haematolegydd clinigol ymgynghorol a Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaeth Trallwyso Gwaed Gogledd Iwerddon. Cyn aelod o'r Comisiwn Teledu Annibynnol a Chyngor Darlledu'r BBC ar gyfer Gogledd Iwerddon.

**03 Diane Coyle**
Cadeirydd, Grŵp Llywio Prawf Gwerth Cyhoeddus Ymddiriedolaeth y BBC. Ymgynghorydd economaidd yn arbenigo mewn technolegau newydd a globaleiddio. Cyfarwyddwr, Enlightenment Economics. Aelod o'r Comisiwn Cystadleuaeth. Athro Gwadd, Athrofa Llywodraethu Gwleidyddol ac Economaidd, Prifysgol Manceinion. Cyn newyddiadurwr. Awdur llwyddiannus a darlledydd ym maes economeg.

**04 Dermot Gleeson**
Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid a Strategaeth Ymddiriedolaeth y BBC. Dirprwy Gadeirydd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y BBC. Un o Lywodraethwyr y BBC rhwng 2000 a 2006. Cadeirydd, M J Gleeson Group plc, ar ôl bod yn Brif Weithredwr. Cyn Gadeirydd, Major Contractors Group; cyn gyfarwyddwr y Gorfforaeth Dai, a Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu. Cyn Bennaeth, yr Is-adran Materion Cartref, Adran Ymchwil y Blaid Geidwadol; cyn aelod o gabinet Christopher Tugendhat yn y Comisiwn Ewropeaidd.

**05 Alison Hastings**
**Ymddiriedolwr ar gyfer Lloegr**
Ymgynghorydd y cyfryngau. Cyn Olygydd, Newcastle Evening Chronicle. Cyn Bennaeth Datblygu Staff Golygyddol, Thomson Regional Newspapers. Cyn newyddiadurwr papur newydd lleol. Cyn aelod, Comisiwn Cwynion y Wasg.

**06 Y Fonesig Patricia Hodgson DBE**
Pennaeth Coleg Newnham, Caergrawnt. Llywodraethwr ac aelod, Ymddiriedolaeth Wellcome; aelod, y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus; cyfarwyddwr anweithredol, y Comisiwn Cystadleuaeth. Aelod o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr. Cyn Brif Weithredwr, y Comisiwn Teledu Annibynnol. Gyrfa yn y BBC wedi cynnwys llawer o uwch swyddi gan gynnwys Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus. Rhan o dîm sefydlu'r Brifysgol Agored.

**07 Rotha Johnston**
**Ymddiriedolwr ar gyfer Gogledd Iwerddon**
Cadeirydd, Grŵp Llywio Cyngor Cynulleidfa Ymddiriedolaeth y BBC. Entrepreneur ym maes masnach ac eiddo. Partner, Johnston Partnership. Cyfarwyddwr anweithredol, Allied Irish Bank (UK) plc; Dirprwy Gadeirydd, Invest Northern Ireland. Aelod anweithredol, Bwrdd Adrannol Swyddfa Gogledd Iwerddon. Cyn Gyfarwyddwr Variety Foods (NI) Ltd a'r Uned Datblygu Mentrau Lleol. Wedi bod yn aelod o'r Asiantaeth Cysylltiadau Llafur a Chyngor Economaidd Gogledd Iwerddon.

**08 Janet Lewis-Jones**
**Ymddiriedolwr ar gyfer Cymru**
Is-lywydd Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain. Un o ymddiriedolwyr Sefydliad Baring; Cadeirydd, y Panel Dethol Aelodau, Glas Cymru Cyf (Dŵr Cymru). Cyn Gomisiynydd, y Comisiwn Gwasanaethau Post. Cyn aelod, Awdurdod Sianel Pedwar Cymru (S4C); Awdurdod Strategol y Rheilffyrdd; a Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain. Cyn Is-lywydd, Prifysgol Cymru (Llanbedr Pont Steffan). Cyn Ysgrifennydd Cwmni grŵp, Dŵr Cymru ccc. Cyn was sifil ac wedi ei hyfforddi'n fargyfreithiwr.

**09 David Liddiment**
Cyfarwyddwr Creadigol All3Media ac Aelod Cyswllt, The Old Vic Theatre Company. Mae ei yrfa ddarlledu yn cynnwys Cyfarwyddwr Rhaglenni, ITV; Dirprwy Reolwr-gyfarwyddwr, LWT; Cyfarwyddwr Rhaglenni, Granada TV; a Phennaeth Grŵp Adloniant, Teledu'r BBC.

**10 Mehmuda Mian Pritchard**
Un o Gomisiynwyr Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu, Llundain a Rhanbarth De-ddwyrain Lloegr. Un o gyfarwyddwyr anweithredol Awdurdod Ymgyfreitha'r GIG. Cyn aelod o Awdurdod Cwynion yr Heddlu a'r Swyddfa Goruchwylio Cyfreithwyr. Cyn gyfreithiwr mewn practis preifat yn Birmingham a chyn gyfarwyddwr anweithredol Ymddiriedolaeth Iechyd Meddwl Gogledd Birmingham.

**11 Jeremy Peat**
**Ymddiriedolwr ar gyfer yr Alban**
Cadeirydd, Pwyllgor Polisi ac Apeliadau Masnachu Teg Ymddiriedolaeth y BBC; Cadeirydd, Grŵp Llywio ar y Cyd Asesiad o'r Effaith ar y Farchnad Ymddiriedolaeth y BBC; Cadeirydd Ymddiriedolwyr Pensiwn y BBC. Llywodraethwr Cenedlaethol y BBC ar gyfer yr Alban rhwng 2005 a 2006. Aelod o'r Comisiwn Cystadleuaeth. Un o gyfarwyddwyr Sefydliad David Hume. Cyn Brif Economegydd Grŵp y Royal Bank of Scotland.

**12 Richard Tait CBE**
Cadeirydd, Pwyllgor Safonau Golygyddol Ymddiriedolaeth y BBC. Athro Newyddiaduraeth a Chyfarwyddwr y Ganolfan Astudiaethau Newyddiaduraeth, Prifysgol Caerdydd. Un o Lywodraethwyr y BBC rhwng 2004 a 2006. Cyn Brif Olygydd ITN a Golygydd, Channel 4 News. Cyn olygydd y BBC ar gyfer *Newsnight*, *The Money Programme*, a rhaglen canlyniadau Etholiad Cyffredinol 1987.

Ceir manylion y Llywodraethwyr a fu'n gwasanaethu tan 31 Rhagfyr 2006 ar dudalen 47

"Mae rhywfaint o'r gomedi newydd yn eithaf gwahanol, ond gall fod yn gomedi hap a damwain nad yw'n ddoniol."

Diffiniad digymell o BBC Three. Dyn rhwng 25 a 34 oed, o Gaerdydd, yn cyfrannu at ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth ar drwyddedau gwasanaeth.

# Perfformiad y BBC
## Gwasanaethau

**Mae'n rhy gynnar i ni roi barn derfynol ac asesiadau dros dro a geir isod wrth i ni lunio fersiwn terfynol y cylchoedd gwaith pwrpas a'r trwyddedau gwasanaeth a fydd yn gweithredu fel ein prif ddulliau o asesu perfformiad yn y dyfodol. Byddant yn darparu tystiolaeth wrthrychol a fydd yn ein galluogi i fesur a, lle y bo angen, herio effeithiolrwydd y BBC o ran darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n arloesol, yn uchelgeisiol ac yn fentrus.**

Ceir ffeithiau a ffigurau manwl ar berfformiad gwasanaethau'r BBC ar dudalennau 64 i 75 yn Rhan Dau

### Asesu perfformiad

Roedd y Llywodraethwyr yn arfer pennu amcanion corfforaethol ar gyfer y rheolwyr a chyflwyno adroddiad arnynt yn yr Adroddiad Blynyddol. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn pennu amcanion yn y fath fodd; yn hytrach mae'n pennu blaenoriaethau strategol drwy gylchoedd gwaith pwrpas a byddwn yn cyflwyno adroddiadau ar hynt y rhain yn flynyddol. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn pontio'r ddwy system ac felly mae'n cynnwys asesiadau yn erbyn amcanion y Llywodraethwyr a bennwyd y llynedd yn ogystal â'n hasesiadau ein hunain o berfformiad y BBC.

Pennodd y Llywodraethwyr bum amcan, yr oedd tri ohonynt yn rhai golygyddol, a chyflwynwn adroddiadau arnynt yn yr adran hon. Trafodir y ddau amcan arall – ar hyrwyddo'r broses o newid i ddigidol a gwerth am arian – yn yr adran Cyllid a busnes. Nodir ein barn ar berfformiad yn erbyn y pum amcan fel a ganlyn:

- Strategaeth rhaglenni (tudalen 17)
- Bod yn ddiduedd (tudalen 22)
- Atebolrwydd (tudalen 24)
- Gwerth am arian (tudalen 28)
- Cynyddu nifer y bobl sy'n newid i ddigidol (tudalen 30)

Mae Rhan Dau yn cynnwys gwybodaeth am amrywiaeth o ffeithiau a ffigurau sy'n ymwneud â gweithgareddau darlledu'r BBC. Eleni ymhelaethwyd ar y wybodaeth, ar ein cais ein hunain, er mwyn dangos y wybodaeth yn ôl gwasanaeth unigol. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i fod yn fwy tryloyw. Yn y dyfodol, bydd y data yn cyfrannu tystiolaeth wrthrychol i'n cynorthwyo i asesu perfformiad y BBC.

### Y BBC ym marchnad ehangach y cyfryngau

Mae pob darlledydd wedi gorfod wynebu'r newidiadau enfawr sydd wedi digwydd yn y diwydiant dros y 15 mlynedd diwethaf. Yn sgîl y newidiadau hyn rhannwyd cynulleidfaoedd, cynyddwyd cystadleuaeth, cafwyd tirlun fwyfwy cymhleth o ran y cyfryngau a chynyddwyd disgwyliadau cynulleidfaoedd. Mae'r BBC wedi ymateb i hyn drwy ddatblygu gwasanaethau newydd – sianelau digidol ar y teledu a'r radio a gwasanaethau ar-lein helaeth – ac mae'n parhau i newid er mwyn manteisio ar ddatblygiadau technolegol newydd ar ran y cyhoedd.

Ar yr un pryd, mae'n rhaid i'r BBC gofio bod ei gynulleidfaoedd darlledu craidd yn dal i ddibynnu ar y sianelau a'r rhwydweithiau a oedd yn bodoli cyn i'r newidiadau presennol ddechrau digwydd. Yr her sy'n wynebu'r BBC yw parhau i ddarparu rhaglennu arloesol o ansawdd uchel i'r cynulleidfaoedd hyn, tra'n dod o hyd i'r adnoddau ariannol a chreadigol i fodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd sy'n datblygu'n gyflym mewn mannau eraill.


O ystyried amrywiaeth a lluosogrwydd ei gynulleidfaoedd, ni fydd y BBC byth yn gallu bodloni holl ddisgwyliadau pob un o dalwyr ffi'r drwydded, ond bydd meithrin dealltwriaeth dda o ddisgwyliadau cynulleidfaoedd yn llywio'r blaenoriaethau strategol a bennwn ar gyfer y BBC.

Mae sicrhau bod y BBC yn gwasanaethu holl dalwyr ffi'r drwydded yn egwyddor bwysig. Mae'n bleser gennym nodi bod tua 94% o oedolion yn y DU yn eu defnyddio a bod sgorau cymeradwyaeth cynulleidfa'r BBC wedi aros yn gymharol sefydlog dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Wedi dweud hynny, mae cyfran gyffredinol y BBC o'r farchnad teledu a radio – tua 43% – yn gostwng yn raddol.

**94%**
o oedolion yn y DU yn defnyddio gwasanaethau'r BBC

Ffynhonnell: Astudiaeth Olrhain y BBC cyfan. Cyrhaeddiad honedig, 15+ oed, 2006/2007

**Gwylio'r teledu: oriau cyfartalog yr wythnos**




Ffynhonnell: BARB, TNS/Infosys, 4+ oed

**56%**

yn llai o raglenni yn 2006/2007 â chynulleidfa gyfartalog o 10 miliwn+

Ffynhonnell: BARB, TNS/Infosys, 4+ oed. Pob Sianel Deledu, y DU. Lleiafswm o 10 munud o hyd (2006/2007 o gymharu â 2005/2006)

Un o'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'n gwaith gyda'r cyhoedd yw bod cynulleidfaoedd am i'r BBC fod yn fwy arloesol. Maent yn gwerthfawrogi syniadau newydd – ac maent o'r farn y gallai'r BBC fod yn gwneud mwy i'w cyflwyno. Mae hyn yn her i'r BBC a byddwn yn gwneud ein gorau i geisio ymateb iddi yn ystod y flwyddyn i ddod.

## Teledu

Mae darlledwyr rhaglenni teledu llinellol traddodiadol[1] bellach o dan bwysau mawr. Mae'r ffigurau gwylio wythnosol ar gyfer rhaglenni teledu'r BBC a'i gystadleuwyr masnachol wedi gostwng awr yr wythnos ar gyfartaledd dros y tair blynedd diwethaf. Mae cynulleidfaoedd yn lleihau fel gwylwyr – yn enwedig pobl ifanc (gweler y blwch) – wrth iddynt gael eu denu gan arlwy newydd mewn mannau eraill. Mae'r gystadleuaeth am y gynulleidfa hon sy'n lleihau yn parhau i gynyddu yn sgîl lansio sianelau newydd, a cheir rhagor o gystadleuaeth yn sgîl y twf mewn gwasanaethau teledu ar alw drwy beiriannau recordio fideo personol a gwasanaethau ar-lein. Disgwyliwn i'r duedd hon gynyddu pan fydd y BBC yn lansio ei wasanaeth teledu ar alw ei hun drwy'r BBC iPlayer yn ddiweddarach eleni (gweler tudalen 7).

Nid yw BBC One na BBC Two wedi llwyddo i osgoi'r dirywiad hirdymor o ran cyrhaeddiad a brofwyd gan fwy neu lai'r holl sianelau teledu sefydledig. Fodd bynnag, yn wyneb cystadleuaeth lem, mae Teledu'r BBC wedi gwneud yn dda i barhau i apelio at niferoedd mawr iawn o wylwyr gyda BBC One a BBC Two, a chynyddu cyrhaeddiad ac apêl BBC Three a BBC Four.

Mae'n bleser gennym nodi bod gwylwyr yn parhau i ystyried BBC One fel y gwasanaeth teledu genre cymysg o'r ansawdd uchaf; bod cymeradwyaeth gyffredinol gwylwyr i BBC One a BBC Two yn sefydlog; a bod y gymeradwyaeth yn cynyddu ar gyfer BBC Three a BBC Four. Mae llawer o raglenni teledu'r BBC yn sgorio'n dda o ran gwerthfawrogiad y gynulleidfa.


Y cwestiwn y mae angen ei ateb yw ai ar draul uchelgais creadigol a chystadleuol y llwyddwyd i ymateb mewn modd cystadleuol a chryf yn gyffredinol. Awgryma ein gwaith ymchwil fod cynulleidfaoedd yn gadarn o'r farn y dylai'r BBC fod yn fwy arloesol (gweler tudalen 11). Byddwn yn ymchwilio i hyn yn ystod y flwyddyn i ddod fel rhan o'n gwaith ar ailflaenoriaethu ffi'r drwydded. Byddwn hefyd yn ystyried rôl holl sianelau teledu'r BBC, sut mae'r portffolio o sianelau yn cydweddu â'i gilydd a sut y dylai weithio mewn amgylchedd cwbl ddigidol.

### Oedolion ifanc

Mae'r newidiadau sylweddol i'r gynulleidfa ddarlledu fwyaf amlwg mewn perthynas ag ymddygiad newidiol oedolion ifanc (16–34 oed) o ran y cyfryngau. Maent yn dechrau defnyddio technolegau newydd ac yn rhoi'r gorau i ddefnyddio hen rai yn gyflymach na llawer o bobl hŷn, y mae eu harferion gwylio yn aml yn aros yr un peth ac yn seiliedig ar bedair neu bum sianel. Mae oedolion ifanc yn gwylio llai o deledu na grwpiau hŷn, maent yn gwrando ar lai o radio ac maent yn defnyddio mwy o wasanaethau ar-lein a gwasanaethau eraill a gynigir ar y sgrîn nad ydynt yn rhai darlledu megis gemau. Fel y dengys y siart, ar gyfer pobl ifanc rhwng 15 a 24 oed, mae'r rhyngrwyd yn ffynhonnell adloniant sydd bron â bod mor boblogaidd â'r teledu. Mae'n bwysig bod y BBC yn dod o hyd i ffyrdd o barhau i fod yn berthnasol i'r grwpiau oedran iau hyn.

Er gwaethaf y defnydd is na'r cyfartaledd o wasanaethau'r BBC, mae cymeradwyaeth oedolion ifanc i'r BBC yn uwch na'r cyfartaledd. Gallai hyn adlewyrchu'r niferoedd cymharol isel sy'n talu ffi'r drwydded yn eu cartrefi. Fodd bynnag, gallai ddeillio o'r ffaith eu bod yn llai tebygol o rannu canfyddiad cynulleidfaoedd hŷn o'r BBC sef ei fod yn well yn y gorffennol – mae pobl ifanc yn fwy tebygol o gredu bod y BBC yn arloesol na'r boblogaeth yn gyffredinol.

**Y teledu a'r rhyngrwyd fel ffynhonnell o fwynhad % sy'n cytuno (yn ôl oedran)**




Ffynhonnell: Arolwg Cylch Gwaith Pwrpas 15+ oed. BMRB Chwefror 2007

[1] *Diffinnir teledu llinellol fel rhaglennu a amserlennir. Mae teledu nad yw'n llinellol yn cynnwys gwylio ar alw drwy beiriannau recordio fideo personol*

### Radio

Profwyd y gystadleuaeth sydd wedi newid teledu'r DU dros y 15 mlynedd diwethaf gyntaf gan radio'r DU 40 mlynedd yn ôl, pan fu'n rhaid i'r BBC newid ei bortffolio radio yn sylweddol gan greu Radio 1, Radio 2, Radio 3 a Radio 4 yn sgîl lansio'r gorsafoedd radio answyddogol. Digwyddodd hyn ar yr un pryd â lansio radio lleol y BBC. Mae'r strategaeth eang a ddilynwyd gan Radio'r BBC, yr adeg honno ac ers hynny, sef creu rhwydweithiau wedi'u teilwra sydd â rôl gwasanaeth cyhoeddus glir ar gyfer cynulleidfaoedd arbenigol, wedi bod yn hynod lwyddiannus. Mae Radio'r BBC yn parhau i ddenu cyfran uchel o wrandawyr, ac mae ymhell ar y blaen o gymharu â radio masnachol, er, fel y teledu, mae'r cyrhaeddiad o ran cynulleidfaoedd iau yn lleihau yn yr hirdymor, i'r BBC a'r sector masnachol.

Erbyn diwedd y flwyddyn, honnodd mwy na hanner y boblogaeth sy'n oedolion (58%) ei bod naill ai'n berchen ar radio digidol DAB neu wedi gwrando ar radio digidol drwy deledu digidol neu'r rhyngrwyd. Fodd bynnag, mae'r broses o werthu setiau radio DAB wedi bod yn gymharol araf gyda thua 4.7 miliwn o unedau wedi'u gwerthu hyd yma, ac mae'r cyrhaeddiad o ran gwasanaethau radio unigol digidol yn unig yn parhau i fod yn isel: dim ond 2% o'r boblogaeth sy'n oedolion a gyrhaeddir gan y prif wasanaeth radio digidol yn unig sef The Hits (sy'n eiddo i Emap) yr wythnos. Er i'r broses o ddatblygu radio digidol fod yn gymharol araf hyd yma, gallai dyfodiad ail amlblecs digidol cenedlaethol y flwyddyn nesaf ysgogi cystadleuaeth fasnachol a'r farchnad radio digidol ymhellach.

### Ar-lein

Cydnabu'r BBC botensial y rhyngrwyd o ran darparu gwasanaeth cyhoeddus ar gam cynnar iawn a chwaraeodd ran hollbwysig yn y gwaith o'i sefydlu yn y DU fel ffynhonnell newyddion a gwybodaeth o ansawdd uchel. Mae bbc.co.uk wedi dod yn un o wasanaethau mwyaf llwyddiannus y BBC, a ddefnyddiwyd gan tua 15.6 miliwn o oedolion bob mis yn chwarter olaf 2006/2007 – cynnydd o fwy na 2.5 miliwn o bobl mewn 12 mis.

Erbyn hyn mae gwasanaethau ar-lein y BBC yn wynebu llawer iawn o gystadleuaeth, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ond bbc.co.uk yw prif wefan y DU sy'n cynnig gwybodaeth, adloniant a chynnwys addysgol o hyd. Mae'r gwaith o ddatblygu bbc.co.uk fel ffynhonnell ar gyfer gwasanaethau teledu a radio ar alw'r BBC yn debygol o gadarnhau ei le fel y prif gyfrwng a ddefnyddir gan y BBC i gyflawni ei Bwrpasau Cyhoeddus.

### Strategaeth rhaglenni

Pennodd y Llywodraethwyr gyfres o amcanion i'r rheolwyr o ran strategaeth rhaglenni ar gyfer 2006/2007, sef:

- trosi Dyfodol Creadigol yn strategaethau gwasanaeth a chynigion ar gyfer y BBC cyfan
- lleihau nifer yr ailddarllediadau ar BBC One yn ystod oriau brig i lai nag 8.5% yn 2006/2007
- parhau i gynyddu'r buddsoddiad cyffredinol mewn comedi a drama wreiddiol o'r DU
- mireinio allbwn min nos BBC One.

Rydym yn falch o'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran Dyfodol Creadigol, prosiect mawr y Cyfarwyddwr Cyffredinol i ddatblygu strategaeth olygyddol sylfaenol i'r BBC dros y chwe blynedd nesaf. Mae hyn yn ategu'r gwaith ar ailflaenoriaethu yn dilyn setliad ffi'r drwydded. Y themâu allweddol yw mireinio drama ar BBC One, rhaglenni ffeithiol ar BBC Two, a'r ddarpariaeth gyffredinol i blant a'r rhai yn eu harddegau.

Er ein bod o blaid canolbwyntio ar bobl ifanc, rydym wedi galw ar y BBC i roi sylw tebyg i'r holl grwpiau eraill o gynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol. Mae a wnelo'r her â dod o hyd i ffyrdd o ailgysylltu'r cynulleidfaoedd hyn ag allbwn prif ffrwd y BBC, yn hytrach na chreu allbwn newydd yn benodol ar eu cyfer.

Cyflawnwyd targed y Llywodraethwyr o leihau nifer yr ailddarllediadau ar BBC One yn ystod oriau brig. 8.4% oedd y ffigur ar gyfer 2006/2007 (o gymharu ag 8.9% yn 2005/2006). Gwnaed gwaith gwerthfawr i wella'r ddealltwriaeth o agweddau cynulleidfaoedd tuag at ailddarllediadau yn gyffredinol (gweler y blwch) a chefnogwn ddull y rheolwyr o weithredu. Rhaid rhoi blaenoriaeth i greu rhaglenni rhagorol, uchelgeisiol ac arloesol. Mae ailddarllediadau a reolir yn briodol yn rhyddhau adnoddau i ariannu'r rhaglenni pwysig hyn – sy'n debygol o gael eu hailddarlledu eu hunain.

Cyflawnwyd yr amcan i barhau i gynyddu'r buddsoddiad cyffredinol mewn comedi a drama wreiddiol o'r DU. Cynyddodd y buddsoddiad mewn comedi 5% yn 2006/2007 i £87.6miliwn a bwriedir ei gynyddu 9.1% arall yn 2007/2008. Mae'r amser a gymerir i gynhyrchu drama o'r dechrau i'r diwedd yn hwy, felly er mai dim ond cynnydd o 3.4% a fu


#### Radio'r BBC: cyfran o'r gwrandawyr 2006/2007



- 45.1% Radio Masnachol
- 54.9% Radio'r BBC


Ffynhonnell: RAJAR. Oedolion 15+ oed

#### Sut mae pobl yn gwrando ar wasanaethau radio digidol




Ffynhonnell: RAJAR. Defnydd honedig ymhlith oedolion 15+ oed. Mawrth 2007.
*Radio DAB yn y cartref*

#### Defnyddwyr y rhyngrwyd a bbc.co.uk (miliynau)




- Ch1 2006
- Ch1 2007

Ffynhonnell: TNS. Oedolion 16+ oed mewn cartrefi â'r rhyngrwyd yn y DU. Cyrhaeddiad misol honedig

**78%**
o'r boblogaeth yn gwylio BBC One mewn wythnos gyffredin

Ffynhonnell: BARB, TNS/Infosys, 4+ oed. O leiaf 15 munud yn olynol, 2006/2007

Ceir arolwg y rheolwyr o'r gwasanaethau yn Rhan Dau

o ran y buddsoddiad i £268.2miliwn yn 2006/2007, mae'r rheolwyr yn bwriadu ei gynyddu 16.4% arall yn 2007/2008.

Mewn ymateb i amcan olaf y Llywodraethwyr o ran strategaeth rhaglenni – mireinio'r allbwn min nos ar BBC One – arbrofodd y rheolwyr gyda chyfres dreial o *The One Show*, ac fe'i comisiynwyd fel rhaglen gyswllt reolaidd yn amserlen fin nos y BBC o dymor y gwanwyn 2007.

**Barn cynulleidfaoedd ar ailddarllediadau**
Awgryma gwaith ymchwil y BBC fod cynulleidfaoedd, er eu bod yn casáu rhai mathau o ailddarllediadau, yn gwerthfawrogi rhai eraill. Nid ydynt yn hoffi gweld ailddarllediadau ar BBC One yn ystod oriau brig, ond mae 'ailddarllediadau naratif' yn boblogaidd. (Dangosir ailddarllediadau naratif yn fuan ar ôl y darllediad gwreiddiol – yn ystod oriau nad ydynt yn rhai brig yn aml, neu ar sianel wahanol. Mae cynulleidfaoedd yn eu gwerthfawrogi fel cyfle i ddal i fyny â rhaglen a gollwyd cyn y dangosir y bennod nesaf.) Yn yr un modd mae trosglwyddiadau digidol, lle y caiff rhaglen a ddarlledwyd gyntaf ar un o sianelau digidol y BBC ei hailddarlledu ar BBC One neu BBC Two, yn galluogi pobl heb deledu digidol i wylio'r rhaglenni hynny.

Mae'r ffaith bod cynulleidfaoedd yn cael eu rhannu yn cynyddu gwerth ailddarllediadau. Mae'r nifer gynyddol o sianelau yn ei gwneud yn fwy tebygol y caiff rhaglen ei cholli am fod amserlen yn gwrthdaro, ac mae cynulleidfaoedd yn disgwyl ailddarllediadau fwyfwy er mwyn dal i fyny. Yn yr hirdymor, gallai gwasanaeth ar alw ostwng gwerth ailddarllediadau, yn enwedig ailddarllediadau naratif. Ond hyd nes y sefydlir gwasanaeth o'r fath, mae gwerth ailddarllediadau yn debygol o barhau i gynyddu.

Awgryma'r dystiolaeth hon mai'r ffordd orau ymlaen yw parhau i leihau nifer yr ailddarllediadau yn ystod oriau brig ar BBC One, ond cynyddu nifer yr ailddarllediadau naratif a datblygu rhaglen o ailddarllediadau a gyd-gysylltir yn dda ar draws y portffolio o wasanaethau. Mae'n rhaid i'r polisi ailddarlledu wneud synnwyr i gynulleidfaoedd ac osgoi'r mathau o ailddarllediadau nad ydynt yn eu hoffi. Wrth i'r gwasanaeth ar alw ddatblygu, efallai y bydd yn rhaid i'r polisi newid er mwyn adlewyrchu ymddygiad newidiol cynulleidfaoedd.

## Teledu

**BBC One** yw prif wasanaeth y BBC o hyd. I sawl aelod o'r cyhoedd dyma *yw'r* BBC. Mae disgwyliadau gwylwyr yn uchel iawn ac, er y gall rhaglenni megis *Planet Earth* ragori ar y safonau hyn, mae'n rhaid i'r sianel weithio'n galed i fodloni'r disgwyliadau hyn. Er bod 42% o wylwyr y sianel yn cytuno'n gryf ei bod yn cynnig rhaglenni o ansawdd uchel, cyfran rywfaint yn is – 29% – sy'n ei chanmol yn uchel am fod yn "wreiddiol ac yn wahanol".

Mae gwylwyr BBC One yn disgwyl lefel uchel iawn o raglennu gwreiddiol a ddangosir am y tro cyntaf ac rydym wedi gofyn i'r Bwrdd Gweithredol barhau â'r ymrwymiad i leihau nifer yr ailddarllediadau yn ystod oriau brig yn Natganiad o Bolisi Rhaglenni'r sianel ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae cyrhaeddiad cyffredinol BBC One yn gostwng. Dros y tair blynedd diwethaf mae wedi colli pum pwynt, gan ostwng i 78% o'r boblogaeth yn 2006/2007. Mae rhywfaint o raglennu mwyaf poblogaidd BBC One yn dod o dan bwysau. Mae'r cyrhaeddiad i operâu sebon megis *EastEnders* wedi gostwng deg pwynt canran dros y tair blynedd ac mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o BBC One fel "y gorau ar gyfer operâu sebon" wedi gwanhau. Fodd bynnag, mae'n bleser gennym nodi bod y cyrhaeddiad i raglenni materion cyfoes yn cynyddu – a gynorthwywyd yn rhannol drwy symud *Panorama* i slot newydd yn ystod oriau brig ar nos Lun. Cefnogwn yr amcan a bennwyd gan y Llywodraethwyr yn llawn sef y dylid adfer amlygrwydd ac apêl rhaglenni materion cyfoes difrifol. Mae Datganiad o Bolisi Rhaglenni BBC One yn nodi'n glir ein bod yn disgwyl i allbwn materion cyfoes y sianel gynnal y safonau uchaf o ran bod yn ddiduedd ac yn fanwl gywir, buddsoddi mewn ymchwiliadau hirdymor ac adlewyrchu amrywiaeth eang o safbwyntiau a phrofiadau. Dylai *Panorama* ddefnyddio ei slot yn ystod oriau brig i gyflwyno rhaglenni o ansawdd uchel ar ystod eang o bynciau materion cyfoes i'w chynulleidfa eang.

Gall adloniant BBC One rannu barn cynulleidfaoedd. Mae rhai gwylwyr o'r farn bod fformatau adloniant yn gwneud y sianel yn fwy modern ac ifanc; mae eraill yn beirniadu adloniant sy'n seiliedig ar bobl adnabyddus (neu selebs) yn hallt, am eu bod yn credu ei fod yn ddeilliadol ac yn annheilwng o'r sianel. Credwn yn gryf y dylai holl wasanaethau'r BBC, gan gynnwys BBC One, fod yn arloesol ac yn uchelgeisiol o ran eu creadigrwydd. Derbyniwn fod hyn yn awgrymu elfen o risg, a chydnabyddwn fod


'methiannau', yn ogystal â 'llwyddiannau', yn cael mwy o effaith ar BBC One nag ar unrhyw un o wasanaethau eraill y BBC.

Mae cynulleidfa **BBC Two** wedi lleihau yn gyflymach na chynulleidfa BBC One dros y pedair blynedd diwethaf, gyda dirywiad penodol ymhlith oedolion iau, er yr ymddengys fod y dirywiad hwn wedi arafu.

Mae allbwn ffeithiol y sianel wedi bod yn gryf – gan gynnwys *Top Gear* (lle y gwnaeth dwy bennod ddenu cynulleidfaoedd cyfartalog o fwy nag 8 miliwn), *Coast, Springwatch* a *The Apprentice* (sydd bellach wedi symud i BBC One). Mae BBC Two yn perfformio'n gymharol dda o ran denu cynulleidfaoedd i'w hallbwn yn ystod oriau brig mewn marchnad sy'n gystadleuol iawn. Yr her yw rheoli hyn heb anghofio ymrwymiad y sianel, a nodir yn ei Datganiad o Bolisi Rhaglenni, i ddangos rhaglenni â dyfnder a sylwedd sy'n ehangu ac yn herio gorwelion gwylwyr.

Un o ganfyddiadau ein hymgynghoriad ar drwyddedau gwasanaeth oedd bod gwylwyr yn ystyried BBC Two mewn ffordd wahanol i BBC One. Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn ystyried sut mae'n 'gweddu' i sianelau teledu eraill y BBC.

**Cyrhaeddiad 15 munud wythnosol ar gyfartaledd (%): BBC One a BBC Two**




■ BBC One
■ BBC Two


Ffynhonnell: BARB, TNS/Infosys, 4+ oed. Pob awr

Mae **BBC Three** wedi dod yn fwy poblogaidd. Mae bellach yn cyrraedd 17.6% o'r boblogaeth mewn cartrefi â theledu digidol ac mae'r gymeradwyaeth i'r sianel yn cynyddu. Mae un o bob pump unigolyn rhwng 16 a 34 oed yn gwylio'r sianel ac mae wedi meithrin enw da fel llwyfan i gomedi newydd. Mae ymddygiad newidiol pobl ifanc o ran y cyfryngau yn fater hollbwysig i'r BBC ac mae rôl BBC Three yn y gwaith o ddiwallu anghenion y gynulleidfa hon yn rhywbeth y gwnawn ei hystyried wrth bennu blaenoriaethau strategol y BBC. Cytunwn â'r Bwrdd Gweithredol fod angen trafod rhai o deitlau rhaglenni'r sianel.

Mae **BBC Four** hefyd yn dod yn fwy poblogaidd. Mae bellach yn cyrraedd 7.1% o'r boblogaeth mewn cartrefi â theledu digidol – sy'n dda i sianel ddigidol. Fodd bynnag, nid cyrhaeddiad yw unig amcan BBC Four. Mae'n rhaid i ansawdd uchel barhau i fod wrth wraidd y sianel a'r her sy'n wynebu BBC Four yw parhau i fod yn ymrwymedig i'w gweledigaeth wreiddiol sef bod "yn lle i feddwl".

Anelwn at feithrin gwell dealltwriaeth o'r rôl y dylai BBC Three a BBC Four ei chwarae ym mhortffolio'r BBC o wasanaethau teledu wrth i'r broses o newid i ddigidol agosáu. Rydym hefyd am wella ein dealltwriaeth o'r polisïau trosglwyddo rhwng sianelau digidol a daearol y BBC, lle y mae angen ystyried sut y gellir cynnal natur nodedig y sianelau tra'n sicrhau'r gwerth gorau am arian drwy ddangos rhaglenni ar fwy nag un sianel.

**Cymeradwyaeth: BBC Three a BBC Four**
**Sgôr allan o 10**




■ BBC Three (pobl ifanc rhwng 16 a 34 oed)
■ BBC Four (pob oedolyn)

Ffynhonnell: Astudiaeth Olrhain y BBC cyfan, 15+ oed
Sylfaen: Pawb sy'n gwylio'r rhaglen

Mae **BBCi** yn cynnig ystod eang o allbwn teledu nad yw'n llinellol sydd ar gael drwy'r botwm coch. Nodwn sylwadau'r rheolwyr ar ba mor hawdd ydyw i'w ddefnyddio ond rydym yn ymwybodol o bryderon y Llywodraethwyr ynghylch cyflymder amseroedd ymateb ac rydym wedi gofyn i'r rheolwyr fonitro canfyddiadau defnyddwyr o ansawdd a pha mor hawdd ydyw i'w ddefnyddio wrth i fwy o gynnwys gael ei ychwanegu i'r gwasanaeth.

BBC Three sydd â'r cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog uchaf namyn dau, o blith 280+ o sianelau teledu annaearol. Daw BBC Four yn 16fed.

Ffynhonnell: BARB, TNS/Infosys, 4+ oed mewn cartrefi aml-sianel. Pob awr, 2006/2007.

18

o sianelau teledu penodol i blant yn y DU

Ffynhonnell: BARB

**63%**

o'r rhai rhwng 15 a 29 oed sy'n gwrando ar Radio 1 nad ydynt yn gwrando ar unrhyw un o wasanaethau radio eraill y BBC

Ffynhonnell: RAJAR. 2006/2007

Mae **CBBC** a **CBeebies** yn perfformio'n gryf mewn marchnadoedd sy'n gystadleuol iawn. Erbyn hyn ceir 18 o sianelau teledu penodol i blant yn y DU, ond, ar y cyfan, mae plant yn gwylio llai o deledu wrth iddynt droi at fathau eraill o adloniant. Yn y cyd-destun hwn, nodwn boblogrwydd y cynnwys i blant ar bbc.co.uk. Mae 56% o blant rhwng 7 a 15 oed yn y DU sydd â mynediad i'r rhyngrwyd yn honni eu bod wedi defnyddio CBBC ar-lein.

CBeebies yw'r sianel fwyaf poblogaidd i blant o hyd yn ystod ei horiau darlledu (0600-1900) gyda chyfran o 7% o'r gwylwyr[2] sy'n blant rhwng 4 a 14 oed mewn cartrefi â theledu digidol. Er gwaethaf cystadleuaeth gynyddol, mae'r sianel yn parhau i gyrraedd tuag 16% o'r grŵp oedran hwn mewn cartrefi â theledu digidol. Ystyrir bod CBeebies yn arloesol iawn hefyd – mae hanner ei gwylwyr sy'n oedolion yn cytuno'n gryf â'r datganiad ei bod yn cynnig "rhaglenni â syniadau newydd sy'n dilyn trywydd gwahanol". Un o'r gwendidau yn yr amserlen fu'r ddarpariaeth ar gyfer plant rhwng 4 a 6 oed ac mae'n bleser gennym nodi bod cynllun yn Natganiad o Bolisi Rhaglenni CBeebies ar gyfer 2007/2008 i wella cyrhaeddiad ymhlith y grŵp oedran hwn drwy gyflwyno rhaglennu newydd.

Mae CBBC hefyd yn boblogaidd o hyd mewn perthynas â'i chystadleuwyr. Mae oedolion yn cydnabod ei bod yn darparu gwasanaeth nodedig, o ran bod yn Brydeinig, gan gynnig amrywiaeth o raglenni byw a hefyd ei bod o ryw werth addysgol i blant.

O fewn marchnad deledu gyffredinol plant yn y DU, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod y cynnwys gwreiddiol a gomisiynir yn lleihau. Felly, mae rôl y BBC wrth fuddsoddi mewn rhaglennu o'r DU yn dod yn bwysicach a byddwn yn ei hystyried wrth ailflaenoriaethu ffi'r drwydded.

**Radio**

Mae **Radio 1** a **Radio 2** yn parhau i berfformio'n dda. Ar y cyfan, mae cyrhaeddiad i Radio 1 yn tyfu, ynghyd â chyfran y rhwydwaith o'r gynulleidfa wrth i bobl wrando am fwy o amser. Dengys ein gwaith ymchwil ar gynulleidfaoedd fod gwrandawyr yn gwerthfawrogi cyflwynwyr Radio 1 a Radio 2 yn arbennig. Fodd bynnag, nodwn ddyfarniad Ofcom yn erbyn dau o gyflwynwyr Radio 1 am ddefnyddio iaith sarhaus ac mae penderfyniad y Bwrdd Gweithredol i reoleiddio hyn yn llymach yn ein calonogi. Radio 2 yw gorsaf fwyaf poblogaidd y DU o hyd gyda mwy na 13 miliwn o wrandawyr ac mae'r gymeradwyaeth iddi yn parhau i fod yn uchel ymhlith ei gwrandawyr.

Fodd bynnag, ceir rhai pryderon sylfaenol. Radio 1 yw un o'r prif ffyrdd i'r BBC gyrraedd pobl ifanc o hyd – nid yw 53% o'i chynulleidfa yn gwrando ar unrhyw un o wasanaethau radio eraill y BBC, gan gynyddu i 63% ar gyfer gwrandawyr iau (rhwng 15 a 29 oed). Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad i'r rhai rhwng 15 a 29 oed wedi gostwng am yr ail flwyddyn ac er mai dyma'r sefyllfa ar draws y diwydiant radio, mae'r gostyngiad o ran Radio 1 yn fwy amlwg. Fodd bynnag, gallai cynnydd mewn gwrandawyr drwy lwyfannau digidol, yn enwedig ymhlith cynulleidfa darged Radio 1 sef y rhai rhwng 15 a 29 oed, wrthbwyso hyn dros amser.

Dangosodd ein hymgynghoriad ar Drwyddedau Gwasanaeth fod natur nodedig Radio 1 a Radio 2 yn peri pryder penodol i weithredwyr masnachol. Wrth lunio fersiwn terfynol y cylchoedd gwaith pwrpas ac adolygu'r trwyddedau gwasanaeth, byddwn yn ystyried p'un a allai'r gwasanaethau hyn wneud mwy i egluro ffynonellau eu natur nodedig a'u cyfraniad at Bwrpasau Cyhoeddus y BBC.

Yn ystod y flwyddyn, mae costau talent wedi dod yn fater pwysig i Radio'r BBC, ac wedi peri pryder i'r cyhoedd a'n cystadleuwyr masnachol. Bwriadwn ystyried hyn yn ein blaengynllun o astudiaethau gwerth am arian (gweler tudalen 51).

Mae cyrhaeddiad **Radio 3** wedi lleihau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf er bod ei gyfran yn parhau i fod yn sefydlog. I'r gwrthwyneb, mae nifer y bobl sy'n gwrando ar ei allbwn ar alw wedi tyfu, er i ni benderfynu peidio â chymeradwyo llwytho cerddoriaeth glasurol i lawr am ddim am ein bod o'r farn y gallai gwerth cyhoeddus hynny gael ei orbwyso gan y golled i ddefnyddwyr yn y farchnad fasnachol. Ar ddechrau 2007 gwnaed llawer o newidiadau i'r amserlen ac rydym yn disgwyl yn eiddgar am gael gweld effaith y rhain ar berfformiad cyffredinol y rhwydwaith.

Nodwn fwriad **Radio 4** i foderneiddio ei hun heb golli gwrandawyr craidd ac, yn arbennig, ei fwriad i fireinio rhywfaint o'i allbwn er mwyn ehangu ei apêl. Mae'r gwrandawyr yn parhau i ganmol y gwasanaeth yn fawr, a chafodd yr orsaf ei graddio fel y gwasanaeth gorau am raglenni o ansawdd uchel. Yn ystod

*[2]Cyfran o'r gwylwyr = canran y gynulleidfa gyfan sy'n gwylio dros gyfnod penodol o amser. Mae 7% o'r holl blant sy'n gwylio teledu mewn cartrefi â theledu digidol rhwng 0600 a 1900 yn gwylio CBeebies. Ffynhonnell: BARB TNS/Infosys 2006/2007*

chwarter olaf 2006/2007 cofnododd y rhwydwaith ei gyfran uchaf o wrandawyr ers degawd.

Ym marn y rheolwyr, mae'r lleihad bach yng nghynulleidfa **Radio Five Live** yn deillio'n bennaf o'r ffaith bod y rhwydwaith yn dibynnu ar y donfedd ganol. Nodwn fod yr orsaf yn wynebu cystadleuaeth gynyddol am hawliau chwaraeon, gan gynnwys colli hawliau unigryw i ddarlledu gemau pêl-droed yr Uwch Gynghrair.

Ar y cyfan mae **gwasanaethau radio digidol y BBC** yn cynyddu eu cyrhaeddiad ac yn cynnal perfformiad sefydlog o gymharu â gorsafoedd masnachol. Erbyn diwedd 2006/2007, cyrhaeddodd gwasanaethau radio digidol y BBC bron i 8% o oedolion (cynnydd o 4.5% ar ddiwedd 2005/2006). Mae cyfuniad **BBC 7** o raglennu gwreiddiol a chynnwys o'r archifau wedi bod yn boblogaidd, ac mae ganddo'r cyrhaeddiad uchaf namyn dau o blith holl wasanaethau radio digidol yn unig y DU. Mae **BBC Asian Network** a **1Xtra** yn targedu cynulleidfaoedd penodol nas gwasanaethir yn ddigonol o gymharu â chynulleidfaoedd eraill. Er gwaethaf y gynulleidfa darged gulach, credwn y gallai perfformiad y gorsafoedd fod yn gryfach. Mae cyrhaeddiad i 1Xtra, er enghraifft, wedi tyfu'n raddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, nodwn Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni 1Xtra ar gyfer 2007/2008 sy'n blaenoriaethu gwella cyrhaeddiad drwy fireinio'r amserlen – er na ddylai hyn gael ei gyflawni ar draul uchelgais is o ran gwasanaeth cyhoeddus.

Rhydd **radio lleol yn Lloegr** wasanaeth newyddion a gwybodaeth lleol a werthfawrogir yn fawr i gynulleidfaoedd sy'n teimlo weithiau na chânt eu gwasanaethu'n ddigonol gan weddill y BBC. Mae radio lleol y BBC yn Lloegr yn denu mwy na 7.5 miliwn o oedolion mewn wythnos gyffredin, er bod y cyrhaeddiad wedi lleihau ychydig dros amser. Mae'r gwasanaeth yn wynebu rhai heriau anodd – ceisio sicrhau apêl eang ymhlith y gynulleidfa darged o bobl dros 50 oed tra'n cynnal natur nodedig o fewn marchnadoedd lleol ac o fewn portffolio radio'r BBC.

Croesawn ymdrechion i fireinio a moderneiddio **BBC Radio Scotland**. Yr her yw cyflawni hyn tra'n parhau i fod yn gwbl nodedig o fewn tirlun darlledu'r Alban. Cyflawnodd **BBC Radio Wales** ei gyfran uchaf (12.9%) yn ystod chwarter olaf 2006/2007.

Er gwaethaf gostyngiad bach o ran cyrhaeddiad a chyfran, nodwn ganlyniadau cynnar gwaith ymchwil ar gynulleidfaoedd a wnaed gan y rheolwyr sy'n dangos bod gwrandawyr **BBC Radio Ulster/BBC Radio Foyle** yn rhoi'r sgorau uchaf i'r gwasanaeth o blith gwasanaethau radio'r BBC ar gyfer y gwledydd am gyflawni nodweddion Darlledu Cyhoeddus sef sicrhau ansawdd uchel, bod yn arloesol, yn heriol ac ymgysylltu â'r gynulleidfa drwy'r rhaglennu.

Cydnabyddwn bryderon ynghylch y ffaith nad yw'r gorsafoedd radio cenedlaethol ar gael ar DAB o hyd, fel y codwyd gan Gynghorau Cynulleidfa'r BBC yng Nghymru (BBC Radio Wales) a Gogledd Iwerddon (BBC Radio Foyle). Byddwn yn ystyried y pryderon hyn fel rhan o'n gwaith ehangach ar ailflaenoriaethu ffi'r drwydded. Cawsom ein calonogi gan ymateb cadarnhaol Cyngor Cynulleidfa'r Alban i ail-lansio **Radio nan Gàidheal**. Mae'r gwasanaeth bellach yn rhedeg yn barhaus drwy gydol y nos ac mae wedi ymestyn ei allbwn.

## Newyddiaduraeth

Pennodd y Llywodraethwyr rai amcanion i'r rheolwyr ar gyfer 2006/2007 o ran bod yn ddiduedd, sef:

- sicrhau bod y BBC yn cyrraedd y safonau uchaf o ran bod yn gywir, yn deg ac yn ddiduedd
- ymateb i arolygon annibynnol y Llywodraethwyr sy'n ymwneud â bod yn ddiduedd er mwyn sicrhau hyfforddiant a phrosesau golygyddol cryf.

I'r cyhoedd, newyddion yw'r gwasanaeth mwyaf sylfaenol a ddarperir gan y BBC o hyd. Dengys gwaith ymchwil diweddar a gomisiynwyd gan yr Ymddiriedolaeth fel rhan o'i hymgynghoriad ar gylchoedd gwaith pwrpas (gweler tudalen 11) fod gweld y BBC yn gosod y safon ar gyfer newyddiaduraeth o ansawdd uchel yn bwysig iawn i gynulleidfaoedd. Fel Ymddiriedolwyr rhown bwys mawr iawn ar sicrhau bod y BBC yn parhau i gynnig gwasanaeth newyddion a materion cyfoes sy'n gywir, yn ddiduedd ac yn annibynnol, a thrwy ein Pwyllgor Safonau Golygyddol (gweler tudalen 43) byddwn yn sicrhau bod y ffocws ar fod yn ddiduedd a ddechreuwyd gan y Llywodraethwyr yn cael ei gynnal.

Wrth asesu perfformiad yn erbyn amcanion y Llywodraethwyr o ran bod yn ddiduedd ac yn annibynnol, yn ein barn ni, ar y cyfan, mae newyddiaduraeth y BBC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi ymateb i'r her anodd a pharhaus o gynnal y safonau uchel o fod yn gywir, yn deg ac yn ddiduedd a ddisgwylir gan gynulleidfaoedd, a gwnaed cynnydd sylweddol wrth weithredu argymhellion arolygon y Llywodraethwyr o ran bod yn ddiduedd.

**808k**
o oedolion yn gwrando ar BBC 7 mewn wythnos gyffredin
Ffynhonnell: RAJAR. 15+ oed. Ch1 2007

**7.5m**
o oedolion yn gwrando ar wasanaethau radio lleol y BBC yn Lloegr mewn wythnos gyffredin
Ffynhonnell: RAJAR. 15+ oed. 2006/2007

**76%**
o oedolion yn dweud eu bod yn ymddiried yn rhaglenni newyddion y BBC
Ffynhonnell: Ipsos-MORI (Ch4 2006)

**80%**

o oedolion yn defnyddio gwasanaeth BBC Newyddion ar y teledu, radio neu ar-lein mewn wythnos gyffredin

Ffynhonnell: Astudiaeth Olrhain y BBC cyfan. Defnydd honedig 15+ oed, 2006/2007

**6m**

o ddefnyddwyr unigryw wythnosol gan bbc.co.uk/news yn 2006/2007.

Ffynhonnell: Cofnodion gwasanaethydd y BBC, DU yn unig. Yn seiliedig ar gwcis

Dengys gwaith ymchwil ar gynulleidfaoedd fod y canfyddiadau o natur ddiduedd y BBC yn parhau i fod yn sefydlog dros amser. Noda gwaith ymchwil gan Ipsos-MORI (Ch4 2006) fod 76% o'r ymatebwyr yn datgan mai yn rhaglenni newyddion y BBC roeddent yn ymddiried fwyaf i roi barn deg, hyddysg a chytbwys ar faterion a digwyddiadau pwysig. Ar y cyfan, mae 53% o'r farn bod y BBC yn "deg ac yn ddiduedd", tra bod 18% o'r farn ei fod yn "dangos tuedd" (o gymharu â 57% ac 16% yn Ch 2006).

Mae'r rheolwyr wedi canolbwyntio'n arbennig ar ddarllediadau o'r Dwyrain Canol fel maes i weithredu arno er mwyn atgyfnerthu prosesau golygyddol. Datblygwyd rôl uwch i Olygydd y Dwyrain Canol; cafwyd cynllun cydgysylltiedig i wella darllediadau materion cyfoes; ac mae'r allbwn wedi cael ei fonitro'n rheolaidd gan yr uwch gynghorydd golygyddol.

Roedd y gwrthdaro rhwng Israel a Hezbollah yn Lebanon yn ystod yr haf y llynedd yn brawf mawr o natur ddiduedd y BBC a phrofodd allu'r BBC i roi gwybodaeth gymhleth i gynulleidfaoedd gwahanol. Cafwyd mwy na 5,000 o gwynion am y darllediadau, gyda llawer yn honni eu bod yn dangos tuedd – i'r ddau du. Nododd arolwg o'r gynulleidfa a gomisiynwyd yn arbennig ar gyfer BBC Newyddion fod y rhan fwyaf o'r farn mai'r BBC a oedd wedi darparu'r darllediadau gorau o'r gwrthdaro, gyda 64% yn ymddiried ynddo ac 11% yn ei amau. Ar raddfa o 1 i 10, sgoriodd darllediadau'r BBC 6.7 o ran bod yn "deg ac yn gytbwys". Mae hyn o gymharu â sgôr arferol o 6.3 am "Mae BBC Newyddion yn ddiduedd".

Comisiynwyd astudiaeth sef *Safeguarding Impartiality in the 21st Century* gan y Llywodraethwyr ar y cyd â rheolwyr y BBC a throsglwyddwyd y cyfrifoldeb amdani i'r Ymddiriedolaeth a Bwrdd Gweithredol y BBC (gweler y blwch ar y dde). Comisiynwyd astudiaeth ar wahân o natur ddiduedd gohebiaeth y BBC ym myd busnes (gweler y blwch ar dudalen 23).

Mae BBC Newyddion ar draws gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein yn cyrraedd 80% o oedolion, ond mae cynulleidfaoedd rhaglenni newyddion ar deledu a radio'r BBC wedi lleihau yn y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd o ran ffynonellau newyddion eraill megis y rhyngrwyd, ffonau symudol a phapurau newydd am ddim, ond hefyd agweddau newidiol cynulleidfaoedd iau sy'n llai cefnog sydd yn ôl pob tebyg yn colli diddordeb mewn cael y newyddion diweddaraf yn rheolaidd. Fodd bynnag, nodwn fod apêl newyddion teledu rhanbarthol wedi bod yn gymharol gadarn ac ymddengys fod gan gynulleidfaoedd ddiddordeb cryf mewn newyddion am faterion lleol.

Mae defnyddwyr unigryw wythnosol bbc.co.uk/news wedi cynyddu 72% mewn dwy flynedd, i 6 miliwn erbyn diwedd 2006/2007. Mae'r defnydd o newyddion ar bbc.co.uk wedi cynyddu mor gyflym fel ei fod bellach yn rhagori'n gyson ar y lefelau uchaf blaenorol o ddefnydd, megis yr ymgyrch fomio yn Llundain yn 2005. Newyddion yw rhan fwyaf poblogaidd bbc.co.uk yn bendant a nodwn fod y newyddion a gynigir ar-lein gan y BBC yn parhau i ddatblygu ac arloesi er mwyn gwasanaethu'r cyhoedd yn well.

Gwasanaeth newyddion teledu parhaus y BBC, sef **BBC News 24**, sy'n arwain y maes bellach o ran

### Diogelu Natur Ddiduedd y BBC yn yr 21ain Ganrif

Mae bod yn ddiduedd, un o gonglfeini gwerthoedd golygyddol y BBC, yn dod o dan bwysau cynyddol wrth i natur gwleidyddiaeth – a thechnoleg – newid ac wrth i gyfranogiad cynulleidfaoedd dyfu. Mewn ymateb i hyn comisiynodd y Llywodraethwyr arolwg sylfaenol o natur ddiduedd y BBC. Cyhoeddwyd y canlyniadau ym mis Mehefin 2007.

Dengys gwaith ymchwil a gomisiynwyd ar gyfer y prosiect fod natur ddiduedd y BBC yn bwysig i'r cyhoedd a'i fod yn mynnu ar hynny. Mae'n ategu ymddiriedaeth y cyhoedd yn y BBC na all y BBC weithredu hebddi. Mae bod yn ddiduedd yn dibynnu ar gywirdeb, cydbwysedd, cyd-destun, pellter, tegwch, gwrthrychedd, meddwl agored, cadernid, hunanymwybyddiaeth, tryloywder a'r gwirionedd. Yn hanfodol mae a wnelo ag ehangder barn a chyflawnrwydd. Ni ddylai fod yn esgus dros wneud rhaglenni diddim.

Mae gan y BBC yr adnoddau, yn ei adran Polisi Golygyddol a'i Goleg Newyddiaduraeth, i wella'r broses o sicrhau ei fod yn ddiduedd. Mae'r adroddiad yn argymell ymestyn eu rôl. Mae'r adroddiad hefyd yn argymell goruchwylio tymhorau â themâu mawr yn gliriach ar sail olygyddol. Mae'r cynnydd yn nifer yr ymgyrchoedd sy'n canolbwyntio ar un thema a gaiff eu hyrwyddo gan bobl enwog (neu selebs) yn peri risgiau penodol. Mae hefyd angen i ystafelloedd newyddion fod yn gwbl ymwybodol o'r materion moesegol a godir gan gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr.

### Natur ddiduedd darllediadau busnes y BBC

Fel rhan o'u rhaglen reolaidd o adolygu natur ddiduedd y BBC comisiynodd y Llywodraethwyr banel annibynnol, a gadeiriwyd gan Syr Alan Budd, i asesu natur ddiduedd darllediadau busnes y BBC. Cyflwynodd y panel ei adroddiad ym mis Mai 2007.

Ei gasgliad cyffredinol oedd bod y rhan fwyaf o allbwn busnes y BBC yn cyrraedd y safonau gofynnol o ran bod yn ddiduedd. Ond dywedodd y panel hefyd ei fod wedi gweld nifer o wallau unigol ac wedi nodi rhai tueddiadau sy'n arwain at dorri safonau'r BBC yn rheolaidd.

Croesawodd yr Ymddiriedolaeth yr adroddiad. Rhannodd bryder y panel ynghylch y ffaith bod y BBC yn canolbwyntio'n bennaf ar safbwynt y defnyddiwr yn ei adroddiadau ar fyd busnes. Roedd cynulleidfaoedd hefyd yn cynnwys buddsoddwyr, cynilwyr, perchenogion busnes a chyflogeion â diddordeb personol neu ddinesig mewn deall effaith busnes o amrywiaeth o safbwyntiau. Roedd bod yn ddiduedd yn golygu cyflwyno'r darlun llawn ac amrywiaeth llawn o safbwyntiau ac roedd gan y BBC gyfrifoldeb i wneud hyn.

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn trafod argymhellion y panel gyda'r rheolwyr pan fydd wedi cael cyfle i ystyried yr adroddiad ac ymateb iddo.

cyrhaeddiad, ac mae ei wylwyr yn ei ganmol yn fawr o ran ansawdd. Yn sgîl y broses o ddadansoddi ei allbwn, rydym yn falch o weld bod ei agenda newyddion yn parhau i fod yn nodedig a dengys ein gwaith gyda chynulleidfaoedd y gwerthfawrogir agenda eang y sianel, ei darllediadau o newyddion rhyngwladol o bwys, a'i gohebiaeth o bob cwr o'r DU.

### Ar-lein

Dengys ein gwaith gyda chynulleidfaoedd fod **bbc.co.uk** yn cael ei werthfawrogi am ei fod yn hawdd ei ddefnyddio, am fod y wybodaeth a gynigir ganddo yn ddibynadwy ac am ei fod yn eang ei gwmpas. Newyddion, chwaraeon a phlant yw'r meysydd mwyaf poblogaidd o blith yr hyn a gynigir ganddo – er ein bod yn disgwyl y bydd galw cynyddol am allbwn ar alw pan gaiff BBC iPlayer ei lansio.

Mae ein cylch gwaith ar gyfer BBC iPlayer yn pennu amcan i'r Bwrdd Gweithredol o ddefnyddio'r gwasanaeth i gynnal cyrhaeddiad, lefel o ddefnydd a gwerth am arian allbwn teledu a radio'r BBC, a chynyddu effaith rhaglenni'r BBC. Mae'r cylch gwaith yn nodi'n glir y dylai BBC iPlayer roi mwy o ddewis a rheolaeth i'r cyhoedd o ran sut y caiff rhaglenni'r BBC eu gwylio neu sut y gwrandewir arnynt, a chynyddu'r rhaglenni niche ac arbenigol a gaiff eu gwylio. Drwy gyflawni'r nodau hyn, dylai BBC iPlayer helpu i gynnal perthnasedd canfyddedig y BBC i dalwyr ffi'r drwydded wrth i'w patrymau o ran defnyddio'r cyfryngau newid.

Mae'r defnydd o'r rhyngrwyd yn parhau i newid a datblygu'n gyflym – mae rhwydweithio cymdeithasol a rhannu cynnwys, er enghraifft, yn dod yn fwyfwy pwysig i lawer o ddefnyddwyr. Mae'n rhaid i wasanaethau ar-lein y BBC barhau i fod yn berthnasol yn y fath amgylchedd sy'n newid yn gyflym ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'r rheolwyr ar eu syniadau i ddatblygu bbc.co.uk.

### Arolwg yr Ymddiriedolaeth o bbc.co.uk

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i gynnal arolygon manwl o holl wasanaethau cyhoeddus y BBC o leiaf unwaith bob pum mlynedd a byddwn yn cyhoeddi'r amserlen ddiweddaraf o'r arolygon sydd i ddod yn rheolaidd. Ym mis Mawrth 2007 penderfynwyd adolygu bbc.co.uk, sef gwasanaeth ar-lein y BBC. Mae ein penderfyniad yn cynnal ymrwymiad a wnaed gan Fwrdd y Llywodraethwyr yn 2004, yn dilyn arolwg yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o BBC Ar-lein, y dylai arolwg arall gael ei gynnal ar ôl tair blynedd.

Byddwn yn lansio'r arolwg ar ddechrau haf 2007 gan gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gwmpas a pherfformiad presennol bbc.co.uk. Byddwn yn ceisio ymatebion gan y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill y BBC, gan gynnwys ei weithredwyr masnachol, a byddwn yn comisiynu gwaith ymchwil lle y bo angen. Byddwn hefyd yn gofyn i Fwrdd Gweithredol y BBC gyflwyno ymateb cyhoeddus i'r arolwg.

Yna byddwn yn ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ein harolwg ac yn llunio casgliadau. Byddwn yn cyhoeddi ein casgliadau ac unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o hynny, megis newidiadau i'r gwasanaeth ac amrywiadau i'w drwydded gwasanaeth.

Ni ddylai bod yn ddiduedd fod yn esgus dros wneud rhaglenni diddim

Ffynhonnell: *Safeguarding Impartiality in the 21st Century*

Newyddion, chwaraeon a phlant yw'r meysydd mwyaf poblogaidd o blith y cynnwys ar-lein a gynigir ar bbc.co.uk

**233m**

o bobl yn gwylio BBC World Service neu'n gwrando arno (targed ar gyfer 2006/2007 = 210 miliwn)

Ffynhonnell: BBC Global News

**183m**

o bobl yn gwrando ar wasanaeth radio BBC World Service (targed ar gyfer 2006/2007 = 163 miliwn)

Ffynhonnell: BBC Global News

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am BBC World Service yn ei Arolwg Blynyddol ei hun – sydd hefyd ar gael yn bbc.co.uk

Byddwn yn adolygu'r gwasanaeth yn ddiweddarach eleni (gweler y blwch ar y dudalen flaenorol).

Diddymwyd **BBC jam**, y gwasanaeth addysgol ar-lein i blant ysgol, ym mis Mawrth 2007. I gael y cefndir i hyn, gweler y blwch ar dudalen 7.

## BBC World Service

Ni chaiff **BBC World Service** ei ariannu gan ffi'r drwydded o gwbl. Yn hytrach, caiff ei ariannu gan Gymorth Grant seneddol. Rôl yr Ymddiriedolaeth yw cytuno ar amcanion hirdymor a'u cyhoeddi ar y cyd â'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad, a chymeradwyo strategaeth lefel uchel.

Nodwn fod BBC World Service wedi rhagori ar y targed o ran cynyddu ei gyrhaeddiad cyffredinol. Fodd bynnag, nodwn hefyd na chyflawnwyd y targed o ran cyrhaeddiad ymhlith 'dylanwadwyr' (llunwyr barn a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau – un o gynulleidfaoedd â blaenoriaeth BBC World Service) ymhob marchnad allweddol. Rydym yn awyddus i ddeall anghenion y gynulleidfa hon yn well.

Comisiynodd Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad yr Ymddiriedolaeth waith ymchwil annibynnol ar chwe gwasanaeth iaith – Arabeg, Perseg, Swahili, Bengaleg, Hindi a Saesneg ar gyfer Gorllewin Ewrop. Bu'r ymateb cyffredinol yn gadarnhaol. Ystyriwyd bod enw da a dibynadwyedd yn elfennau cryf, ac ar y cyfan roedd cynulleidfaoedd o'r farn bod BBC World Service yn fanwl gywir, yn addysgol ac yn meithrin ymddiriedaeth. Nododd y gwaith ymchwil fod angen gwneud materion byd-eang yn fwy perthnasol yn lleol ac annog mwy o gyfraniad mewn trafodaethau byd-eang.

Yn ystod y flwyddyn i ddod bydd BBC World Service yn lansio gwasanaeth teledu Arabeg ac mae'n bwriadu cyflwyno fersiwn Ffarsi y flwyddyn ganlynol. Byddwn yn monitro'r broses o ddarparu'r gwasanaethau newydd hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu at Bwrpasau Cyhoeddus y BBC ochr yn ochr â'r portffolio presennol o wasanaethau.

## Cynulleidfaoedd

Ar gyfer 2006/2007, pennodd y Llywodraethwyr yr amcan o wella atebolrwydd y BBC i gynulleidfaoedd. Gofynnwyd i'r Uned Lywodraethu wneud y canlynol:

- cynnal arolwg mawr o agweddau'r cyhoedd tuag at y BBC
- gweithio gyda'r Cynghorau Cynulleidfa i wella eu proffil a datblygu cynllun gweithredu i ymgysylltu â chynulleidfaoedd yn ehangach.

Gofynnwyd i reolwyr y BBC:

- ddatblygu strategaethau gwasanaeth newydd mewn ymateb i Dyfodol Creadigol, gan sicrhau bod pob cynulleidfa yn cael ei gwasanaethu'n dda, a chanolbwyntio ar wella canfyddiadau cynulleidfaoedd sy'n llai ffafriol tuag at y BBC

Fe'n calonogir gan y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni amcan y Llywodraethwyr sy'n ymwneud ag atebolrwydd. Mae rheolwyr y BBC wedi adlewyrchu nodau'r amcan hwn yn eu prosiect Dyfodol Creadigol. Un o'r nodau yw sicrhau bod y BBC yn berthnasol i bob cynulleidfa. Mae wedi ystyried anghenion cynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol ar hyn o bryd gan gynnwys pobl ifanc a'r rhai ar incwm is.

Yn ystod y flwyddyn canolbwyntiodd y rheolwyr ar ddeall cynulleidfaoedd a oedd i'w groesawu. Ymhlith y mentrau mae astudiaeth ar draws y cyfryngau sy'n edrych ar sut ac ymhle y mae'r BBC yn sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd ar hyn o bryd, a chyfres o Wyliau Cynulleidfa sy'n annog staff y BBC i ddysgu mwy am y rhai maent yn ceisio eu cyrraedd.

Fel Ymddiriedolwyr y BBC, sy'n cynrychioli buddiannau'r cyhoedd, rydym yn ymrwymedig i ddeall cynulleidfaoedd ac ymgysylltu â hwy ein hunain. Mae ein rhaglen ymchwil yn cynnwys arolwg mawr iawn o 10,000 o oedolion yn y DU. Dechreuwyd y prosiect hwn yn gynharach eleni. Fel rhan o'n gwaith i ddatblygu cylchoedd gwaith pwrpas, cynhaliodd yr asiantaeth ymchwil BMRB gyfweliadau gyda thua 4,500 o bobl i ganfod eu hagweddau tuag at y BBC, y rolau a oedd yn bwysig i'r BBC yn eu barn hwy, a pha mor dda yr oedd y BBC yn perfformio. (Am ragor o wybodaeth am hyn, gweler tudalen 11.) Bydd y canfyddiadau yn cael eu hymgorffori yn ein gwaith ar ailflaenoriaethu wrth iddynt gael eu cyflwyno.

Mae'r Siarter newydd yn sefydlu Cynghorau Cynulleidfa ac yn rhoi rôl bwysig iddynt o fewn system lywodraethu newydd y BBC. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu Protocol i Gynghorau Cynulleidfa, gan nodi rôl a chyfrifoldeb y Cynghorau, a sefydlwyd Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa fel fforwm i gyfnewid syniadau (gweler tudalen 34). Am asesiad y Cynghorau Cynulleidfa o berfformiad gweler y blwch ar y dde.

Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor yn datblygu cynlluniau allgymorth a hyrwyddo ar gyfer pob Cyngor. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i geisio barn y cyhoedd ar sut yr hoffai fod yn rhan o ymgynghoriadau a chyfrannu at broses yr Ymddiriedolaeth o wneud penderfyniadau, a bydd Cynghorau Cynulleidfa yn chwarae rhan allweddol yn hyn o beth. Am enghraifft o'r ffordd y cynhaliodd un Cyngor ymgynghoriad gweler y blwch ar ddarpariaeth ieithoedd lleiafrifol isod.

### Darpariaeth ieithoedd lleiafrifol

Drwy ymgysylltu â'r cyhoedd, nododd Cyngor Cynulleidfa Gogledd Iwerddon bryderon penodol cynulleidfaoedd ynghylch allbwn yn yr iaith Wyddeleg a Gaeleg Ulster. O ganlyniad i hynny, cynhaliodd ymgynghoriad lleol a bydd hyn yn llywio ystyriaeth yr Ymddiriedolaeth o'r ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd lleiafrifol brodorol ledled y DU.

Nod yr ymgynghoriad a gynhelir ar ddau gam yw deall anghenion a phryderon cynulleidfaoedd a nodi'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer darpariaeth ieithoedd lleiafrifol gan BBC Northern Ireland dros y tair i bum mlynedd nesaf. Cynhelir ail ymgynghoriad yn ystod haf 2007 ar ôl i'r Ymddiriedolaeth gyhoeddi ei barn bresennol, a bydd y canlyniadau yn llywio penderfyniad terfynol yr Ymddiriedolaeth yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

### Asesiad Cynghorau Cynulleidfa o berfformiad y BBC

Rôl Cynghorau Cynulleidfa fel y'i diffinnir yn y Siarter yw sicrhau bod safbwyntiau amrywiol talwyr ffi'r drwydded yn cael eu hystyried gan yr Ymddiriedolaeth yn ei gwaith drwy gysylltiadau'r Cynghorau â sawl cymuned wahanol yn y DU. Mae'r pedwar Cyngor, sy'n cwmpasu Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn adolygu perfformiad y BBC yn eu gwledydd ac yn trafod eu hasesiadau gyda'r Ymddiriedolaeth mewn cyfarfod blynyddol.

Yn y cyfarfod blynyddol ym mis Ebrill 2007 nodwyd y materion allweddol canlynol ymhlith rhai eraill:

- Darllediadau newyddion rhwydwaith y BBC o faterion datganoledig – roedd rhywfaint o anfodlonrwydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ynghylch cywirdeb ac amrywiaeth darllediadau newyddion rhwydwaith y BBC o faterion datganoledig.
- Darllediadau newyddion rhwydwaith y BBC o straeon rhanbarthol yn Lloegr – cwestiynodd Cyngor Cynulleidfa Lloegr duedd newyddion rhwydwaith y BBC i ddefnyddio gohebwyr sy'n adnabyddus yn genedlaethol ar gyfer straeon rhanbarthol ar draul cywirdeb a darpariaeth cyd-destun lleol.
- Cynrychiolaeth ddiwylliannol yn allbwn rhwydwaith y BBC – mynegodd y pedwar Cyngor bryder ynghylch lefel ac ansawdd y gynrychiolaeth o wledydd a rhanbarthau'r DU yn allbwn rhwydwaith y BBC.
- Lefelau comisiynau'r rhwydwaith o'r gwledydd a'r rhanbarthau – galwodd y Cynghorau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon am i'w gwledydd gyfrannu at y rhwydwaith yn fwy.
- Darpariaeth ddigidol – cododd y pedwar Cyngor bryderon ynghylch y ffaith nad yw rhai o'r gwasanaethau digidol ar gael i bawb yn eu gwledydd.

Pan fo'n briodol, ystyrir y materion golygyddol wrth i'r Ymddiriedolaeth lunio fersiwn terfynol y cylchoedd gwaith pwrpas a chomisiynu cynlluniau pwrpas gan y Bwrdd Gweithredol. Datblygir materion eraill drwy raglen reolaidd yr Ymddiriedolaeth o arolygon ac adroddiadau ar gynnydd. Er enghraifft, bydd yr arolwg nesaf o ran bod yn ddiduedd yn ystyried natur ddiduedd newyddiaduraeth y gweledydd a'r rhanbarthau.

Cododd y pedwar Cyngor Cynulleidfa bryderon ynghylch y ffaith nad yw rhai o'r gwasanaethau digidol ar gael i bawb yn eu gwledydd

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno y bydd yr arolwg nesaf o ran bod yn ddiduedd yn ystyried materion sy'n ymwneud â newyddiaduraeth y gweledydd a'r rhanbarthau

**70%**

o dalwyr ffi'r drwydded yn dweud y byddent yn gweld eisiau'r BBC os na fyddai'n bodoli

Ffynhonnell: Arolwg o Gylchoedd Gwaith Pwrpas. 15+ oed. BMRB. Chwefror 2007

Ymhlith canfyddiadau arwyddocaol eraill o waith yr Ymddiriedolaeth gyda chynulleidfaoedd mae'r canlynol:

- Er bod graddau cymeradwyaeth cyffredinol y BBC yn parhau i fod yn sefydlog – ac yn uwch nag ITV a Channel 4 a'r un peth â Sky – mae'r gymeradwyaeth yn amrywio rhywfaint ymhlith grwpiau demograffig gwahanol. Byddwn yn gweithio i ddeall y canlyniadau hyn yn llawnach.
- Pan ofynnwyd i gynulleidfaoedd p'un a yw'r BBC yn gwasanaethu pob rhan o'r DU yn gyfartal, dim ond lleiafrif a oedd yn cytuno. Mae'r teimlad yn gryfach ymhlith y rhai sy'n byw ymhellach i ffwrdd o Lundain. Mae'r pryder hwn wedi cael ei leisio gan gynulleidfaoedd ers cryn dipyn o amser, ac nid dim ond yng nghyd-destun y BBC – mae llawer o gyrff cenedlaethol eraill hefyd yn ei brofi. Byddwn yn gweithio i'w ddeall yn well gan geisio ei ystyried yn ein gwaith ar ailflaenoriaethu ffi'r drwydded.
- Pan ofynnir i gynulleidfaoedd roi eu barn ar y graddau y mae'r BBC yn cymryd eu safbwyntiau o ddifrif, dywed lleiafswm sylweddol – traean neu fwy – naill ai "ddim llawer" neu "ddim o gwbl". Mae'r canfyddiadau hyn yn uwch ymhlith cynulleidfaoedd hŷn, grwpiau incwm is a phobl sy'n byw y tu allan i Loegr. Mae hyn yn bryder gwirioneddol i'r Ymddiriedolaeth yn rhinwedd ein rôl o gynrychioli'r cyhoedd. Ar hyn o bryd mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n ymgynghori â chynulleidfaoedd ar sut y maent am leisio eu barn a bydd y canlyniadau yn llywio gweithgarwch ymgysylltu'r Ymddiriedolaeth yn y dyfodol.
- Er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig â chynulleidfaoedd, mae'r Ymddiriedolaeth yn falch o nodi y byddai'r mwyafrif helaeth o'r cyhoedd – 70% – yn gweld eisiau'r BBC os na fyddai'n bodoli.

"Mae'n dda pan fyddwch yn mynd adref o'r gwaith hefyd gan nad yw'n rhy swnllyd. Mae eitemau eithaf diddorol i wrando arnynt yn y car pan fyddwch mewn rhes o draffig ar eich ffordd adref."

BBC Radio Scotland. Merch, o Glasgow, yn cyfrannu at ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth ar drwyddedau gwasanaeth.

# Perfformiad y BBC
# Cyllid a busnes

Ystyriwn gyllid y BBC o safbwynt strategol a chymeradwywn gyllideb y BBC ynghyd â'i gynlluniau ariannol hirdymor

## Fel Ymddiriedolwyr rydym yn gyfrifol am oruchwylio perfformiad ariannol a pherfformiad busnes y BBC. Cyflwynwn adroddiad yma hefyd ar amcanion y Llywodraethwyr ar gyfer 2006/2007 sy'n ymwneud â gwerth am arian a chynyddu nifer y bobl sy'n newid i ddigidol.

### Y BBC yn yr economi ehangach

Mae'r BBC yn chwarae rhan bwysig yn sector y cyfryngau yn y DU gan wario £3.3biliwn yn 2006/2007. O'r swm hwn, gwariwyd £1.1biliwn y tu allan i'r BBC o fewn diwydiant creadigol y DU (gyda chwmnïau cynhyrchu annibynnol, artistiaid ac adnoddau rhaglenni eraill). Mae'r 'window of creative competition' wedi rhoi cyfleoedd newydd i gynhyrchwyr annibynnol ac, mewn rhai sectorau megis rhaglennu plant, mae rôl gomisiynu'r BBC yn dod yn fwyfwy pwysig o ran cefnogi rhaglennu gwreiddiol yn y DU.

Nid dim ond drwy ei wariant uniongyrchol y mae'r BBC yn cyfrannu at sector y cyfryngau yn y DU sy'n ffynnu. Mae'r BBC hefyd yn cyfrannu mewn ffyrdd eraill megis drwy ddarparu hyfforddiant arbenigol o fewn y diwydiant (gweler Rhan Dau, tudalen 80) a'r llif rheolaidd o staff rhwng y BBC a darparwyr masnachol.

Mae'r BBC hefyd yn cyfrannu'n gynyddol at yr economi ehangach ledled y DU. Yn ystod 2006/2007 gwariodd £864miliwn y tu allan i Lundain yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Eleni hefyd adleolwyd is-adran gyllid y BBC i Gaerdydd, ac ar 31 Mai 2007 cymeradwywyd y contract o'r diwedd ar gyfer canolfan ddarlledu newydd yn Salford.

### Perfformiad ariannol y BBC

O dan y Siarter, yr Ymddiriedolaeth sy'n bennaf cyfrifol am warchodaeth y BBC o refeniw ffi'r drwydded a'i adnoddau eraill. Golyga hyn ei bod yn ofynnol i ni adolygu anghenion ariannol y BBC yn rheolaidd a sicrhau y cyflawnir gwerth am arian gan y BBC drwy'r broses o wario ffi'r drwydded.

Gwnawn hyn mewn dwy ffordd – drwy broses barhaus o adolygu cyllidebau a chynlluniau ariannol a hefyd drwy gyfres o astudiaethau o agweddau penodol ar werth am arian a dargedir yn fwy.

Bob blwyddyn ystyriwn gyllid y BBC o safbwynt strategol ac mae gennym ddyletswydd i gymeradwyo cyllideb y BBC a'i gynlluniau ariannol hirdymor.

Pennodd y Llywodraethwyr gyfres o amcanion gwerth am arian i'r rheolwyr ar gyfer 2006/2007, sef:

- Cyflawni arbedion gwerth am arian tra'n cynnal allbwn o ansawdd. Lleihau nifer y staff 2,055
- Sicrhau arbedion arian parod cronnol o £211miliwn, gan gynnwys arbedion arian parod newydd o £112miliwn, tuag at darged o arbedion arian parod blynyddol o £355miliwn erbyn 2007/2008. Peidio â mynd i gostau gweithredu sy'n fwy na £148miliwn
- Datblygu strwythur busnes cydlynol
- Pennu targedau ar gyfer gwelliant ariannol parhaus
- Gwella elw Worldwide i'r BBC: sicrhau twf digid dwbl o ran elw a thwf parhaus o ran gwerthiant; elw o 10% o leiaf o werthiannau; a gorswm EBITDA[1] o 22% o leiaf
- Cynyddu gwerthiannau ffi'r drwydded 1.04% a lleihau nifer yr achosion o osgoi talu ffi'r drwydded i 4.6%

Cawn bennu nifer o amcanion ariannol ar gyfer y rheolwyr y mae'n rhaid iddynt reoli eu gweithrediadau o'u mewn.

Cyflawnwyd y rhan fwyaf o'r amcanion hyn ac mae'r BBC ar y trywydd iawn i gyflawni'r arbedion a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn derfynol o'i raglen effeithlonrwydd tair blynedd. Cafwyd arbedion arian parod o £128miliwn yn 2006/2007, gan greu cyfanswm cronnol o £228miliwn – £17miliwn yn uwch na'r targed. Gwariwyd £106miliwn ar weithredu'r rhaglen – £42miliwn yn is na'r amcangyfrif. Fodd bynnag, ni chyflawnwyd y targed ar gyfer lleihau nifer y staff o 8%. Y targed oedd 2,055 a'r canlyniad oedd 1,891.

Am arolwg manylach y rheolwyr o berfformiad ariannol y BBC gweler Rhan Dau

[1] *Enillion cyn llog, trethi, dibrisiad ac amorteiddiad*

Mae'r BBC wedi datblygu model busnes a gynlluniwyd i atgyfnerthu diwylliant o welliant parhaus. Y bwriad yw cymhwyso'r egwyddorion gweithredu y tu hwnt i'r rhaglen effeithlonrwydd tair blynedd bresennol er mwyn sicrhau rhagor o fanteision gwerth am arian.

Cyflawnodd BBC Worldwide ein holl amcanion o ran cynlluniau ariannol. Cyflawnwyd y targed o ran twf digid dwbl ar gyfer elw yn gyfforddus. Cynyddodd elw, ar wahân i eitemau eithriadol, 27.5% o £79miliwn i £101miliwn. Cynyddodd gwerthiannau 3.2%, a chyflawnwyd elw o werthiannau o 12.4% yn erbyn targed o 10%. 27% oedd gorswm EBITDA yn erbyn targed o 22% o leiaf.

Ni chyflawnwyd yr amcanion o gynyddu refeniw ffi'r drwydded a lleihau nifer yr achosion o osgoi talu ffi'r drwydded. Cynyddodd gwerthiannau net ffi'r drwydded 0.3% yn erbyn targed o 1.04%, a chynyddodd nifer yr achosion o osgoi talu ffi'r drwydded o 4.7% i 5.1%. Mae'r cynnydd yn nifer yr achosion o osgoi talu ffi'r drwydded yn cyfrif am beidio â chyflawni'r targed refeniw. Gallai'r ffaith bod PayPoint wedi cymryd lle Swyddfa'r Post fel modd i dalu fod wedi cyfrannu at hyn. Credir i tua 3% o gwsmeriaid oedi cyn talu o ganlyniad i hynny – ond rhagwelir mai effaith untro fydd hyn.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, lleihaodd cost casglu ffi'r drwydded £20miliwn a 9.2% oedd cost gyfunol casglu ffi'r drwydded ac osgoi talu ffi'r drwydded – yr isaf ers i'r BBC ddod yn gyfrifol am gasglu ffi'r drwydded yn 1991/1992.

## Astudiaethau gwerth am arian penodol

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cyflawni ei chyfrifoldeb gwarchod drwy gomisiynu cyfres o arolygon gwerth am arian annibynnol bob blwyddyn. Cytunwn ar y meysydd y bydd yr arolygon hyn yn canolbwyntio arnynt mewn trafodaeth â'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol – pennaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Yna cynhelir yr arolygon gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol neu asiantaethau allanol eraill. At ddibenion yr arolygon hyn ni ddaw penderfyniadau golygyddol o fewn y cwmpas. Caiff y canfyddiadau o bob arolwg eu cyhoeddi'n llawn ar bbc.co.uk/bbctrust a'u cyflwyno i'r Senedd.

Yn ystod 2006/2007 cwblhawyd pedwar arolwg o dan y rhaglen flaenorol o astudiaethau y cytunodd y Llywodraethwyr arni. Mae'r adroddiadau llawn o bob astudiaeth, gan gynnwys ymateb y BBC i'r holl argymhellion, ar gael ar bbc.co.uk/bbctrust, ond rhown drosolwg bras isod:

**1 Diffiniad y BBC o orbenion** (Gorffennaf 2006): Ystyriodd yr astudiaeth hon p'un a oedd y diffiniad o orbenion yn ddefnyddiol i ddangos p'un a oedd y BBC yn cyflawni'r gwerth gorau i dalwyr ffi'r drwydded ai peidio. Roedd y Llywodraethwyr yn falch bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o'r farn bod y defnydd o fesuriad gorbenion wedi bod yn ddefnyddiol i'r BBC yn ei raglenni effeithlonrwydd blaenorol. Byddwn yn datblygu'r argymhellion o'r arolwg hwnnw wrth i ni weithio ar gynlluniau ailflaenoriaethu a phennu targedau effeithlonrwydd newydd i'r rheolwyr.

**2 Contractau allanol y BBC: y contract rhwng y BBC a Siemens Business Service i ddarparu gwasanaethau technoleg** (Gorffennaf 2006): Gwnaeth yr astudiaeth hon asesu p'un a oedd y BBC mewn sefyllfa dda i gyflawni ei amcanion strategol ar gyfer gosod contractau allanol i ddarparu gwasanaethau technoleg, adolygu hynt y bartneriaeth â Siemens a chymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o'r contract hwn i gontractau allanol yn y dyfodol. Croesawodd y Llywodraethwyr gydnabyddiaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod y contract wedi bod yn llwyddiant ariannol i'r BBC ond cytunodd fod lle i wella trefniadau llywodraethu ym maes technoleg. Yn dilyn yr adroddiad cymerodd y Llywodraethwyr ddiddordeb mawr yn ymdrechion y rheolwyr i fynd i'r afael ag argymhellion yr arolwg, gan fonitro cynnydd drwy roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio yn rheolaidd.

**3 Proses rheoli risg y BBC** (Tachwedd 2006): Gwnaeth yr astudiaeth hon asesu p'un a yw proses rheoli risg gyffredinol y BBC yn ei alluogi i ddeall y risgiau y mae'n eu hwynebu yn llawn ac ymateb iddynt yn effeithiol. Daeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i'r casgliad bod gan y BBC fframwaith priodol i reoli risgiau.

**4 Proses comisiynu teledu annibynnol y BBC** (Tachwedd 2006): Gwnaeth yr astudiaeth hon asesu effeithiolrwydd y broses gomisiynu annibynnol. Daeth Deloitte i'r casgliad bod yr amgylchedd masnachol a rheoleiddiol cymhleth yn cael rhywfaint o effaith gyfyngol ar allu'r BBC i wella gwerth am arian o ran y broses gomisiynu annibynnol. Serch hynny, roeddem yn falch o nodi casgliad yr adroddiad fod y BBC yn cymryd ystyriaethau gwerth am arian o ddifrif a'i fod yn gwneud llawer i hybu gwelliannau gwerth am arian o ran y broses gomisiynu annibynnol.

Rydym yn bwriadu cynnal pum arolwg ar gyfer 2007/2008 (gweler tudalen 51).

Rydym yn comisiynu cyfres o astudiaethau gwerth am arian annibynnol fel rhan o'n dyletswyddau gwarchod

Cyhoeddir ein holl adroddiadau gwerth am arian yn llawn ar ein gwefan

Mae gennym ddyletswydd i helpu i gyflwyno buddiannau technolegau a gwasanaethau newydd i'r cyhoedd ac i chwarae rhan flaenllaw yn y broses o newid i ddigidol

Rydym wedi cymeradwyo cynigion y BBC i ddatblygu, ar y cyd â darlledwyr eraill, lwyfan lloeren gan sicrhau bod pobl yn gallu cael gwasanaethau digidol heb danysgrifiad

**82%**
o oedolion yn ymwybodol o'r broses o newid i ddigidol
Ffynhonnell: Digital UK, Ch1 2007

**Cynyddu nifer y bobl sy'n newid i ddigidol**
Mae'r Siarter Frenhinol yn cynnwys Pwrpas Cyhoeddus newydd i'r BBC sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo chwarae rhan flaenllaw yn y broses o newid i deledu digidol ac yn rhoi rôl ehangach i'r BBC yn y gwaith o helpu i gyflwyno buddiannau technolegau a gwasanaethau newydd i'r cyhoedd. Gan gydnabod pwysigrwydd cynyddol y materion hyn, pennodd y Llywodraethwyr bedwar amcan penodol i'r rheolwyr.

Pennodd y Llywodraethwyr gyfres o amcanion i'r rheolwyr o ran cynyddu nifer y bobl sy'n newid i ddigidol erbyn 2006/2007, sef:

- Paratoi ar gyfer y broses o newid i ddigidol a hyrwyddo'r farchnad teledu digidol, radio digidol a chyfryngau newydd am ddim tra'n parhau i wasanaethau'r gynulleidfa analog yn unig
- Codi ymwybyddiaeth o'r gwerth a ychwanegir at y portffolio cyffredinol gan wasanaethau digidol y BBC
- Gwella eu hargaeledd
- Gweithio gyda'r sector masnachol i gynyddu nifer y bobl sy'n newid i ddigidol.

Rydym yn fodlon ar y cynnydd yn gyffredinol. Mae nifer y bobl sy'n newid i deledu digidol, DAB a band eang yn parhau i gynyddu, ac mae teledu daearol digidol wedi cyrraedd yr uchafswm sy'n bosibl o ran ei ddarlledu hyd nes y bydd y broses o newid i ddigidol yn dechrau – 73%. Mewn 75% o gartrefi mae o leiaf un set deledu wedi newid i ddigidol, ac mewn 42% mae pob set deledu wedi cael ei newid. Dylai lansio'r BBC iPlayer a Freesat arwain at ragor o gynnydd yn y gwaith o hyrwyddo gwasanaethau digidol.

Ar y cyfan mae 82% yn ymwybodol o'r broses o newid i ddigidol, er bod y ganran hon yn llawer is mewn rhai rhanbarthau (51% er enghraifft yn Ulster). Mae'r rheolwyr wedi egluro mai'r rhanbarthau hyn fydd ymysg y rhai olaf i newid i ddigidol; mae'r ymwybyddiaeth o'r broses yn llawer uwch mewn ardaloedd sy'n newid yn gyntaf (96% yn ardal Border), gan adlewyrchu'r pwyslais ar farchnata yno.

Mae gennym rai pryderon ynghylch ffigurau sy'n dangos dirywiad yn yr ymwybyddiaeth o wasanaethau digidol y BBC. Mae'r rheolwyr wedi awgrymu bod hyn yn adlewyrchu cyflymdra y broses o newid i ddigidol a newid yn y pwyslais ar farchnata o ganlyniad i hynny – gan roi'r gorau i negeseuon sy'n hyrwyddo gwasanaethau digidol y BBC a symud tuag at negeseuon cyffredinol sy'n hyrwyddo'r broses o newid i ddigidol ei hun.

Rydym wedi tanlinellu ein pryder y dylai rheolwyr sy'n gweithio gyda Digital UK barhau i ganolbwyntio'n agos ar leihau'r 'bwlch digidol'. Mae hyn yn golygu ymgyrch farchnata wedi'i thargedu a anelir at grwpiau anodd eu cyrraedd megis grwpiau incwm is, rhai lleiafrifoedd ethnig a'r rhai dros 75 oed.

Er mai hon yw'r flwyddyn olaf y gwnawn fonitro amcanion yn y ffordd hon, mae Protocol Digidol yr Ymddiriedolaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Gweithredol gyflwyno adroddiad i ni bob chwarter ar hynt y broses ddigidol. Bydd y cylch gwaith Pwrpas Cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu newydd hefyd yn mesur llawer o feysydd sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd drwy'r amcan.

**Freesat**
Ym mis Ebrill rhoesom ganiatâd ffurfiol i reolwyr y BBC ddatblygu a lansio Freesat. Llwyfan lloeren ydyw, a ddatblygwyd ar y cyd â darlledwyr eraill y DU, gan sicrhau bod pobl yn gallu cael gwasanaethau digidol, gan gynnwys rhai'r BBC, heb danysgrifiad. Yr unig daliad fydd taliad cychwynnol am offer a'r broses o'i osod.

Er nad yw'n ofynnol i ni gynnal Prawf Gwerth Cyhoeddus llawn ar weithgareddau nad ydynt yn gyfystyr â gwasanaethau cynnwys y BBC, cymhwyswyd egwyddorion tebyg wrth wneud ein penderfyniad. Gwnaethom bwyso a mesur manteision tebygol Freesat i'r cyhoedd, y gwerth cyhoeddus y gallai ei greu, a'r effaith bosibl ar y farchnad. Dangosodd ein hymgynghoriadau bod cefnogaeth eang i'r cynnig ymhlith y cyhoedd. Fe'i cymeradwywyd yn ddarostyngedig i amodau yn ymwneud â rheoli ansawdd, tryloywder a chywirdeb y defnydd o arian ffi'r drwydded, a chydfodolaeth dechnegol â llwyfannau teledu digidol eraill.

Rydym wedi gofyn i reolwyr y BBC symud yn gyflym i ddatblygu eu cynlluniau er mwyn sicrhau bod talwyr ffi'r drwydded, yn enwedig y rhai sy'n byw y tu allan i'r ardaloedd lle darlledir Freeview, yn cael y budd mwyaf yn ystod y cyfnod yn arwain at newid i ddigidol.

“‘Rwy’n gwybod y gall ei defnyddio [gwefan CBeebies] a’i bod yn wefan ddiogel ac na fydd yn crwydro oddi yno.’’

Sylw digymell ar bbc.co.uk. Merch rhwng 30 a 49 oed, o Inverness, yn cyfrannu at ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth ar drwyddedau gwasanaeth.

# Llywodraethedd y BBC
# Yr Ymddiriedolaeth

Rôl yr Ymddiriedolaeth yw pennu blaenoriaethau i'r BBC a sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn eu cyflawni'n briodol o fewn polisïau a chyllidebau cytûn

Y Bwrdd Gweithredol sy'n rhedeg y gweithrediadau o ddydd i ddydd yn y BBC

Rhydd Rhan Dau o *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon* y BBC ragor o wybodaeth am y ffordd y mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cyflawni ei gyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol

**Daeth system wahanol o lywodraethu'r BBC i rym pan gyflwynwyd y Siarter newydd ar 1 Ionawr 2007. Disodlwyd Bwrdd y Llywodraethwyr gan yr Ymddiriedolaeth, a chrëwyd Bwrdd Gweithredol â chyfansoddiad ffurfiol. O dan y system newydd caiff yr Ymddiriedolaeth ei chyfansoddi'n ffurfiol fel cynrychiolydd talwr ffi'r drwydded, ac mae bwlch mwy o faint yn bodoli rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol na fu rhwng y Llywodraethwyr a rheolwyr y BBC.**

### Trosolwg

Fel Ymddiriedolwyr rydym yn ymrwymedig i gynnal y safonau uchaf o ran llywodraethedd gorfforaethol y BBC. Yn yr adran hon nodwn sut y rheolwyd y broses o lywodraethu'r BBC dros y flwyddyn ddiwethaf gan yr Ymddiriedolaeth a'r Llywodraethwyr.

**Llywodraethedd o dan Ymddiriedolaeth y BBC (Ionawr – Mawrth 2007)**


- Llywodraethedd o dan yr Ymddiriedolaeth – tudalen 32
- Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth – tudalen 33
- Pwyllgorau'r Ymddiriedolaeth – tudalen 33
- Cyrff ymgynghorol yr Ymddiriedolaeth – tudalen 34
- Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth – tudalen 35
- Mesur gwerth cyhoeddus – tudalen 36
- Uned yr Ymddiriedolaeth – tudalen 37
- Gwariant yr Ymddiriedolaeth – tudalen 37
- Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr – tudalen 38
- Masnachol a masnachu teg – tudalen 40
- Cynnal safonau golygyddol – tudalen 43


**Llywodraethedd o dan Fwrdd y Llywodraethwyr (Ebrill – Rhagfyr 2006)**


- Pwyllgorau'r Llywodraethwyr – tudalen 46
- Yr Uned Lywodraethu – tudalen 47
- Cydnabyddiaeth y Llywodraethwyr – tudalen 48


### Llywodraethedd o dan yr Ymddiriedolaeth

Mae Siarter a Chytundeb y BBC yn nodi ein rhwymedigaethau fel Ymddiriedolwyr, gan gynnwys:

- cynrychioli buddiannau talwyr ffi'r drwydded ac asesu eu barn yn ofalus
- cynnal annibynniaeth y BBC
- gwarchod arian cyhoeddus mewn ffordd fanwl gywir
- ystyried effaith gystadleuol y BBC ar y farchnad ehangach yn briodol
- sicrhau bod y BBC yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw
- sicrhau bod Pwrpasau Cyhoeddus y BBC yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol
- llunio'r fframwaith ar gyfer ymdrin â chwynion, a gwrando apeliadau lle y bo'n briodol.

Mae'r ffordd y gweithiwn fel Ymddiriedolwyr y BBC wedi'i nodi mewn cyfres o brotocolau a gyhoeddwyd. Mae'r protocolau yn disgrifio sut y dylem reoli ein cyfrifoldebau – er enghraifft, i gynnal ein busnes mewn modd agored a thryloyw, pennu cyfeiriad strategol y BBC, a chynnal ymchwiliadau gwerth am arian.

Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd wedi cytuno ar God Ymarfer, sy'n nodi'r egwyddorion a'r polisïau a ddilynir wrth i ni gynnal ein busnes. Mae'n cwmpasu materion megis gwrthdaro buddiannau, treuliau Ymddiriedolwyr, a gweithgarwch gwleidyddol aelodau'r Ymddiriedolaeth. Yn ogystal, rydym wedi mabwysiadu Rheolau Sefydlog sy'n llywodraethu'r ffordd y cynhaliwn ein cyfarfodydd. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu ei pherfformiad ei hun a pherfformiad ei phwyllgorau yn flynyddol. Cynhelir yr arolwg cyntaf erbyn mis Ebrill 2007 a chyflwynir adroddiad arno yn *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon* y flwyddyn nesaf.

### Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon*

Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon gael eu paratoi a'u harchwilio. Manylir ar gyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol yn ei ddatganiad o gyfrifoldebau ar dudalen 95 o Ran Dau o'r *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon* hwn. Yn gryno, mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a'r datganiadau o gydymffurfiad â chodau llywodraethu corfforaethol cymwys a rheoliadau yn ymwneud â chydnabyddiaeth, gan gyflwyno'r rhain i'r Ymddiriedolaeth yn Rhan Dau.

Wrth baratoi ei ddatgeliadau cysylltiedig sy'n ymwneud â llywodraethu corfforaethol mae'r Bwrdd Gweithredol wedi dewis cydymffurfio â Chod Cyfunol 2003 y Cyngor Adroddiadau Ariannol a darpariaethau datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a, lle y bo'n gymwys, Reolau Rhestru'r *Awdurdod Gwasanaethau Ariannol* sy'n gymwys i gwmni a restrir ar farchnad a reoleiddir gan yr UE.

Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion hynny mae'n rhaid i'r Adroddiad Blynyddol hefyd gynnwys datgeliadau ar drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth yn ogystal â rhai'r Bwrdd Gweithredol. Caiff y datgeliadau hyn, a archwilir, eu cynnwys yn Rhan Un o'r *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon* a'r Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol amdanynt.

Yn ogystal, mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth baratoi datganiad o'i gwariant a'i gynnwys yn Rhan Un.

### Datganiad o ddatgelu gwybodaeth i'r archwilwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr a oedd yn dal swydd ar adeg cymeradwyo'r *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon* yn cadarnhau, hyd y gwyddant, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol am ddatgeliadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, datgeliadau cydnabyddiaeth na datganiad yr Ymddiriedolaeth o wariant nad yw archwilwyr y BBC yn ymwybodol ohoni; ac mae pob Ymddiriedolwr wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi eu cymryd fel Ymddiriedolwr i'w wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cymeradwywyd y datganiad hwn gan yr Ymddiriedolaeth ar 19 Mehefin 2007.

### Pwyllgorau'r Ymddiriedolaeth

Mae Ymddiriedolaeth lawn y BBC yn cwrdd bob mis ond gwnawn y rhan fwyaf o'n gwaith mewn pwyllgorau bach o Ymddiriedolwyr sy'n cyflwyno adroddiadau i'r Ymddiriedolaeth lawn. Mae gan y Pwyllgorau hyn bwerau gwneud penderfyniadau.

Rhestrir Pwyllgorau'r Ymddiriedolaeth isod:

Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (gweler isod)

Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad (gweler tudalen 34)

Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa (gweler tudalen 34)

Grŵp Llywio Prawf Gwerth Cyhoeddus (gweler tudalen 36)

Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau (gweler tudalen 38)

Pwyllgor Polisi ac Apeliadau Masnachu Teg (gweler tudalen 41)

Pwyllgor Safonau Golygyddol (gweler tudalen 43)

Rhestrir aelodau pob Pwyllgor ynghyd â'u presenoldeb yn ystod y cyfnod ers i'r Ymddiriedolaeth ddechrau yn y tabl ar dudalen 34.

Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol yr Ymddiriedolaeth a'r Pwyllgorau, mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys cwrdd â thalwyr ffi'r drwydded a rhanddeiliaid yn ogystal â staff y BBC. Mae pedwar aelod yr Ymddiriedolaeth sydd â chyfrifoldebau arbennig am y gwledydd hefyd yn cadeirio'r Cynghorau Cynulleidfa yn y wlad honno. Mynychwyd y cyfarfodydd hyn fel a ganlyn: Alison Hastings (Lloegr) 3/3; Rotha Johnston (Gogledd Iwerddon) 3/3; Janet Lewis-Jones (Cymru) 3/3; a Jeremy Peat (Yr Alban) 3/3.

### Pwyllgor Cyllid a Strategaeth

Mae'r Pwyllgor hwn yn goruchwylio ac yn craffu ar faterion cyllid, strategaeth fusnes a rheoli risg gan gynnwys cynigion cofnodi a buddsoddi gan y Bwrdd Gweithredol. Mae'n cyfarfod bob mis.

Ymhlith gweithgareddau cynnar y Pwyllgor roedd craffu ar gynigion y Bwrdd Gweithredol ar gyfer Freesat a rhoi cyngor i'r Ymddiriedolaeth arnynt (gweler tudalen 30), asesu cyllidebau a chynlluniau ariannol y BBC ar gyfer 2007/2008, a chymeradwyo rhaglen o astudiaethau gwerth am arian ar gyfer blwyddyn 2007/2008 (gweler tudalen 29). Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio unrhyw achos o wrthdaro buddiannau sy'n codi gyda'r Ymddiriedolwyr a materion ariannol Uned yr Ymddiriedolaeth ei hun.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein Pwyllgorau, gan gynnwys eu cylch gorchwyl, yn bbc.co.uk/bbctrust

# Llywodraethedd y BBC
## Yr Ymddiriedolaeth

**Presenoldeb yr Ymddiriedolaeth a Phwyllgorau, rhwng 1 Tachwedd 2006 a 31 Mawrth 2007**

| | Ymddiriedolaeth | Pwyllgor Cyllid a Strategaeth | Pwyllgor Cynulleid-faoedd a Pherfformiad | Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa | Grŵp Llywio Prawf Gwerth Cyhoeddus | Pwyllgor Cydna-byddiaeth a Phenodiadau | Pwyllgor Polisi ac Apeliadau Masnachu Teg | Pwyllgor Safonau Golygyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd yn y flwyddyn | 7 | 4 | 2 | 3 | 3 | 1 | 3 | 3 |
| Michael Grade (hyd at 27 Tach 2006) | 1/1 | | | | | | | |
| Chitra Bharucha | 7/7 | | 2/2 | 3/3 | | 1/1 | | 3/3 |
| Diane Coyle | 7/7 | | | | 3/3 | | 3/3 | 3/3 |
| Dermot Gleeson | 6/7 | 4/4 | 2/2 | | | 1/1 | | |
| Alison Hastings | 6/7 | | 2/2 | 3/3 | 1/3 | | | |
| Patricia Hodgson | 7/7 | 4/4 | 1/2 | | 3/3 | | | |
| Rotha Johnston | 6/7 | 3/4 | | 3/3 | | | 2/3 | |
| Janet Lewis-Jones | 7/7 | 4/4 | | 3/3 | | 1/1 | | |
| David Liddiment | 6/7 | | 2/2 | | | | | 3/3 |
| Mehmuda Mian Pritchard | 5/7[1] | | | | | | 2/3 | 3/3 |
| Jeremy Peat | 7/7 | 3/4 | | 3/3 | 3/3 | | 3/3 | |
| Richard Tait[2] | 4/7 | | | | 2/3 | | | 3/3 |

[1]Absenoldeb y cytunwyd arno oherwydd gwrthdaro â chyfarfodydd Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu a drefnwyd ymlaen llaw
[2]Cyfnod o absenoldeb y cytunwyd arno rhwng mis Tachwedd 2006 a mis Ionawr 2007 (yn gynhwysol) oherwydd salwch

**Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad**
Mae'r Pwyllgor hwn yn asesu perfformiad gwasanaethau'r BBC a ariennir yn gyhoeddus o ran darparu gwerth i'r cyhoedd. Mae'n adolygu sut mae'r BBC yn perfformio ymhlith grwpiau gwahanol o gynulleidfaoedd ac mae'n nodi heriau sy'n deillio o'r gwaith hwn i'r BBC.

Mae gan y Pwyllgor ddulliau newydd o asesu perfformiad y BBC i'w helpu. Mae'r rhain yn cynnwys cylchoedd gwaith pwrpas a thrwyddedau gwasanaeth sy'n rhoi'r fframwaith i'r Ymddiriedolaeth bennu disgwyliadau'r cyhoedd o'r BBC a mesur perfformiad drwy system dryloyw a chyson.

Ymhlith gweithgareddau cynnar y Pwyllgor roedd cymeradwyo cynlluniau ar gyfer yr ymgynghoriad ar gylchoedd gwaith pwrpas (gweler tudalen 11) a chymeradwyo dogfennau'r ymgynghoriad ar gylchoedd gwaith pwrpas a thrwyddedau gwasanaeth a'r defnydd o waith ymchwil ar gynulleidfaoedd. Cyfarfu hefyd â chynrychiolwyr y Bwrdd Gweithredol i drafod gwasanaethau cyhoeddus y BBC dros y flwyddyn ddiwethaf, gan wneud argymhellion i'r Ymddiriedolaeth. Bydd y Pwyllgor yn cynnal arolygon manwl rheolaidd o wasanaethau cyhoeddus y BBC. Bydd yr arolwg cyntaf yn ystyried bbc.co.uk.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn monitro perfformiad BBC World Service yn unol ag amcanion hirdymor y cytunwyd arnynt gyda'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad a'r Cytundeb Gweithredu a gyhoeddwyd gan yr Ymddiriedolaeth ym mis Mehefin 2007.

**Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa**
Mae'r Pwyllgor hwn yn goruchwylio ac yn adolygu gwaith Cynghorau Cynulleidfa'r BBC a sefydlwyd gan y Siarter Frenhinol. Mae'r Pwyllgor yn rhannu arfer gorau a dysgu ar draws gwaith y Cynghorau Cynulleidfa ac mae'n nodi materion a phryderon sy'n gyffredin i'r gwledydd. Mae hefyd yn cymeradwyo aelodau'r Cynghorau Cynulleidfa ar ran yr Ymddiriedolaeth. Mae'n cwrdd yn chwarterol gyda'r Cadeirydd yn cael ei newid yn gyfnodol o blith yr Ymddiriedolwyr Cenedlaethol.

**Cyrff ymgynghorol yr Ymddiriedolaeth**
Wrth wneud eu gwaith mae'r Ymddiriedolwyr yn gwrando ar ystod eang o safbwyntiau, sy'n cynnwys Cynghorau Cynulleidfa, a sefydlir yn y Siarter a chyrff mwy anffurfiol eraill megis y Pwyllgor Ymgynghorol Canolog ar Grefydd (gweler tudalen 35).

**Cylchoedd gwaith pwrpas**
Mae cylchoedd gwaith pwrpas yn egluro sut y dylai'r BBC gyflawni ei chwe Phwrpas Cyhoeddus. Mae'r cylchoedd gwaith yn pennu blaenoriaethau i'r BBC mewn ymgynghoriad â thalwyr ffi'r drwydded, ac maent yn dangos sut y bydd Ymddiriedolaeth y BBC yn barnu perfformiad yn erbyn y blaenoriaethau hynny gan ddefnyddio mesurau sy'n seiliedig ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd. Mae'r cylchoedd gwaith pwrpas ar ffurf drafft ar hyn o bryd a chaiff fersiynau terfynol eu llunio yn ddiweddarach eleni.

**Trwyddedau gwasanaeth**
Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi trwydded gwasanaeth i holl wasanaethau'r BBC sy'n nodi sut y dylent helpu'r BBC i gyflawni ei Bwrpasau Cyhoeddus a rhoddir cyllideb bennawd ar gyfer pob un.

### Cynghorau Cynulleidfa

Mae'r Siarter yn diffinio rôl Cynghorau Cynulleidfa fel un sy'n sicrhau bod safbwyntiau amrywiol talwyr ffi'r drwydded yn effeithio ar waith yr Ymddiriedolaeth drwy gysylltiadau'r Cynghorau â llawer o gymunedau gwahanol yn y DU.

Ceir Cynghorau Cynulleidfa yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (cefnogir Cyngor Cynulleidfa Lloegr gan rwydwaith o Gynghorau Cynulleidfa Rhanbarthol). Caiff aelodau'r cynghorau eu dewis o blith talwyr ffi'r drwydded sydd â budd hyddysg yng ngwaith y BBC, ac sy'n deall buddiannau, pryderon ac amrywiaeth y gynulleidfa yn eu gwlad. Gwirfoddolwyr yw'r aelodau ac nid oes ganddynt unrhyw gysylltiad proffesiynol â'r BBC. Caiff pob Cyngor Cynulleidfa ei gadeirio gan yr aelod o'r Ymddiriedolaeth sy'n cynrychioli'r wlad honno.

Yn ogystal â chyfarfodydd rheolaidd, mae'r Cynghorau Cynulleidfa yn cynnal rhaglenni amrywiol o weithgareddau er mwyn nodi ym mha ffyrdd y gall y BBC wasanaethu cynulleidfaoedd yn well. Mae pob Cyngor Cynulleidfa yn cyflwyno adroddiad i'r Ymddiriedolaeth bob blwyddyn ar berfformiad y BBC ymhob gwlad ac mae'n rhoi cyngor ar faterion sy'n codi. Mae'r Cynghorau Cynulleidfa hefyd yn chwarae rhan allweddol mewn ymgynghoriadau cyhoeddus a arweinir gan yr Ymddiriedolaeth. Nodir rhai o'u canfyddiadau yn 2006/2007 ar dudalen 25.

### Y Pwyllgor Ymgynghorol Canolog ar Grefydd (CRAC)

Mae'r Pwyllgor Ymgynghorol Canolog ar Grefydd (CRAC) wedi cynghori'r BBC ar bolisi a rhaglenni crefyddol ers 1923. Hwn oedd pwyllgor ymgynghorol cyntaf y BBC ac yn draddodiadol mae wedi cyflawni rôl ddeuol – cynghori Bwrdd y Llywodraethwyr ar faterion polisi eang a chynghori'r rheolwyr ar raglennu. Fodd bynnag gellir cwestiynu'r rôl ddeuol hon o dan y trefniadau llywodraethu newydd, sy'n seiliedig ar yr egwyddor o fwlch mwy o faint rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol.

Felly, rydym wrthi'n adolygu'r trefniadau fel rhan o'n hymgynghoriad presennol ar sut yr ymgysylltwn â chynulleidfaoedd (gweler tudalen 24). Y mater i'w ystyried yw sut ac ar ba delerau y gallai CRAC barhau i gyflawni ei rôl ymgynghorol ddefnyddiol sy'n gyson â'r egwyddor o wahanu; a sut y dylai ei waith weddu i ddulliau ehangach yr Ymddiriedolaeth o ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol. Gobeithiwn y bydd CRAC ei hun yn cyfrannu at yr ymgynghoriad. Ym mis Rhagfyr 2006 cytunodd y Llywodraethwyr y dylai CRAC barhau i gyflawni rôl anffurfiol wrth i'r arolwg fynd rhagddo. Cadeirir CRAC gan yr Esgob Graham James, Esgob Norwich.

### Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth

Nod y BBC yw darparu gwasanaethau i bob unigolyn a phob cymuned ledled y DU. Wrth wneud hynny, credwn ei bod yn bwysig sicrhau bod y ffordd y mae'r BBC yn gweithredu, ynghyd â'i allbwn, yn adlewyrchu'r amrywiaeth eang yn y cymunedau hynny. Yn hyn o beth dylid ystyried bod amrywiaeth yn cynnwys ethnigrwydd, rhyw, anabledd, oedran, ffydd, rhywioldeb, dosbarth, ymlyniad gwleidyddol a gwahaniaethau rhanbarthol.

Mae'r BBC hefyd yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth benodol o ran cydraddoldeb sy'n ymwneud â rhai agweddau ar amrywiaeth. Mae'n ofynnol i'r BBC, yn unol â'r gyfraith, hyrwyddo cydraddoldeb mewn modd cadarnhaol. Mae'n rhaid iddo weithio i wahardd gwahaniaethu anghyfreithlon mewn tri maes – hil, anabledd a rhyw – o ran ei swyddogaethau cyhoeddus. Mae'r swyddogaethau cyhoeddus hyn yn cynnwys rhai megis trwyddedu'r teledu, trefniadau ar gyfer newid i ddigidol a rhai o swyddogaethau rheoleiddio'r Ymddiriedolaeth. Ar gyfer pob maes mae'n rhaid i'r BBC ddatblygu, cyhoeddi a gweithredu Cynllun Cydraddoldeb. Cyhoeddwyd y Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl ym mis Rhagfyr 2006, y Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol ym mis Ebrill 2007 a'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ym mis Mai 2007. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am oruchwylio'r Cynlluniau, sy'n weithredol am dair blynedd, ac am graffu arnynt a bydd yn eu hadolygu'n flynyddol.

Wrth reoleiddio'r BBC, mae'r Ymddiriedolaeth wedi pennu nifer o dasgau iddi hi ei hun, gan gynnwys:

- cyflwyno protocol drafft ar ymgysylltu â thalwyr ffi'r drwydded a chynnal ymgynghoriad arno, sy'n cwmpasu, er enghraifft, cyfarfodydd cyhoeddus, y wefan ac ymgynghoriadau
- sicrhau bod ei holl weithgareddau cyfathrebu a chyfranogi yn hygyrch
- sicrhau bod pobl anabl yn gallu dilyn prosesau cwyno'r Ymddiriedolaeth yn deg, ynghyd â sicrhau yr ymgynghorir â hwy mewn perthynas â phenderfyniadau polisi a allai effeithio arnynt a/neu eu cynnwys yn y broses honno

Mae rhagor o fanylion ar y tri Chynllun ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth, bbc.co.uk/bbctrust. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn monitro perfformiad y BBC ac yn cyflwyno adroddiad arno yn yr *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon* ar gyfer 2007/2008.

Mae'r Cynghorau Cynulleidfa yn dwyn sylw'r Ymddiriedolaeth at safbwyntiau amrywiol cymunedau ledled y DU

# Llywodraethedd y BBC
## Yr Ymddiriedolaeth

Bydd y cysyniad o werth cyhoeddus yn llywio sawl un o'n prosesau gwneud penderfyniadau a'n gweithgareddau monitro perfformiad

### Prawf Gwerth Cyhoeddus

Gall rhai o weithgareddau'r BBC arwain at werth cyhoeddus cadarnhaol, ond gallant gael effaith negyddol rywle arall – er enghraifft, ar ddarlledwyr masnachol neu gyflenwyr y cyfryngau. Er mwyn sicrhau y caiff y cydbwysedd priodol ei daro rhwng y buddiannau cystadleuol hyn, rydym yn cynnal Prawf Gwerth Cyhoeddus cyn rhoi caniatâd i'r BBC ddechrau gwasanaeth newydd neu wneud newid sylweddol i wasanaeth sy'n bodoli eisoes. Mae'r prawf yn ystyried y gwerth cyhoeddus cadarnhaol neu negyddol a grëir a'r effaith gadarnhaol neu negyddol ar y farchnad. Mae dwy ran i'r prawf – asesiad gwerth cyhoeddus ac asesiad o'r effaith ar y farchnad.

**Asesiad gwerth cyhoeddus**

Mae'r asesiad gwerth cyhoeddus yn mesur gwerth cyhoeddus tebygol y newid arfaethedig drwy asesu:

- y gwerth y byddai talwyr ffi'r drwydded yn ei roi ar y newid fel unigolion
- y gwerth y byddai'n ei roi i'r gymdeithas gyfan drwy gefnogi pwrpasau cyhoeddus y BBC
- ei gost a'r gwerth am arian a gynigir ganddo.

Caiff yr asesiad hwn ei oruchwylio gan yr Ymddiriedolaeth, a bydd bob amser yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus.

**Asesiad o'r effaith ar y farchnad (MIA)**

Mae'r asesiad o'r effaith ar y farchnad yn mesur effaith debygol y newid arfaethedig ar gyfranogwyr eraill yn y farchnad (neu'r marchnadoedd) yr effeithir arnynt. Cynhelir, neu gomisiynir, yr asesiad hwn gan Ofcom. Caiff y gwaith ei oruchwylio gan grŵp llywio ar y cyd yn cynnwys aelodau o'r Ymddiriedolaeth ac Ofcom.

**Cymhwyso'r Prawf Gwerth Cyhoeddus**

Rydym yn ystyried canlyniadau'r ddau asesiad ac yn gwneud penderfyniad amodol ar y newid arfaethedig. Rydym yn cyhoeddi'r penderfyniad hwn ac yn ymgynghori arno. Unwaith y byddwn wedi ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad, rydym yn gwneud ein penderfyniad terfynol. Cyn i ni gytuno i unrhyw newid arfaethedig, rhaid i ni fodloni ein hunain y gellir cyfiawnhau unrhyw effaith andwyol debygol ar y farchnad gan y gwerth cyhoeddus tebygol y mae'n ei greu.

### Mesur Gwerth Cyhoeddus

Mae'r term gwerth cyhoeddus yn gysyniad cymharol newydd, a ddefnyddiwyd gyntaf gan academydd Americanaidd o'r enw Mark Moore yn 1995 fel ffordd newydd o fynd i'r afael â'r broses o reoli cyrff cyhoeddus. Mabwysiadodd Swyddfa Cabinet Prydain y term fel fframwaith i ystyried y broses o ddiwygio'r sector cyhoeddus yn 2002. Ymgorfforwyd y cysyniad o werth cyhoeddus yn Siarter a Chytundeb newydd y BBC. Bydd gwerth cyhoeddus yn llywio llawer o brosesau gwneud penderfyniadau a gweithgareddau eraill yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y Prawf Gwerth Cyhoeddus a'r broses o fonitro perfformiad gwasanaethau'r BBC a ariennir yn gyhoeddus.

Mae gan fframwaith mesur perfformiad gwerth cyhoeddus y BBC nifer o gydrannau:

- y mwyaf sylfaenol yw **chwe Phwrpas Cyhoeddus** y BBC (gweler tudalen 9)
- mae'r Siarter a'r Cytundeb wedi sefydlu **pum nodwedd o ran cynnwys** – ansawdd uchel, heriol, gwreiddiol, arloesol ac yn ymgysylltu â'r gynulleidfa – ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y DU
- mae Ymddiriedolaeth y BBC wedi sefydlu **pedwar ffactor sy'n hyrwyddo gwerth cyhoeddus** – Cyrhaeddiad, Ansawdd, Effaith a Gwerth am Arian – lle y caiff y nodweddion o ran cynnwys eu hymgorffori.

Nod y fframwaith hwn yw cyflwyno cymaint o dystiolaeth â phosibl i lywio barn yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth eisoes wedi cymhwyso ei Phrawf Gwerth Cyhoeddus cyntaf a chred y bydd y cysyniad o werth cyhoeddus yn helpu i lywio cryn dipyn o'i gwaith yn y dyfodol. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn gwneud gwaith i ddatblygu'r cysyniad o werth cyhoeddus ymhellach yn y flwyddyn i ddod.

**Grŵp Llywio Prawf Gwerth Cyhoeddus**

Mae'r Pwyllgor hwn o'r Ymddiriedolaeth yn goruchwylio'r broses ar gyfer pob Prawf Gwerth Cyhoeddus: yn archwilio'r cynnig gan y Bwrdd Gweithredol, yn cysylltu ag Ofcom a'r Grŵp Llywio ar y Cyd o ran yr asesiad o'r effaith ar y farchnad, ac yn gwneud argymhellion i'r Ymddiriedolaeth o ran canlyniad y prawf. Mae'n cyfarfod bob mis ac yn ôl yr angen.

Mae'r Prawf Gwerth Cyhoeddus yn ddull llywodraethu arall a gyflwynwyd gan y Siarter newydd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r dull hwn i asesu unrhyw gynigion gan y Bwrdd Gweithredol i newid gwasanaeth sy'n bodoli eisoes yn sylweddol neu i greu gwasanaeth newydd (gweler y blwch).

Ym mis Ebrill cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth, gyda chyngor gan y Grŵp Llywio hwn, gynlluniau'r Bwrdd Gweithredol i lansio gwasanaethau ar alw yn rhoi pwerau newydd i gynulleidfaoedd wylio a gwrando ar allbwn y BBC dros y rhyngrwyd (gweler tudalen 7).

## Uned yr Ymddiriedolaeth

Cefnogir yr Ymddiriedolaeth yn ei gwaith gan Uned yr Ymddiriedolaeth, sy'n rhoi cyngor annibynnol a gwrthrychol, gan alw ar arbenigwyr allanol lle y bo angen. Mae Uned yr Ymddiriedolaeth yn annibynnol ar reolwyr y BBC. Penodir ei chyfarwyddwr gan yr Ymddiriedolaeth ac nid yw ei staff yn rhan o gadwyn reoli'r BBC. Mae'r Uned yn cynnwys staff proffesiynol gydag arbenigedd ar draws amrywiaeth o ddisgyblaethau sy'n cynghori'r Ymddiriedolwyr ar gyflawni eu dyletswyddau ac yn cefnogi eu gwaith mewn meysydd allweddol. Roedd gan Uned yr Ymddiriedolaeth 42 o aelodau o staff ar 31 Mawrth 2007.

## Datganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth

| | Nodyn | 3 mis hyd at 31 Mawrth 2007 £000 |
|---|---|---|
| Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr | 1 | 209 |
| Costau staff – Uned yr Ymddiriedolaeth | 2 | 865 |
| Costau gweithredol eraill | 3 | 1,564 |
| **Gwariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth** | | **2,638** |
| Ffioedd rheoleiddiol Ofcom | 4 | 875 |
| Ffioedd MIA Ofcom | 5 | 620 |
| **Cyfanswm ffioedd Ofcom** | | **1,495** |
| **Cyfanswm gwariant yr Ymddiriedolaeth** | 6 | **4,133** |

**Nodiadau**

1 Er mai ar 1 Ionawr 2007 y daeth yr Ymddiriedolaeth i fodolaeth, penodwyd Ymddiriedolwyr newydd o fis Tachwedd 2006 ac felly mae eu cydnabyddiaeth yn adlewyrchu'r cyfnod pum mis hwn. Cynhwysir cydnabyddiaeth Ymddiriedolwyr a oedd yn Llywodraethwyr cyn hynny o 1 Ionawr 2007

2 Mae costau staff yn cynnwys cyflogau, costau nawdd cymdeithasol a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr

3 Mae costau gweithredol yn cynnwys gwariant uniongyrchol ar weithgareddau fel gwaith ymchwil, cyngor cyfreithiol a gwasanaethau cynghori arbenigol eraill

4 Mae Ofcom yn dyrannu ei gostau rheoleiddio teledu a radio rhwng y BBC a'r sianelau masnachol eraill. Uned yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am gyfran y BBC o'r dyraniad hwnnw

5 Mae ffioedd MIA Ofcom yn cynnwys costau uniongyrchol ac anuniongyrchol cynnal yr asesiad o'r effaith ar y farchnad ar gyfer y Prawf Gwerth Cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod

6 Mae'r gwariant uchod yn cynrychioli gwariant allanol uniongyrchol gan yr Ymddiriedolaeth. Yn ogystal, defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth wasanaethau cyffredin a ddarparwyd gan y BBC a oedd yn cynnwys defnyddio gwasanaethau eiddo, cyllid, adnoddau dynol a gwybodaeth

**Adroddiad KPMG LLP i Ymddiriedolaeth y BBC ('yr Ymddiriedolaeth')**

Yn unol â thelerau ein llythyr penodi dyddiedig 1 Mai 2007, rydym wedi archwilio'r datganiad o wariant ('datganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth') ar gyfer y cyfnod o 1 Ionawr 2007 hyd at 31 Mawrth 2007 a baratowyd, yn unol â gofynion Siarter y BBC dyddiedig Hydref 2006, gan Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth a hwy yn unig sy'n gyfrifol amdanynt. Paratowyd datganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth gan Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth gan gymhwyso gofynion cydnabod a mesur Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU.

Ein cyfrifoldeb ni, yn unol â thelerau ein llythyr penodi, yw ffurfio barn annibynnol, ar sail y gwaith a wnaed, a chyflwyno adroddiad ar ein barn i'r Ymddiriedolaeth. Nid oedd ein gwaith mor fanwl ag archwiliad ac felly nid yw'n rhoi cymaint o sicrwydd ag archwiliad.

Paratowyd ein hadroddiad i'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r Siarter yn unig. Cynlluniwyd ein hadroddiad i fodloni'r gofynion y cytunwyd arnynt gyda'r Ymddiriedolaeth a nodweddion arbennig ein penodiad a bennwyd gan anghenion yr Ymddiriedolaeth ar y pryd. Felly ni ddylid ystyried ein hadroddiad fel deunydd addas i'w ddefnyddio nac i ddibynnu arno gan unrhyw barti sy'n awyddus i gaffael hawliau yn ein herbyn ac eithrio'r Ymddiriedolaeth at unrhyw ddiben neu mewn unrhyw gyd-destun. Bydd unrhyw barti ac eithrio'r Ymddiriedolaeth a fydd yn cael gafael ar ein hadroddiad neu gopi ohono ac yn dewis dibynnu ar ein hadroddiad (neu unrhyw ran ohono) yn gwneud hynny ar ei fenter ei hun. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, ni fydd KPMG LLP yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb na rhwymedigaeth mewn perthynas â'n hadroddiad i unrhyw barti arall.

Yn ein barn ni, mae'r gwariant fel y'i nodir yn natganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth wedi'i dynnu'n gywir o lyfrau a chofnodion yr Ymddiriedolaeth ar y sail a nodir yn y nodiadau i ddatganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth.

Yn gywir

**KPMG LLP**
**Cyfrifwyr Siartredig**
**19 Mehefin 2007**

Caiff yr Ymddiriedolaeth ei hariannu gan incwm ffi'r drwydded y BBC. Cymerwyd y gwariant a ddangosir yma o ganlyniadau ariannol llawn y BBC (a nodir yn Rhan Dau)

# Llywodraethedd y BBC
## Yr Ymddiriedolaeth

Yn yr adroddiad hwn eglurwn ein cyfrifoldebau am gydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol a nodwn y ffioedd a dderbyniwn fel Ymddiriedolwyr

### Adroddiad ar Gydnabyddiaeth yr Ymddiriedolaeth

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi rôl yr Ymddiriedolaeth o ran polisi cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol ac yn rhoi manylion ar y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r Ymddiriedolaeth. Ceir gwybodaeth am y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan y Llywodraethwyr cyn ffurfio'r Ymddiriedolaeth ar dudalennau 48 i 49.**

Er bod y BBC wedi'i eithrio rhag gofynion Rheoliadau Adroddiadau ar Gydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr 2002 a rheoliadau'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, paratowyd yr adroddiad hwn fel petai'r gofynion hynny yn gymwys lle bynnag y mae'r darpariaethau datgelu yn berthnasol ac yn gymwys. Caiff yr adrannau ar bensiynau a chydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan yr Ymddiriedolwyr eu harchwilio.

**Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau: cyfansoddiad a gweithrediad**

O 1 Ionawr 2007, o dan y Siarter Frenhinol, mae gan yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol gyfrifoldebau penodol am gydnabyddiaeth aelodau'r Bwrdd Gweithredol.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau yn un o is-bwyllgorau'r Ymddiriedolaeth ac mae'n cynghori'r Ymddiriedolaeth ar y polisi cydnabyddiaeth ar gyfer y cyfarwyddwyr gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, gan gynnwys cymhwyso'r polisi mewn perthynas â'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, a hefyd ar y ffioedd a delir i Gyfarwyddwyr anweithredol. Cadeirir y Pwyllgor gan Chitra Bharucha a'r aelodau eraill yw Michael Lyons, Dermot Gleeson a Janet Lewis-Jones.

Mae gan y Bwrdd Gweithredol hefyd Bwyllgor Cydnabyddiaeth a nodir ei gyfansoddiad a'i gyfrifoldebau yn Rhan Dau ar dudalen 92.

Cynghorir cyfarfodydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau'r Ymddiriedolaeth gan yr Ysgrifenyddiaeth a'r tîm Llywodraethu yn Uned yr Ymddiriedolaeth. Fel y bo angen, a thrwy wahoddiad y Pwyllgor, bydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol (Mark Thompson), Cyfarwyddwr, BBC People (Stephen Kelly) a Chadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol (Marcus Agius) yn mynychu i gynghori ar faterion yn ymwneud â'r Bwrdd Gweithredol a'r BBC ehangach. Ni fydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn bresennol pan ystyrir ei gydnabyddiaeth ef. Gall y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau hefyd fanteisio ar arbenigedd cydnabyddiaeth mewnol drwy Bennaeth Gwobrwyo'r BBC, sydd hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd fel y bo angen.

Gan gydymffurfio â Chod Cyfun FRC 2003 ar Lywodraethu Corfforaethol, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau yn derbyn cyngor arbenigol gan gynghorwyr proffesiynol allanol ar faterion yn ymwneud â chydnabyddiaeth. Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau'r Ymddiriedolaeth wedi penodi Towers Perrin i'w gynghori.

**Aelodau'r Ymddiriedolaeth: polisi cydnabyddiaeth**

Derbyniodd aelodau'r Ymddiriedolaeth ffi a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Yn ogystal, fe'u had-delir am unrhyw dreuliau yr eir iddynt ar fusnes y BBC, a chaiff unrhyw dreth yn deillio o'r treuliau hynny ei thalu'n uniongyrchol gan y BBC. Nodir y ffioedd a'r buddiannau trethadwy yn y tabl ar dudalen 39.

**Pensiynau**

Mae'r Cadeirydd yn gymwys i fod yn rhan o gynllun pensiwn, fodd bynnag gan nad oedd unrhyw Gadeirydd parhaol mewn swydd yn ystod y cyfnod hwn ni wnaed unrhyw gyfraniadau pensiwn gan y BBC.

**Cyfarwyddwyr anweithredol: polisi cydnabyddiaeth**

O dan delerau'r Siarter a'r Cytundeb newydd, mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am bennu polisi a lefel ffioedd y cyfarwyddwyr anweithredol. Cymeradwyodd gynigion i benodi'r pum cyfarwyddwr anweithredol presennol ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2006, gan gynnwys telerau eu penodi. Er hwylustod, nodir y ffioedd a dderbyniwyd gan y cyfarwyddwyr anweithredol yn ystod 2006/2007 yn Rhan Dau ochr yn ochr ag aelodau eraill y Bwrdd Gweithredol. Yn unol ag arfer gorau, bydd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu lefel y ffioedd bob yn ail flwyddyn, gyda'r arolwg cyntaf i'w gynnal yn 2008/2009.

**Bwrdd Gweithredol: polisi cydnabyddiaeth**

Cymeradwywyd y polisi cydnabyddiaeth presennol ar gyfer y cyfarwyddwyr gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gan Fwrdd y Llywodraethwyr ac fe'i mabwysiadwyd gan yr Ymddiriedolaeth o dan y trefniadau trosiannol yn Siarter y BBC. Mae'n anelu at gynnig cydnabyddiaeth sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r dalent allweddol sydd ei hangen i arwain y BBC a darparu darlledu cyhoeddus o'r radd flaenaf. Prif elfennau'r gydnabyddiaeth yw cyflog sylfaenol, bonws blynyddol a phensiwn. Pennwyd

cyflog sylfaenol a chynlluniau bonws y cyfarwyddwyr gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ar y Bwrdd Gweithredol gan fwrdd y Llywodraethwyr ym mis Gorffennaf 2006, ac fe'u cadarnhawyd adeg eu penodi i'r Bwrdd Gweithredol newydd. Nodir y polisi cydnabyddiaeth a'r gydnabyddiaeth a dderbyniwyd yn Rhan Dau.

**Cydnabyddiaeth a dderbyniwyd**
Dangosir cydnabyddiaeth aelodau'r Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn isod:

| | Ffi/cyflog sylfaenol £000 | Treuliau/ buddiannau £000 | Cyfanswm 1 Tachwedd 2006 – 31 Mawrth 2007 £000 |
|---|---|---|---|
| **Ymddiriedolwyr** (penodwyd 1 Tachwedd 2006 oni nodir yn wahanol) | | | |
| Chitra Bharucha[1] | 53 | 12 | 65 |
| Diane Coyle | 15 | 1 | 16 |
| Dermot Gleeson[2] | 9 | – | 9 |
| Alison Hastings | 17 | 2 | 19 |
| Patricia Hodgson | 15 | – | 15 |
| Rotha Johnston | 17 | – | 17 |
| Janet Lewis-Jones | 17 | 1 | 18 |
| David Liddiment | 15 | – | 15 |
| Mehmuda Mian Pritchard | 15 | – | 15 |
| Jeremy Peat[2] | 10 | 1 | 11 |
| Richard Tait[2] | 9 | – | 9 |
| **Cyfanswm yr Ymddiriedolwyr** | **192** | **17** | **209** |

[1]Chitra Bharucha oedd Cadeirydd Dros Dro Ymddiriedolaeth y BBC yn dilyn ymddiswyddiad Michael Grade ar 27 Tachwedd 2006 a derbyniodd ffioedd ar lefel y Cadeirydd yn ystod y cyfnod hwn

[2]Penodwyd yr Ymddiriedolwyr o 1 Tachwedd 2006. Gwnaeth Dermot Gleeson, Jeremy Peat a Richard Tait hefyd barhau â'u dyletswyddau fel Llywodraethwyr tan 31 Rhagfyr 2006 (nodir y ffioedd ar gyfer Bwrdd y Llywodraethwyr ar dudalen 49). Derbyniasant ffioedd fel Ymddiriedolwyr o 1 Ionawr 2007

Ni wnaed unrhyw daliadau mewn perthynas â therfynu contract ac ni thalwyd unrhyw iawndal am golli swydd ac nid oedd unrhyw daliadau o'r fath yn daladwy i aelodau'r Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn.

Nodir manylion y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan y Llywodraethwyr am y cyfnod o naw mis hyd at 31 Rhagfyr 2006 ar dudalen 49

Nodir manylion y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn Rhan Dau, tudalen 94

# Llywodraethedd y BBC
## Yr Ymddiriedolaeth

Ceir rhagor o wybodaeth am berfformiad ariannol gwasanaethau masnachol y BBC yn Rhan Dau

### Goruchwyliaeth yr Ymddiriedolaeth o wasanaethau masnachol y BBC

**Mae'r BBC yn ymgymryd â rhai gweithgareddau ar sail fasnachol. Y nod yw cynhyrchu refeniw i'w ailfuddsoddi yn y gwasanaethau cyhoeddus er budd y cyhoedd.**

Nodir ar ba sail y gall y BBC ymgymryd â gweithgareddau masnachol yng Nghytundeb y BBC. Mae angen rhaniad amlwg rhwng ei wasanaethau cyhoeddus a'i wasanaethau masnachol. Ni all gweithgareddau masnachol ddigwydd yn uniongyrchol o fewn y Gorfforaeth a rhaid eu cynnal drwy is-gwmnïau masnachol. Y prif gwmni masnachol yw BBC Commercial Holdings. BBC Worldwide yw'r prif is-gwmni masnachol, ond ceir rhywfaint o weithgarwch o fewn BBC Resources a BBC World hefyd.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am oruchwylio gweithgareddau masnachol y BBC. Llywodraethir BBC Worldwide (sy'n atebol i'r Bwrdd Gweithredol) gan Fwrdd â chadeirydd annibynnol a dau aelod anweithredol annibynnol arall ynghyd â thri chyfarwyddwr gwasanaeth cyhoeddus o'r BBC (sy'n gwasanaethu fel aelodau anweithredol).

Prif weithgareddau BBC Worldwide yw sianelau teledu masnachol, gwerthu rhaglenni teledu, cyhoeddi cylchgronau ac adloniant cartref. Ar raddfa lai, mae hefyd yn gweithredu busnes plant a busnes cyfryngau newydd. Mae'n gweithredu ledled y byd ond ei farchnadoedd â blaenoriaeth o ran twf sylweddol yw UDA, Canada, Awstralia ac India.

Mae'r busnes wedi tyfu'n gyson a'r strategaeth yw cynyddu cyfradd twf ac, yn arbennig, proffidioldeb.

**Goruchwyliaeth yr Ymddiriedolaeth o weithgareddau masnachol**

Cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth strategaeth bum mlynedd i BBC Worldwide, yn cynnwys targedau lefel uchel a chyllidebau, ym mis Mawrth. Mae hefyd wedi pennu'r fframwaith ar gyfer cymeradwyo a goruchwylio gwasanaethau masnachol newydd. Ym mis Mawrth, mabwysiadodd a chyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth brotocol yn nodi'r fframwaith ar gyfer gweithgareddau gwasanaethau masnachol a'u hatebolrwydd i'r Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol.

Mae Cytundeb y BBC yn nodi pedwar maen prawf y mae'n rhaid i wasanaethau masnachol y BBC eu bodloni, sef:

- rhaid iddynt gydweddu i weithgareddau pwrpasau cyhoeddus y BBC
- rhaid iddynt ddangos effeithlonrwydd masnachol
- ni ddylent osod enw da'r BBC na gwerth brand y BBC yn y fantol
- rhaid iddynt gydymffurfio â chanllawiau masnachu teg y BBC, ac yn arbennig, osgoi effeithio'n andwyol ar y farchnad.

Mae'r protocol yn egluro sut y cymhwysir y meini prawf hyn yn ymarferol. Er mai'r Ymddiriedolaeth sy'n pennu'r fframwaith ac yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau gael eu cyflwyno, gwneir y rhan fwyaf o'r penderfyniadau gweithredol o dan y fframwaith hwn naill ai gan Fwrdd BBC Worldwide (lle mae'r aelodau anweithredol yn chwarae rhan bwysig) neu gan y Bwrdd Gweithredol. Mewn cyfran fach o achosion, mae angen i'r Ymddiriedolaeth gymeradwyo cynigion am wasanaethau newydd.

### Adroddiad yr Ymddiriedolaeth ar fasnachu teg

**Mae system masnachu teg y BBC yn llywodraethu holl weithgareddau masnachu'r BBC. Ei nod yw sicrhau bod gweithgareddau masnachol a masnachu'r BBC yn cael eu cynnal mewn ffordd 'deg'. Mae'r BBC yn ddarostyngedig i gyfraith gystadleuaeth Ewrop a'r DU a chyfraith Ewrop ar gymorth gwladol, ond mae hefyd, ers sawl blwyddyn, wedi gweithredu, o'i wirfodd, yn unol â gofynion ychwanegol sy'n cydnabod ei statws unigryw.**

**1 Trefniadau masnachu teg y BBC**

Mae trefniadau masnachu teg y BBC yn newid. O dan y system lywodraethu flaenorol, roedd y BBC wedi mabwysiadu Ymrwymiad Masnachu Teg ac yn gweithredu o dan Ganllawiau Masnachu Teg a oedd yn trosi'r Ymrwymiad yn fframwaith gweithredu manwl. Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg y Llywodraethwyr oedd yn goruchwylio'r broses.

Ar 1 Ionawr 2007, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am oruchwylio masnachu teg i'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth fabwysiadu datganiad polisi ar fasnachu teg a dal y Bwrdd Gweithredol i gyfrif am gydymffurfio ag ef. Rhaid mabwysiadu'r datganiad hwn erbyn 1 Gorffennaf 2007 a lansiodd yr Ymddiriedolaeth ymgynghoriad cyhoeddus ar 20 Chwefror 2007.

Yn y cyfamser, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth y dylai'r system masnachu teg bresennol barhau ar waith. Ar gyfer cyfnod yr adroddiad hwn, felly, roedd y BBC yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau a nodir yn yr Ymrwymiad a'r Canllawiau Masnachu Teg.

**2 Goruchwyliaeth yr Ymddiriedolaeth o gydymffurfiad â masnachu teg**
Ers 1 Ionawr 2007, bu Pwyllgor Polisi ac Apeliadau Masnachu Teg yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiad â masnachu teg ac am ymdrin ag apeliadau masnachu teg. Yr Ymddiriedolwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor hwn yw: Jeremy Peat (Cadeirydd), Diane Coyle, Rotha Johnston a Mehmuda Mian Pritchard.

Ers 1 Ionawr 2007, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am gydymffurfiad o ddydd i ddydd â masnachu teg gan y BBC ac ymdrin â chwynion masnachu teg i'r Bwrdd Gweithredol, sydd wedi sefydlu Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg (gweler Rhan Dau, tudalen 77).

Cynghorir Pwyllgor Polisi ac Apeliadau Masnachu Teg yr Ymddiriedolaeth gan archwilwyr a chynghorwyr masnachu teg annibynnol. Mae'r archwilwyr annibynnol yn cynnal Archwiliad Masnachu Teg blynyddol i benderfynu a yw'r BBC wedi sefydlu a chymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â'r Ymrwymiad Masnachu Teg.

Mae gweithgareddau'r archwilwyr yn cynnwys:

- cyfarfod â chynrychiolwyr masnachu teg ac unigolion eraill â rolau masnachu teg pwysig ymhob is-adran
- gwerthuso system rheolaethau mewnol masnachu teg pob is-adran
- adolygu a phrofi sampl o weithgareddau masnachol
- profi digonolrwydd prosesau i gofnodi ac olrhain materion masnachu teg hyd at eu datrys/cwblhau
- asesu a phrofi digonolrwydd rhaglenni hyfforddiant masnachu teg ymhob is-adran
- cyflwyno adroddiad ar eu canfyddiadau a'u casgliadau i Bwyllgor Polisi ac Apeliadau Masnachu Teg yr Ymddiriedolaeth.

Nodir barn yr archwilwyr yn seiliedig ar eu harchwiliad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 isod.

**3 Cydymffurfio â masnachu teg**
Mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn bod y polisïau yn Ymrwymiad Masnachu Teg y BBC yn gyson â gofynion y Siarter a'r Cytundeb. Drwy Bwyllgor Polisi ac Apeliadau Masnachu Teg yr Ymddiriedolaeth, a'r Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg cyn hynny, maent wedi cael sicrwydd rhesymol bod y system o reolaethau a gweithdrefnau a gynlluniwyd i sicrhau y caiff y polisïau hyn eu cymhwyso drwy'r BBC wedi bod yn gweithredu'n effeithiol drwy gydol y flwyddyn. Mae Bwrdd Gweithredol y BBC wedi cyflwyno adroddiad yn Rhan Dau ar ei fesurau ei hun i sicrhau cydymffurfiad.

*Apeliadau masnachu teg*
Ystyriodd yr Ymddiriedolaeth un apêl masnachu teg yn ystod y flwyddyn, a oedd yn ymwneud â chŵyn gan y Kent Messenger Group. Er iddo nodi nad oedd y materion a godwyd yn achos difrifol o dorri Canllawiau Masnachu Teg y BBC o ran maint y gweithgaredd neu'r effaith debygol ar y farchnad, canfuwyd na lynwyd at weithdrefnau a chadarnhaodd y Pwyllgor yr apêl. Cyhoeddir canfyddiadau pob apêl yn: bbc.co.uk/bbctrust/appeals/fair_trading_appeal_findings.html.

*Archwiliad masnachu teg*
Nodir adroddiad yr archwilwyr masnachu teg annibynnol isod.

**Adroddiad yr Archwilwyr Masnachu Teg Annibynnol i Ymddiriedolaeth y BBC am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007**
Rydym wedi archwilio, yn ein rôl fel Archwilwyr Masnachu Teg y BBC, y system o reolaethau mewnol a sefydlwyd o fewn y BBC i roi sicrwydd rhesymol i Ymddiriedolaeth y BBC fod y BBC wedi cydymffurfio â'i Ymrwymiad Masnachu Teg cyhoeddedig am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007.

Cytunwyd ar ein cyfarwyddiadau ar gyfer yr archwiliad hwn, sy'n cynnwys cwmpas y gwaith i'w wneud, gyda Phwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg y Llywodraethwyr a olynwyd ar 1 Ionawr 2007 gan Bwyllgor Polisi ac Apeliadau Masnachu Teg Ymddiriedolaeth y BBC. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn cynnwys cytundeb y dylid cynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio perthnasol, cytundeb ar derfyn ein rhwymedigaeth o ran y gwaith hwn a chytundeb mai dim ond i Ymddiriedolaeth y BBC mae gennym ddyletswydd gofal o ran y gwaith hwn. Rydym yn fodlon bod y cwmpas y cytunwyd arno ar gyfer ein harchwiliad yn ddigonol i'n galluogi i fynegi'r farn a nodir isod.

Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth ystyried, a chadarnhau, un apêl masnachu teg yn ystod y flwyddyn

# Llywodraethedd y BBC
## Yr Ymddiriedolaeth

Gofynnwn i archwilwyr allanol roi barn ar b'un a yw'r BBC wedi sefydlu, a chymhwyso, system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol bod y BBC wedi cydymffurfio â'i Ymrwymiad Masnachu Teg

**Priod gyfrifoldebau Llywodraethwyr, Ymddiriedolaeth y BBC, rheolwyr ac archwilwyr**
Tan 31 Rhagfyr 2006, y Llywodraethwyr oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn bodloni'r holl ofynion o ran cyfraith cystadleuaeth a'i fod yn masnachu'n deg. Lluniodd y Llywodraethwyr Ymrwymiad Masnachu Teg y BBC, pennwyd amcanion y system o reolaethau mewnol a gynlluniwyd i sicrhau cydymffurfiad â'r Ymrwymiad hwn a monitrwyd canlyniadau'r rheolaethau hynny ganddynt. Ar 1 Ionawr 2007, adeg creu Ymddiriedolaeth y BBC, trosglwyddwyd y cyfrifoldebau hyn i Ymddiriedolaeth y BBC. (Mae Ymddiriedolaeth y BBC hefyd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Ymddiriedolaeth y BBC ar Fasnachu Teg am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007, fel y'i cynhwysir yn *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon* Ymddiriedolaeth y BBC).

Mae rheolwyr y BBC yn gyfrifol am weithredu system o reolaethau mewnol wedi'i chynllunio i sicrhau cydymffurfiad â'r Ymrwymiad Masnachu Teg, gan gynnwys nodi ac asesu risgiau a allai roi gallu'r BBC i fasnachu'n deg yn y fantol a chynllunio a gweithredu ymatebion i risgiau o'r fath.

Fel Archwilydd Masnachu Teg y BBC, ein cyfrifoldeb ni yw llunio barn annibynnol, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, o ran y graddau y mae'r BBC wedi sefydlu, ac wedi cymhwyso, system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â'i Ymrwymiad Masnachu Teg yn ystod y flwyddyn. Dim ond i'r graddau yr oedd angen gwneud hynny er mwyn llunio barn ar y system o reolaethau mewnol yr adolygwyd penderfyniadau penodol a wnaed gan y BBC ar faterion masnachu teg. Ni chynlluniwyd ein harchwiliad i fynegi barn ar ansawdd y penderfyniadau penodol a wnaed gan y BBC o ran masnachu teg. Rydym hefyd wedi adolygu pa un a yw Adroddiad Ymddiriedolaeth y BBC ar Fasnachu Teg yn adlewyrchu ein canfyddiadau o ran cydymffurfiad y BBC â'i system o reolaethau mewnol, a chofnodwn os nad yw'n gwneud hynny.

Paratowyd y farn hon i Ymddiriedolaeth y BBC yn unig. Drwy roi'r farn hon, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall nac i unrhyw unigolyn arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu y daw i'w ran, ac eithrio lle y cytunir yn benodol ar hynny drwy gyfrwng caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gennym.

**Sail y farn archwilio**
Rydym wedi cynnal rhaglen o weithdrefnau a phrofion a gynlluniwyd i roi'r sicrwydd angenrheidiol i ni i ategu ein barn archwilio. Roedd ein gwaith yn cynnwys ymholi ac asesu i'n galluogi i lunio barn o ran pa un a oedd system briodol o reolaethau mewnol ar waith. Adolygwyd y gwaith o brosesu sampl o drafodion perthnasol gennym hefyd er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol i ni bod y system o reolaethau mewnol wedi'i chymhwyso.

Fel gydag unrhyw system o reolaeth, waeth pa mor effeithiol, nid yw'n ymarferol sicrhau na fu unrhyw wallau neu afreoleidd-dra nas canfuwyd. Felly, nod ein gwaith archwilio oedd rhoi sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, o ran digonolrwydd y system o reolaethau mewnol a oedd ar waith ac yn cael ei chymhwyso er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r Ymrwymiad Masnachu Teg yn ystod y flwyddyn. At hynny, gan fod materion masnachu teg yn gofyn am farnau a allai gael eu profi mewn llys barn, gan awdurdod cystadlu neu mewn man arall yn y pen draw, mae risg bob amser y cyflwynir her hyd yn oed lle y dilynwyd y system o reolaethau mewnol ac y gwnaed penderfyniadau gyda'r gofal pennaf.

**Barn**
Yn ein barn ni, mae'r BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â'i Ymrwymiad Masnachu Teg am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007.

**PricewaterhouseCoopers LLP**
**Cyfrifwyr Siartredig**
**19 Mehefin 2007**

## Cynnal safonau golygyddol

**Mae rôl yr Ymddiriedolaeth wrth gynnal safonau golygyddol yn cynnwys goruchwylio a chymeradwyo canllawiau'r rheolwyr. Rydym hefyd yn ystyried cwynion adeg apêl ar ôl i'r gŵyn fod yn destun proses gwynion y BBC.**

### Pwyllgor Safonau Golygyddol (ESC)

Sefydlwyd Pwyllgor Safonau Golygyddol (ESC) yr Ymddiriedolaeth ar 1 Ionawr 2007. Cyn hynny, roedd Pwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr yn ymdrin â materion yn ymwneud â safonau golygyddol. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu gwaith y ddau gorff.

Rôl yr Ymddiriedolaeth o ran safonau golygyddol yw comisiynu canllawiau golygyddol gan y Bwrdd Gweithredol, monitro cydymffurfiad a sicrhau y caiff proses cwynion ac apeliadau golygyddol effeithiol ei rhoi ar waith. Gall gomisiynu prosiectau arbennig er mwyn cael gwybodaeth a gall hefyd ystyried pynciau sy'n peri pryder golygyddol.

Mae'r ESC yn cefnogi'r Ymddiriedolaeth wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn ac, yn arbennig, yn penderfynu ar gwynion golygyddol adeg apêl. Cadeirir y Pwyllgor gan Richard Tait a'r aelodau eraill yw Chitra Bharucha, Diane Coyle, David Liddiment a Mehmuda Mian Pritchard.

### Cydymffurfiad golygyddol

Bob chwe mis, mae Bwrdd Gweithredol y BBC yn cyflwyno adroddiad i'r ESC ar faterion sy'n ymwneud â chydymffurfiad golygyddol. Ystyriodd yr ESC yr adroddiad cyntaf o'r fath ym mis Mai 2007. Croesawodd y Pwyllgor y ffaith bod Coleg Newyddiaduraeth y BBC a'i wefan wedi'u lansio. Roedd creu'r Coleg ymhlith argymhellion Adroddiad Neil yn dilyn Ymchwiliad Hutton. Ymhlith y datblygiadau eraill a groesawyd roedd canllawiau i staff y BBC ar faterion gan gynnwys gwrthdaro buddiannau, blogiau personol a chynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr. Nododd y Pwyllgor hefyd ganllawiau newydd i gynorthwyo gwylwyr sy'n drwm eu clyw.

Nododd y Pwyllgor 38 o achosion o fethu â chydymffurfio â safonau golygyddol a gadarnhawyd naill ai gan reolwyr y BBC neu'r ESC o gymharu â 50 o achosion yn y flwyddyn flaenorol. Codwyd materion difrifol o ran cydymffurfio mewn perthynas â gwasanaethau ffôn cyfradd premiwm mewn rhifynnau o *Blue Peter* a *Saturday Kitchen* (gweler y blwch).

### *Blue Peter a Saturday Kitchen*

Ym mis Tachwedd 2006, o ganlyniad i nam ar y llinellau ffôn, gofynnwyd i blentyn a oedd yn ymweld â stiwdio *Blue Peter* i esgus ei fod yn ffonio cystadleuaeth ffôn cyfradd premiwm *Blue Peter*, ac fe'i henwyd fel yr enillydd. Derbyniodd Bwrdd Gweithredol y BBC fod hyn yn gamfarn ddifrifol a gwnaeth ymddiheuriad cyhoeddus.

Yn dilyn adroddiad papur newydd ym mis Chwefror 2007, penderfynwyd bod gwylwyr *Saturday Kitchen* ar BBC One wedi cael eu camarwain i gredu eu bod yn ffonio rhaglen fyw.

Rhoddodd Bwrdd Gweithredol y BBC adroddiad interim i'r Ymddiriedolaeth am y ddwy raglen. Lluniodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad pellach ym mis Mai, gan gynnwys arolwg o'r defnydd o wasanaethau ffôn cyfradd premiwm gan holl allbwn y BBC yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth yr adroddiad. Disgrifiodd dor-rheolau *Blue Peter* fel rhai difrifol iawn gan nodi bod yn rhaid i'r BBC arddel diwylliant sy'n sicrhau y caiff unrhyw gynnig i gamarwain cynulleidfaoedd ei wrthod ar unwaith fel cam cwbl amhriodol. Cytunodd yr Ymddiriedolaeth hefyd â'r Cyfarwyddwr Cyffredinol y dylai gomisiynu archwilydd allanol i gynnal gwiriadau ar hap. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn falch bod y rheolwyr wedi cymryd camau cyflym i ymdrin â'r problemau ac i roi arolwg trwyadl ar waith gydag ymrwymiad i ddysgu o'r tor-rheolau hyn. Croesawodd y camau a gymerwyd gan Fwrdd Gweithredol y BBC a oedd yn cynnwys ymddiheuriad ar yr awyr am y gwallau difrifol a ddigwyddodd yn *Blue Peter*.

Cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth ei bod wedi penodi Ronald Neil i gynnal arolwg polisi tymor hwy o sut a phryd y mae'r BBC yn defnyddio gwasanaethau ffôn cyfradd premiwm a gweithgareddau rhaglen cysylltiedig. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ystyried argymhellion yr arolwg yn ystod hydref 2007.

> "Mae'n rhaid i'r BBC arddel diwylliant sy'n sicrhau bod unrhyw gynnig i gamarwain cynulleidfaoedd yn cael ei wrthod yn syth fel cam cwbl amhriodol"
>
> Syr Michael Lyons
> Cadeirydd y BBC

Nododd yr ESC hefyd fod Ofcom wedi cadarnhau pedair cwyn am safonau rhaglenni yn erbyn y BBC ac wedi datrys pump arall. Rhoddwyd systemau newydd ar waith yn Radio 1 yn dilyn cwynion gan Ofcom. Yn ogystal, cadarnhaodd Ofcom chwe achos yn ymwneud â thegwch a phreifatrwydd gan achwynwyr person cyntaf yn erbyn y BBC.

Bydd yr ESC yn parhau i graffu'n ofalus ar gynnydd y Bwrdd Gweithredol wrth sicrhau cydymffurfiad golygyddol ar bob lefel ac o fewn pob genre. Yn arbennig, mae angen sicrhau bod staff cwmnïau annibynnol sy'n cyflenwi'r BBC yn deall canllawiau golygyddol y BBC ac yn cydymffurfio â hwy. Bydd yr ESC hefyd yn parhau i fonitro gwaith Bwrdd Rheoli Cwynion y Bwrdd Gweithredol wrth ddadansoddi achosion o fethu â chydymffurfio a lledaenu'r gwersi a ddysgir.

**Proses gwyno dri cham y BBC**

Ym mis Chwefror 2005 sefydlodd y BBC broses gwyno dri cham ar gyfer cwynion golygyddol.

**Cam 1**

Gall unrhyw un ddewis cwyno i naill ai BBC Gwybodaeth, y rhaglen neu'r is-adran cynnwys o fewn 12 wythnos i'r darllediad neu gyhoeddiad. Bydd y BBC yn anelu at roi ateb sylweddol i unrhyw gŵyn o fewn deg diwrnod gwaith. (Ceir manylion rhai o'r materion a godwyd ar y cam hwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn Rhan Dau).

**Cam 2**

Os na fydd yr achwynydd yn fodlon ar yr ymateb ar Gam 1 (a bod y gŵyn ynghylch eitem benodol a ddarlledwyd neu a gyhoeddwyd gan y BBC a'i bod a wnelo ag achos posibl o dorri safonau golygyddol y BBC) gall ysgrifennu at yr Uned Cwynion Golygyddol annibynnol o fewn 12 wythnos.

**Cam 3**

Os bydd yr achwynydd yn anfodlon ar ddyfarniad yr Uned hon caiff apelio i Bwyllgor Safonau Golygyddol Ymddiriedolaeth y BBC o fewn wyth wythnos.

Mae gan y BBC broses gwyno dri cham ar gyfer cwynion golygyddol. Mae'r cam olaf yn galluogi pobl i apelio i Bwyllgor Safonau Golygyddol yr Ymddiriedolaeth

**Cwynion golygyddol**

Lleihaodd nifer y cwynion a gafwyd o 150,000 i lai na 124,000. Cafwyd 5,300 o gwynion am ein darllediadau o'r gwrthdaro rhwng Israel a Hezbollah yn Lebanon yn 2006, y cyfeiriwyd rhai ohonynt i'r Pwyllgor adeg apêl. Ymatebodd y rheolwyr i 90% o'r holl gwynion o fewn y targed o ddeg diwrnod gwaith. Fodd bynnag, roedd hyn yn is na tharged y rheolwyr o 93% – a berodd gryn siom i'r Pwyllgor, o ystyried nifer is y cwynion. Nododd y Pwyllgor hefyd ostyngiad bach yn lefel boddhad cyffredinol achwynwyr a gysylltodd â BBC Gwybodaeth ac a roddodd sgôr o 8 allan o 10 o leiaf o'r sgôr uchaf o 69% rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2006 i 59% yn ystod yr un cyfnod yn 2007 (wedi'i mesur mewn arolwg annibynnol gan Ipsos MORI). Bydd y Pwyllgor yn monitro'r prosesau newydd a roddwyd ar waith gan y Bwrdd Gweithredol i wella perfformiad.

Mae'r Uned Cwynion Golygyddol annibynnol yn gwrando cwynion gan bobl nad ydynt yn fodlon ar ymateb gan BBC Gwybodaeth. Cafodd 187 o gwynion a chadarnhaodd 31 ohonynt yn llwyr neu'n rhannol. Os bydd achwynwyr yn anfodlon ar benderfyniadau'r Uned, gallant apelio i'r Pwyllgor Safonau Golygyddol (Pwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr gynt). Cafwyd 32 o apeliadau o'r fath yn 2006/2007, y cadarnhawyd dwy ohonynt, cadarnhawyd pedair ohonynt yn rhannol, ac mewn achos arall cytunodd y Comisiwn i gadarnhau mater a gadarnhawyd eisoes gan yr Uned. Roedd y 32 o apeliadau yn cynrychioli 0.03% o'r cwynion i'r BBC yn ystod y cyfnod. Er bod yr Ymddiriedolwyr yn gwerthfawrogi nad yw penderfyniad i beidio ag apelio i'r Ymddiriedolwyr o reidrwydd yn golygu bod yr achwynydd yn fodlon ar ganlyniad, mae'r ganran fach o apeliadau yn dangos bod rheolwyr y BBC yn ymdrin yn llwyddiannus â'r mwyafrif o gwynion.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu am hyd yr amser a gymerir i ymdrin â chwynion gan yr Uned. Mae amseroedd ymateb wedi gwella yn dilyn ailstrwythuro'r Uned ac mae'r Pwyllgor yn disgwyl gwelliant pellach y flwyddyn nesaf.

**Gwaith ymchwil yr Ymddiriedolaeth**

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn gwneud gwaith ymchwil gyda'r cyhoedd am yr hyn y mae am ei weld fel rhan o system gwyno arfer gorau, a beth allai ei atal rhag gwneud cwyn (gweler tudalen 51).

"Rydym yn siarad am y BBC bob dydd, bydd rhywun bob amser yn sôn am ryw stori newyddion gan y BBC, mae bob amser yn destun trafod yn y gwaith, mewn tacsis. Rwyf bob amser yn dyfynnu'r BBC – rwyf wir yn credu ynddo."

Ymateb o Tehran o waith grŵp ffocws ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o BBC World Service, a gomisiynwyd gan y Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad. Dyn, o Tehran, yn cyfrannu at waith ymchwil yr Ymddiriedolaeth.

# Llywodraethedd y BBC
# Y Llywodraethwyr

## Roedd Bwrdd y Llywodraethwyr yn gyfrifol am oruchwyliaeth strategol y BBC hyd nes iddo gael ei ddisodli gan yr Ymddiriedolaeth ar ddechrau 2007.

### Pwyllgorau'r Llywodraethwyr

Roedd Bwrdd y Llywodraethwyr yn cyfeirio rhai materion yn rheolaidd i is-bwyllgorau a oedd yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd llawn. Y pwyllgorau oedd:

- **Y Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg** – a oedd yn adolygu cydymffurfiad y BBC â'i Ymrwymiad Masnachu Teg, Protocolau Masnachu World Service a chydberthynas fasnachu BBC Newyddion/ BBC World; yn ystyried heriau allanol sylweddol i allu'r BBC i gydymffurfio â'i Ymrwymiad Masnachu Teg; profi prosesau a rheolaethau masnachu teg drwy waith yr archwilydd masnachu teg annibynnol.
- **Y Pwyllgor Archwilio** – a oedd yn adolygu systemau rheolaeth fewnol y BBC; cydymffurfiad datganiadau ariannol y BBC â gofynion cyfreithiol a rheoliadol; cydberthynas y BBC â'i archwilwyr allanol; gwaith ac effeithiolrwydd archwilwyr mewnol y BBC; yr arolygon gwerth am arian a gomisiynwyd gan y Pwyllgor Archwilio.
- **Y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol** – a oedd yn craffu ar y gyllideb flynyddol ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd; yn adolygu achosion buddsoddi cyn i'r Bwrdd eu hystyried; yn adolygu hynt prosiectau a strategaethau pwysig, gan gynnwys eiddo; yn craffu ar gynigion y rheolwyr i hwyluso trafodaethau'r Bwrdd llawn.
- **Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth** – a oedd yn ystyried perfformiad aelodau unigol o'r Bwrdd Gweithredol ac yn argymell eu cyflog sylfaenol a'u taliadau bonws blynyddol i Fwrdd y Llywodraethwyr.
- **Y Pwyllgor Cwynion am Raglenni** – a oedd yn sicrhau yr ymdriniwyd â chwynion yn briodol gan y BBC, gan gynnwys gwrando rhai apeliadau penodol.

Roedd strwythur yr is-bwyllgorau hyn yn adlewyrchu'r system lywodraethu a oedd ar waith o dan y Siarter a'r Cytundeb a ddaeth i ben ar ddiwedd 2006. O dan y Siarter a'r Cytundeb newydd, mae rhai o gyfrifoldebau Bwrdd y Llywodraethwyr gynt wedi trosglwyddo i'r Bwrdd Gweithredol. Dyma pam, er enghraifft, fod gan Fwrdd y Llywodraethwyr bwyllgor archwilio ond nad oes gan yr Ymddiriedolaeth bwyllgor o'r fath, gan fod y cyfrifoldebau archwilio wedi trosglwyddo i'r Bwrdd Gweithredol o dan y Siarter newydd.

Nodir cofnod presenoldeb Llywodraethwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau isod.

**Presenoldeb y Bwrdd a Phwyllgorau, rhwng 1 Ebrill 2006 a 31 Rhagfyr 2006**

| | Bwrdd y Llywodraethwyr | Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg | Pwyllgor Archwilio | Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol | Pwyllgor Cydnabydd-iaeth | Pwyllgor Cwynion am Raglenni |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn | 8 | 3 | 5 | 10 | 4 | 7 |
| Michael Grade (hyd at 27 Tachwedd 2006) | 7/7 | | | 9/9 | 4/4 | |
| Anthony Salz | 7/8 | 3/3 | | 6/10 | 4/4 | |
| Deborah Bull | 7/8 | | | | 3/4 | 6/7 |
| Andrew Burns | 8/8 | | 5/5 | | | |
| Y Farwnes Deech (hyd at 22 Hydref 2006) | 5/6 | 1/2 | 4/4 | | | |
| Dermot Gleeson | 7/8 | | 4/5 | 10/10 | | |
| Yr Athro Merfyn Jones | 6/8 | 3/3 | | | | 6/7 |
| Yr Athro Fabian Monds | 8/8 | 3/3 | | | | 7/7 |
| Jeremy Peat | 7/8 | | 5/5 | 10/10 | | |
| Angela Sarkis (hyd at 22 Hydref 2006) | 5/6 | | | | | 5/5 |
| Ranjit Sondhi (hyd at 22 Hydref 2006) | 6/6 | | | | | |
| Richard Tait[1] | 6/8 | | | | | 3/7 |

[1]Cyfnod o absenoldeb y cytunwyd arno oherwydd salwch

## Yr Uned Lywodraethu

Cefnogwyd y Llywodraethwyr yn eu gwaith gan yr Uned Lywodraethu, a roddodd gyngor annibynnol a gwrthrychol yn ogystal â chymorth gweinyddol. Fe'i hailgyfluniwyd i greu Uned yr Ymddiriedolaeth ar ddiwedd 2006 fel rhan o'r broses o drawsnewid i'r trefniadau llywodraethu a sefydlwyd gan y Siarter a'r Cytundeb newydd. Ceir manylion Uned yr Ymddiriedolaeth ar dudalen 37.

Ar ddiwedd 2006, roedd gan yr Uned Lywodraethu 33 o aelodau o staff. Cyfanswm cost yr Uned ar gyfer naw mis cyntaf 2006/2007 oedd £7.9miliwn (£8.3miliwn 2005/2006 – cost blwyddyn lawn).

## Aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr a oedd mewn swydd o fis Ebrill 2006 i 31 Rhagfyr 2006

**Michael Grade CBE, Cadeirydd**
Cadeirydd y BBC hyd nes iddo ymddiswyddo ym mis Tachwedd 2006. Cadeirydd Pinewood Shepperton a Hemscott Group ac, o fis Medi 2006, Ocado. Cyn newyddiadurwr ac asiant theatrig. Bu ganddo sawl uwch swydd ym maes darlledu gan gynnwys Cyfarwyddwr Rhaglenni, LWT; darpar Reolwr Gyfarwyddwr, Teledu'r BBC; a Phrif Weithredwr, Channel 4.

**Anthony Salz, Is-Gadeirydd**
Cadeirydd Dros Dro y BBC o fis Tachwedd 2006 i fis Rhagfyr 2006 yn dilyn ymddiswyddiad Michael Grade. Is-Gadeirydd o fis Awst 2004. Cadeirydd y Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg; Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac aelod o'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol. Cyn uwch bartner ar y cyd yn y cwmni cyfreithwyr Freshfields Bruckhaus Deringer.

**Deborah Bull CBE**
Aelod o Bwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Cyfarwyddwr Creadigol, ROH2. Cyn Brif Ddawnsiwr, Y Bale Brenhinol.

**Syr Andrew Burns KCMG**
Llywodraethwr Rhyngwladol y BBC. Aelod o'r Pwyllgor Archwilio. Cyfarwyddwr Anweithredol J P Morgan Chinese Investment Trust a Chadeirydd Cyngor Royal Holloway, Prifysgol Llundain. Cyn ddiplomydd.

**Y Farwnes Beech DBE (Ruth)**
Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg. Dyfarnwr Annibynnol ym maes Addysg Uwch. Cyn Bennaeth Coleg St. Anne's, Rhydychen a chyn Gadeirydd yr Awdurdod Ffrwythloni ac Embryoleg Ddynol.

**Yr Athro Merfyn Jones**
Llywodraethwr Cenedlaethol y BBC yng Nghymru. Aelod o'r Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg, Pwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr a Phwyllgor y Cynghorau a'r Cyrff Ymgynghorol. Hanesydd a darlledwr. Cyn Is-Ganghellor Prifysgol Cymru, Bangor.

**Yr Athro Fabian Monds CBE**
Llywodraethwr Cenedlaethol y BBC yng Ngogledd Iwerddon. Aelod o Bwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr, y Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg a Phwyllgor y Cynghorau a'r Cyrff Ymgynghorol. Cadeirydd ymddiriedolwyr Apêl Plant mewn Angen y BBC. Arbenigwr ym maes cysylltiadau, systemau gwybodaeth ac astudiaethau entrepreneuraidd.

**Angela Sarkis CBE**
Aelod o Bwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr. Ysgrifennydd Cenedlaethol YMCA o fis Gorffennaf 2006. Cyn Brif Weithredwr, Cronfa Drefol yr Eglwysi a chyn Is-Lywydd yr African Caribbean Evangelical Alliance.

**Ranjit Sondhi CBE**
Llywodraethwr y BBC â chyfrifoldeb arbennig am Ranbarthau Lloegr. Cadeirydd Fforwm Cenedlaethol Lloegr a Phwyllgor y Cynghorau a'r Cyrff Ymgynghorol. Uwch Ddarlithydd yng Ngholeg Westhill ym Mhrifysgol Birmingham. Cyn Ddirprwy Gadeirydd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol.

*Trosglwyddodd tri o Lywodraethwyr eraill y BBC – Dermot Gleeson, Jeremy Peat a Richard Tait – i Ymddiriedolaeth y BBC. Ceir eu manylion bywgraffiadol ar dudalen 13.*

## Cydnabyddiaeth Bwrdd y Llywodraethwyr

**Mae'r adran hon o'n hadroddiad yn nodi'r polisi cydnabyddiaeth a'r gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr.**

Nid yw'r gofynion sydd ynghlwm â Rheoliadau Adroddiadau Cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr 2002 a rhai'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol yn gymwys i'r BBC, ond paratowyd yr adroddiad hwn ar sail y gofynion hynny lle bynnag y bo'r darpariaethau datgelu yn berthnasol ac yn gymwys. Caiff yr adrannau ar bensiynau a chydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan y Llywodraethwyr eu harchwilio.

Tan 31 Rhagfyr 2006, roedd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Llywodraethwyr, un o is-bwyllgorau Bwrdd y Llywodraethwyr, yn cynghori Bwrdd y Llywodraethwyr ar y polisi cydnabyddiaeth ar gyfer Bwrdd Gweithredol y BBC ac yn pennu eu cyflog sylfaenol ac unrhyw daliadau bonws. Cadeiriwyd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Llywodraethwyr gan Anthony Salz a'r aelodau eraill oedd Deborah Bull a Michael Grade.

Mynychwyd cyfarfodydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Llywodraethwyr hefyd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol (Mark Thompson) a Chyfarwyddwr, BBC People, i gynghori ar faterion yn ymwneud ag aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol a pherfformiad cyffredinol y BBC. Nid oedd y naill na'r llall yn bresennol pan ystyriwyd materion yn ymwneud â'u cydnabyddiaeth hwy eu hunain. Gallai'r Pwyllgor hefyd fanteisio ar arbenigedd mewnol drwy Bennaeth Gwobrwyo'r BBC, a oedd yn mynychu'r cyfarfodydd.

Gan gydymffurfio â Chod Cyfun FRC 2003 ar Lywodraethu Corfforaethol, roedd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Llywodraethwyr yn cael cyngor arbenigol gan gynghorwyr proffesiynol allanol ar faterion yn ymwneud â chydnabyddiaeth, yn arbennig o ran ystyried arfer yn y farchnad. Yn ystod y flwyddyn, cafodd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Llywodraethwyr gyngor gan Grŵp Hay ar ddata cymharol ar y farchnad wrth benderfynu ar gyflog a buddiannau'r Bwrdd Gweithredol.

### Llywodraethwyr: polisi cydnabyddiaeth

Derbyniodd aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr ffi a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Yn ogystal, fe'u had-dalwyd am unrhyw dreuliau yr aed iddynt ar fusnes y BBC, a chafodd unrhyw dreth yn deillio o'r treuliau hynny ei thalu'n uniongyrchol gan y BBC. Nodir y ffioedd a'r buddiannau trethadwy hynny yn y tabl ar dudalen 49.

### Pensiynau

Roedd y Cadeirydd yn gymwys i fod yn rhan o gynllun pensiwn, sy'n darparu ar gyfer buddiannau pensiwn ar sail buddiannau diffiniedig gyda chyfradd gronnol o 1/60fed o'r cyflog pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Mae'r enillion yn amodol ar uchafswm blynyddol (£108,600 y flwyddyn ar gyfer 2006/2007) i'r rhai a ymunodd â'r Cynllun Pensiwn ar ôl 31 Mai 1989. Mae'r Cynllun Pensiwn yn darparu ar gyfer ymddeoliad cynnar ar sail feddygol ac aswiriant bywyd o bedair gwaith y cyflog sylfaenol hyd at derfyn a ragnodir. Nid oedd unrhyw Lywodraethwr arall yn gymwys i fod yn rhan o gynllun pensiwn y BBC.

Dangosir manylion hawliadau buddiannau diffiniedig o gymharu â 2005/2006 ar dudalen 49.

## Hawliad pensiwn

| Enw (oedran ar 31 Mawrth 2007) | Cynlluniau buddiannau diffiniedig: Gwerthoedd blynyddol | | Gwerthoedd trosglwyddo[1] | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2007[2] £000 yf | Cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd dros y flwyddyn £000 yf | Gwerth trosglwyddo'r pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2007[2] £000 | Gwerth trosglwyddo'r pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2006 £000 | Cynnydd mewn gwerth trosglwyddo llai cyfraniadau'r aelodau dros y flwyddyn £000 |
| **Cadeirydd** | | | | | |
| Michael Grade (64)[2] | 4 | 1 | 59 | 50 | 6 |

[1]Gwerth trosglwyddo buddiannau pensiwn a gronnwyd yw'r gost amcangyfrifedig i'r Cynllun Pensiwn o ddarparu'r buddiannau pensiwn a gronnwyd hyd yn hyn. Mae nifer o ffactorau yn effeithio ar y gwerth, gan gynnwys oed yr unigolyn, cyflog pensiynadwy, blynyddoedd o wasanaeth pensiynadwy ac amodau'r farchnad fuddsoddi ar ddyddiad y cyfrifiad (yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd Actiwaraidd GN11). Nid yw'n swm a delir neu sy'n ddyledus i'r unigolyn ac felly ni ellir yn ystyrlon ei ychwanegu i gydnabyddiaeth. Mae effaith amodau'r farchnad fuddsoddi ar y gwerth trosglwyddo yn amrywio yn ôl oedran yr aelod – i aelodau hŷn, mae'r cyfrifiad yn adlewyrchu'r arenillion ar giltiau sy'n gysylltiedig â mynegai, ond arenillion difidendau ar Fynegai Holl Gyfranddaliadau'r FTSE yw'r prif ffactor sy'n dylanwadu ar y cyfrifiad i aelodau iau
[2]Ymddiswyddodd Michael Grade ar 27 Tachwedd 2006. Mae'r ffigurau ar ddiwedd y flwyddyn yn nodi'r cyfanswm pensiwn (cyn cymudo unrhyw bensiwn am arian parod) a chyfraniadau ar y dyddiad ymddeol. Wedyn prisiwyd cyfanswm ei fuddiannau ar 31 Mawrth 2007, gan gynnwys gwerth y buddiannau a dderbyniwyd rhwng 27 Tachwedd 2006 a 31 Mawrth 2007

## Cydnabyddiaeth a dderbyniwyd

Dangosir cydnabyddiaeth y Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn isod:

| | Ffi/cyflog sylfaenol £000 | Treuliau/ buddiannau £000 | 1 Ebrill 2006 – 31 Rhagfyr 2006 £000 | Cyfanswm 2006 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraethwyr** (ymddeolasant ar 31 Rhagfyr 2006 oni nodir yn wahanol) | | | | |
| Deborah Bull | 12 | 2 | 14 | 23 |
| Syr Andrew Burns | 21 | 7 | 28 | 36 |
| Y Farwnes Deech (ymddeolodd ar 22 Hydref 2006) | 9 | 5 | 14 | 23 |
| Dermot Gleeson (penodwyd yn Ymddiriedolwr)[1] | 12 | 7 | 19 | 26 |
| Michael Grade (ymddiswyddodd ar 27 Tachwedd 2006) | 55 | 21 | 76 | 110 |
| Yr Athro Merfyn Jones | 21 | 6 | 27 | 42 |
| Yr Athro Fabian Monds | 21 | 2 | 23 | 29 |
| Jeremy Peat (penodwyd yn Ymddiriedolwr)[1] | 21 | 2 | 23 | 34 |
| Anthony Salz[2] | 26 | 3 | 29 | 35 |
| Angela Sarkis (ymddeolodd ar 22 Hydref 2006) | 9 | 2 | 11 | 25 |
| Ranjit Sondhi (ymddeolodd ar 22 Hydref 2006) | 16 | 1 | 17 | 32 |
| Richard Tait (penodwyd yn Ymddiriedolwr)[1] | 12 | 2 | 14 | 19 |
| Cyfanswm y Llywodraethwyr | 235 | 60 | 295 | 434 |

[1]Derbyniodd Dermot Gleeson, Jeremy Peat a Richard Tait ffioedd fel Llywodraethwyr tan 31 Rhagfyr 2006.
[2]Anthony Salz oedd Cadeirydd Dros Dro Bwrdd y Llywodraethwyr yn dilyn ymddiswyddiad Michael Grade ar 27 Tachwedd 2006 tan ddiwedd ei gyfnod mewn swydd ar 31 Rhagfyr 2006, a derbyniodd ffioedd ar lefel y Cadeirydd yn ystod y cyfnod hwn

Ni wnaed unrhyw daliadau mewn perthynas â therfynu contract ac ni thalwyd unrhyw iawndal am golli swydd ac nid oedd unrhyw daliadau o'r fath yn daladwy i Lywodraethwyr yn ystod y flwyddyn.

Pennwyd y ffioedd a oedd yn daladwy i'r Llywodraethwyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

"Mae fel siop losin, fyddwch chi ddim yn hoffi popeth yno, ond byddwch chi wir yn dwli ar yr hyn y byddwch chi'n ei hoffi."

Diffiniad digymell o BBC Two. Dyn rhwng 25 a 44 oed, o Gaerdydd, yn cyfrannu at ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth ar drwyddedau gwasanaeth.

# Cynlluniau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer 2007/2008

## Bydd y flwyddyn i ddod yn flwyddyn brysur i'r Ymddiriedolaeth wrth i ni barhau i ddatblygu a gweithredu systemau llywodraethu newydd y BBC a sefydlu'r Ymddiriedolaeth fel cynrychiolydd talwyr ffi'r drwydded.

Mae ein dyletswyddau o dan y Siarter newydd wedi'u trefnu o dan dri phrif grŵp:

- Gwarchod incwm ffi'r drwydded ac adnoddau eraill
- Cynnal budd y cyhoedd yn y BBC, yn arbennig fuddiannau talwyr ffi'r drwydded
- Hyrwyddo Pwrpasau Cyhoeddus y BBC yn effeithiol

Amlinellir elfennau allweddol ein cynlluniau ar gyfer 2007/2008 sy'n ymdrin â'r materion hyn isod.

### Gwarchod incwm ffi'r drwydded

**Ailflaenoriaethu**
Yn dilyn setliad ffi'r drwydded, mae Bwrdd Gweithredol y BBC wedi cynnal ymarfer ailflaenoriaethu helaeth. Byddwn yn archwilio'r cynigion yn agos er mwyn diogelu buddiannau talwyr ffi'r drwydded a sicrhau yr ystyrir eu barn wrth wneud penderfyniadau gwariant.

**Astudiaethau gwerth am arian**
Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal astudiaethau gwerth am arian o feysydd penodol o weithgarwch y BBC. Yn 2007/2008, byddwn yn ymchwilio i:

- Ddefnydd y BBC o'r sbectrwm radio – er mwyn sicrhau bod y BBC yn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r adnodd gwerthfawr hwn
- Comisiynu mewnol – er mwyn sicrhau bod prosesau comisiynu'r BBC yn cynnig gwerth ac yn adlewyrchu ein blaenoriaethau strategol
- Caffael – er mwyn sicrhau bod y BBC yn cael y gwerth gorau gan ei gyflenwyr
- Paratoadau ar gyfer newid i ddigidol – er mwyn sicrhau bod y BBC yn chwarae rhan effeithiol yn y broses o newid i ddigidol

Yn ogystal, byddwn yn cynnal astudiaeth o rôl y BBC yn y farchnad dalent – sicrhau bod y BBC yn rhoi'r gwerth mwyaf i gynulleidfaoedd.

### Cynnal buddiannau talwyr ffi'r drwydded

**Profion Gwerth Cyhoeddus**
Rydym yn disgwyl cynnal nifer o Brofion Gwerth Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn nesaf. Rydym eisoes wedi cyhoeddi prawf ar gynlluniau'r BBC i lansio sianel deledu manylder uwch. Ceir manylion ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Yn dilyn diddymu BBC jam edrychwn ymlaen at gael cynigion newydd gan y Bwrdd Gweithredol, y disgwyliwn iddynt fod yn ddarostyngedig i brawf gwerth cyhoeddus. Mae'n bosibl y bydd profion eraill yn deillio o'r gwaith ailflaenoriaethu.

**Ymgysylltu â'r gynulleidfa**
Rydym yn awyddus i'w gwneud mor hawdd â phosibl i dalwyr ffi'r drwydded gymryd rhan yn ein hymgynghoriadau. Er mwyn cael gwybod syniadau talwyr ffi'r drwydded eu hunain am y ffordd orau o gyflawni hyn, rydym wrthi ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ffyrdd o ymgysylltu â chynulleidfaoedd y BBC. Ceir manylion llawn a ffurflen ymgynghori ar ein gwefan.

**Fframwaith cwynion**
Mae'n bwysig y caiff unrhyw un sydd â chŵyn am y BBC syniad clir o sut i gwyno, ac y gallant wneud hynny gan wybod yr ymdrinnir â'r gŵyn o ddifrif ac yn amserol. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar fframwaith cwynion yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn.

### Hyrwyddo Pwrpasau Cyhoeddus y BBC yn effeithiol

**Cylchoedd gwaith pwrpas**
Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gennym ar ein cylchoedd gwaith pwrpas drafft a byddwn yn cwblhau fersiynau terfynol y cylchoedd gwaith yn ystod yr haf ochr yn ochr â barn yr Ymddiriedolaeth ar ailflaenoriaethu.

**Trwyddedau gwasanaeth**
Am y tro cyntaf, mae gan bob un o wasanaethau'r BBC drwydded yn nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir ganddo. Cyhoeddwyd trwyddedau gwasanaeth interim gennym ar ddechrau 2007. Byddwn yn eu diwygio'n ddiweddarach eleni yn sgîl ein hymgynghoriad cyhoeddus.

**Arolygon gwasanaeth**
Byddwn yn adolygu pob un o wasanaethau'r BBC o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd ein harolwg cyntaf yn ymdrin â bbc.co.uk.

Gellir gweld ein cynllun gwaith llawn yn bbc.co.uk/bbctrust. Gallwch hefyd weld manylion am sut y gall y cyhoedd gyfrannu at yr amrywiol ymgynghoriadau y bwriadwn eu cynnal

# Cysylltu ag Ymddiriedolaeth y BBC

**Mixed Sources**
Product group from well-managed forests, controlled sources and recycled wood or fibre
www.fsc.org Cert no. TT-COC-002228
© 1996 Forest Stewardship Council
FSC

### Papur

Argraffwyd yr adroddiad hwn ar bapur a wnaed o gymysgedd o fwydion o 75% o ffibr wedi ei ailgylchu a 25% o ffibr newydd. Caiff y mwydion eu cannu gan ddefnyddio cyfuniad o ddulliau Elfennol Di-glorin (ECF) a Di-glorin Llwyr (TCF). Daw'r ffibrau newydd o ffermydd a reolir sydd â rhaglen ailblannu lem. Ni ddefnyddiwyd mwydion o goedwigoedd glaw.

### Argraffu

Argraffwyd yr adroddiad gan ddefnyddio inciau a wnaed o soia, sy'n fioddiraddiadwy, yn adnewyddadwy ac sy'n gollwng llai o gyfansoddion organig allweddol nag inciau a wnaed o fwynau. Mae gan yr argraffwr Ardystiad Rheoli Amgylcheddol ISO 14001 ac achrediad yr FSC.

Mae'r BBC yn croesawu sylwadau neu ymholiadau ynghylch unrhyw agwedd ar ei weithrediadau.

### Ymddiriedolaeth y BBC

Dylech anfon unrhyw sylwadau neu gwestiynau sydd gennych am yr Ymddiriedolaeth i'r cyfeiriad isod yn uniongyrchol:
BBC Trust Unit
Room 211
35 Marylebone High Street
London W1U 4AA
Ffôn: Llinell BBC Gwybodaeth 0870 010 3100*
Ffôn testun: 08700 100 212
(Llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.30am a 5.30pm)
E-bost: trust.enquiries@bbc.co.uk

### Cwynion am raglenni a chwynion golygyddol

Os credwch fod un o raglenni neu wefannau'r BBC wedi methu â chyrraedd safonau golygyddol y BBC dylech gysylltu â:
BBC Complaints
PO Box 1922
Glasgow G2 3WT
Ffôn: 08700 100 222
Ffôn testun: 08700 100 212
Gwefan: bbc.co.uk/complaints

### Gweithrediadau'r BBC

Adrannau perthnasol y BBC sydd yn y sefyllfa orau i ymdrin â sylwadau neu ymholiadau ynghylch gweithrediadau'r BBC. Cysylltwch â:
BBC Information
PO Box 1922
Glasgow G2 3WT
Ffôn: 08700 100 222*
(24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos)
Ffôn testun: 08700 100 212
Ffacs: 0141 307 5770
Gwefan: bbc.co.uk/info

**Gellir monitro neu recordio galwadau i'r rhif hwn at ddibenion hyfforddi*

### Cynghorau Cynulleidfa'r BBC

Mae'r Cynghorau Cynulleidfa yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn helpu Ymddiriedolaeth y BBC i ddeall anghenion, buddiannau a phryderon cynulleidfaoedd ledled y DU, ac i nodi ffyrdd y gall y BBC wasanaethu ei gynulleidfaoedd yn well. Os hoffech gysylltu â'r Cynghorau Cynulleidfa gallwch ysgrifennu atynt yn y cyfeiriadau isod:

Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru
Cyngor Cynulleidfa'r BBC yng Nghymru
Ystafell E5108
Y Ganolfan Ddarlledu
Llandaf
Caerdydd CF5 2YQ

Head of Governance and Accountability Scotland
BBC Audience Council Scotland
Zone G.11
40 Pacific Quay
Glasgow G51 2DA

Head of Governance and Accountability Northern Ireland
BBC Audience Council Northern Ireland
BBC Broadcasting House
Ormeau Avenue
Belfast BT2 8HQ

Head of Governance and Accountability England
BBC Audience Council England
BBC Birmingham
The Mailbox
Birmingham B1 1RF

### Gwybodaeth arall

Mae *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon* y BBC ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ledled y DU ac ar wefan Ymddiriedolwyr y BBC yn bbctrust.co.uk. Mae hefyd ar gael yn Saesneg, mewn fersiwn sain ac mewn Braille. Cyhoeddir *Arolygon Blynyddol* ar gyfer BBC Cymru, BBC Scotland, BBC Northern Ireland, BBC English Regions a BBC World Service hefyd.

Atgynhyrchwyd y lluniau canlynol drwy garedigrwydd:


**Matt Squire**
Clawr blaen (Manchester Passion)


**Andrew Catterall**
Tudalen 2 (Syr Michael Lyons)
Tudalen 12 (Ymddiriedolwyr y BBC)

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan Sheppard Day Corporate (rhan o Grŵp 35)

Cyfieithwyd gan Wasanaeth Cyfieithu Prysg

British Broadcasting Corporation
Broadcasting House
London W1A 1AA
bbc.co.uk
ⓗ BBC 2007






O dan delerau ei Siarter mae'n ofynnol i'r BBC gynhyrchu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon mewn dwy ran. Ymddiriedolaeth y BBC sy'n paratoi'r rhan gyntaf, a Bwrdd Gweithredol y BBC sy'n paratoi'r ail ran ac mae'r ddwy ran yn adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau gwahanol y ddau gorff. Mae'r ddwy ran gyda'i gilydd yn darparu arolwg ac asesiad o flwyddyn y BBC.